



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 29 Mawrth 2011
Tuesday, 29 March 2011**

Cynnwys
Contents

- 4 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister
- 29 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement
- 39 Datganiad am Adolygiad Llywodraeth Leol: Ai Dyma'r Ffordd Orau o Ddarparu
Gwasanaethau—Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol?
Statement on the Review of Local Government—Local Regional National: What
Services Are Best Delivered Where?
- 55 Datganiad am Adroddiad ar Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru
Statement on the Report on the Structure of Education Services in Wales
- 69 Cynnig i Gymeradwyo'r Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cychwyn
Deddfau'r Cynulliad, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed ac Addasiadau) 2011
Motion to Approve the Government of Wales Act 2006 (Commencement of
Assembly Act Provisions, Transitional and Saving Provisions and Modifications)
Order 2011
- 76 Cynnig i Gymeradwyo'r Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010
(Cymru) 2011
Motion to Approve the Sunbeds (Regulation) Act 2010 (Wales) Regulations 2011
- 80 Cynnig i Gymeradwyo'r Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Aildefnyddio a
Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011
Motion to Approve the Recycling, Preparation for Re-use and Composting Targets
(Monitoring and Penalties) (Wales) Regulations 2011
- 83 Cynigion i Gymeradwyo'r Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu
Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011 a'r Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010
(Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
Motions to Approve the Draft Equality Act 2010 (Specification of Relevant Welsh
Authorities) Order 2011, and the Draft Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales)
Regulations 2011
- 89 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Mesur Seneddol Diwygio Lles
Legislative Consent Motion in respect of the Welfare Reform Bill
- 90 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.57 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch
Addysg (Cymru)
Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed Education (Wales)
Measure
- 90 Grŵp 1: Amcan y Cydlafurio (Gwelliant 1)
Group 1: Collaboration Objective (Amendment 1)
- 93 Grŵp 2: Cynigion Gan Awdurdodau Lleol i Ffedereiddio Ysgolion—Gofynion yr
Ymgynghoriad ac Ysgolion Bach (Gwelliannau 2, 3 a 6)
Group 2: Proposals by Local Authorities to Federate Schools—Consultation
Requirements and Small Schools (Amendments 2, 3 and 6)

- 99 Grŵp 3: Rheoliadau mewn Perthynas â Ffedereiddio—Hawl Ysgol i Arael Ffederasiwn (Gwelliannau 4 a 5)
Group 3: Regulations in Relation to Federation—Rights of a School to Leave a Federation (Amendments 4 and 5)
- 103 Grŵp 4: Ffedereiddio drwy Gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru (Gwelliant 7)
Group 4: Federation by Direction of the Welsh Ministers (Amendment 7)
- 105 Grŵp 5: Ysgolion Sefydledig (Gwelliannau 8, 9, 10, 11, 12, 18, 20 ac 21)
Group 5: Foundation Schools (Amendments 8, 9, 10, 11, 12, 18, 20 and 21)
- 109 Grŵp 6: Gorchmynion a Rheoliadau—Gweithdrefn (Gwelliannau 13, 14, 22, 15, 16 a 23)
Group 6: Orders and Regulations—Procedure (Amendments 13, 14, 22, 15, 16 and 23)
- 114 Grŵp 7: Rheoliadau—Cynlluniau Peilot (Gwelliant 17)
Group 7: Regulations—Pilot Schemes (Amendment 17)
- 116 Grŵp 8: Apelio yn erbyn Cynigion Awdurdod Lleol i Ffedereiddio (Gwelliant 19)
Group 8: Appeals against Proposals by a Local Authority to Federate (Amendment 19)
- 121 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.58 i Gymeradwyo'r Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)
Stage 4 Standing Order No. 23.58 Motion to Approve the Proposed Education (Wales) Measure

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog.
The Presiding Officer: Order for questions to the First Minister.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Cyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

I. Nick Ramsay: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. OAQ(3)3504(FM)*

The First Minister (Carwyn Jones): We are committed to protecting front-line health services.

Nick Ramsay: Thank you for that answer, First Minister. This is the last set of questions to you and your Government before dissolution, and I am sure that you will agree that over the last four years, much has been achieved, but that a great deal has not. If you look at the NHS, we have a situation where waiting times are longer than they were before; ambulance response times are not as they should be; and, if you look at a whole plethora of health indicators, Wales is not performing as well as it should be in the NHS area. First Minister, you recently said that you wanted to stop the cuts. Will you now join us on this side of the Chamber in stopping the £1 billion-worth of cuts that your party is proposing to make to the NHS in Wales over the next three years?

The First Minister: The fact is that referral-to-treatment times have improved greatly over the past four years, but let us come back to this tired old argument about the alleged cuts. We know for a fact that, in England, there will be cuts of £500 million in actual terms, not just in real terms—the House of Commons' library has confirmed it today. We also know that this figure of £1 billion has been plucked out of thin air. Your candidate in the Aberavon constituency is claiming that Neath Port Talbot hospital is going to close. There is also the idea that

Health and Social Services Budget

I. Nick Ramsay: *Will the First Minister make a statement on the Health and Social Services budget. OAQ(3)3504(FM)*

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Rydym wedi ymrwymo i warchod gwasanaethau iechyd rheng flaen.

Nick Ramsay: Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Dyma'r gyfres olaf o gwestiynau i chi a'ch Llywodraeth cyn y diddymiad, ac rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod llawer wedi'i gyflawni dros y pedair blynedd diwethaf, ond bod llawer iawn heb ei gyflawni. Os edrychwch ar y GIG, fe welwch ein bod mewn sefyllfa lle mae amseroedd aros yn llawer hwy nag oeddynt o'r blaen; nid yw amseroedd ymateb ambiwlansys yr hyn y dylent fod; ac, os edrychwch ar lu o ddangosyddion iechyd, fe welwch nad yw Cymru yn perfformio cystal ag y dylai ym maes y GIG. Brif Weinidog, dywedoch yn ddiweddar eich bod eisiau atal y toriadau. A ymunwch â ni ar ochr hon y Siambr i atal gwerth £1 biliwn o doriadau y mae eich plaid yn bwriadu eu gwneud i'r GIG yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf?

Y Prif Weinidog: Y ffaith yw bod yr amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth wedi gwella'n fawr dros y pedair blynedd diwethaf, ond gadewch inni ddychwelyd at yr hen ddadl dreuliedig hon ynghylch y toriadau honedig. Rydym yn gwybod yn iawn y bydd toriadau o £500 miliwn mewn termau real yn Lloegr—mae llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi cadarnhau hynny heddiw. Rydym hefyd yn gwybod bod y ffigwr hwn o £1 biliwn wedi'i dynnu o'r gwynt. Mae eich ymgeisydd yn etholaeth Aberafan yn honni bod ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn mynd i gau. Mae

there has somehow been a cut in the number of nurses in Wales over the past four years; the number of nurses has gone up from roughly 25,180 to 25,199. That is a small increase, not the 25 per cent cut that you suggest in your literature. At the end of the day, people see through the party opposite; they know full well that what they see is a fib factory.

Joyce Watson: Will the First Minister join me in welcoming the introduction of a £50 a week maximum charge for people receiving council homecare services? Across my region, there has been a historic disparity in how much people have been charged for homecare. I remember particularly a letter that I received a couple of years ago from an 89-year-old woman in Gwynedd who was extremely distressed because her charges had suddenly increased by 50 per cent. A system that created such wide inconsistencies, and the pressure that this put on people's budgets, was plainly unfair. Will you join me therefore in applauding the Deputy Minister for Social Services, Gwenda Thomas, on her efforts to bring fairness to the system, which will make a real difference to the people who rely on these services?

The First Minister: I will join you in commending the Deputy Minister for the introduction of this maximum charge. It means that there will be greater equality across Wales when it comes to homecare charges.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): First Minister, in 1999, just over 10 years ago, Labour promised in its flagship policy document, 'A Better Wales', in setting out what success would look like in 2010, that output per head should have risen from around 83 per cent of the UK average in the 1990s, to at least 90 per cent, generating an additional £5 billion at 1997 prices. It went on to state that with the assistance of Objective 1 resources, output per head in the Valleys and the west of Wales should have increased from about 73 per cent of the UK average during the 1990s to over 80 per cent. Instead, what do we have? We have not that success that it trumpeted, but output

hefyd y syniad bod gostyngiad rywsut wedi bod yn nifer y nyrsys yng Nghymru dros y pedair blynedd diwethaf; mae nifer y nyrsys wedi cynyddu o tua 25,180 i 25,199. Mae hynny'n gynnydd bychan; nid yw hynny'n doriad o 25 y cant yr awgrymwch yn eich deunydd. Ar ddiwedd y dydd, mae pobl yn gweld drwy'r blaid gyferbyn; maent yn gwybod yn iawn mai'r hyn a welant yw ffatri gelwyddau.

Joyce Watson: A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i groesawu cyflwyno'r taliad uchaf o £50 yr wythnos ar gyfer pobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cartref y cyngor? Ar draws fy rhanbarth i, bu gwahaniaeth hanesyddol o ran y swm a godir ar bobl am ofal yn y cartref. Rwy'n cofio derbyn llythyr ychydig o flynyddoedd yn ôl oddi wrth fenyw 89 mlwydd oed yng Ngwynedd a oedd yn hynod o ofidus oherwydd bod y tâl wedi cynyddu'n sydyn gan 50 y cant. Roedd system a oedd yn creu anghysondebau eang o'r fath, a'r pwysau a roddwyd ar gyllidebau pobl, yn amlwg yn annheg. A wnewch chi ymuno â mi, felly, i ganmol y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, ar ei hymdrechion i ddod â thegwch i'r system, a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn?

Y Prif Weinidog: Ymunaf â chi i ganmol y Dirprwy Weinidog ynghylch cyflwyno'r taliad uchaf hwn. Mae'n golygu y bydd mwy o gydraddoldeb ar draws Cymru o ran taliadau gofal cartref.

Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig (Nick Bourne): Brif Weinidog, yn 1999, ychydig dros 10 mlynedd yn ôl, addawodd Llafur yn ei dogfen bolisi blaenllaw, 'Gwell Cymru', wrth amlinellu beth fyddai llwyddiant yn 2010, y dylai allbwn y pen fod wedi cynyddu o oddeutu 83 y cant o gyfartaledd y DU yn y 1990au, i o leiaf 90 y cant, gan gynhyrchu swm ychwanegol o £5 biliwn yn ôl prisiau 1997. Aeth ymlaen i ddweud y dylai allbwn y pen, gyda chymorth adnoddau Amcan 1, yn y Cymoedd a gorllewin Cymru fod wedi cynyddu o oddeutu 73 y cant o gyfartaledd y DU yn y 1990au i fwy na 80 y cant. Yn hytrach, beth sydd gennym? Nid oes gennym y llwyddiant y bu ymffrostio yn ei glych, ond

plummeting to 74 per cent in Wales overall, not the 90 per cent that was set out, and in west Wales and the Valleys, output at 63 per cent rather than the over 80 per cent that the document trumpeted. How do you account for this failure?

The First Minister: We know that gross domestic household income has increased significantly in that period of time, to the point where it has improved markedly when compared to the UK average.

Nick Bourne: That was a Labour document setting out those targets of success that you missed miserably. That is what failure looks like; I can understand you not wanting to acknowledge that, but that is what it is. Let me turn to manufacturing. In 1997, 28 per cent of Welsh gross value added was from manufacturing. By 2008, it had fallen to just 17 per cent at the same time as it was increasing in England and Scotland. Over the last five weeks—I have checked—I have been asking you about the manufacturing strategy. You promised that we would have it before the end of this Assembly—before *purdah* kicks in. As recently as last week, you said,

‘the publication of the manufacturing strategy is planned before the Assembly dissolves.’

Imagine my surprise, therefore, when I subsequently received a letter from you that stated,

‘During First Minister’s questions this week I said that our manufacturing strategy would be published before the Assembly dissolves. I have subsequently been advised that this is not the case and to avoid any further confusion’—

although there was not any—

‘I thought it important to set the record straight as soon as possible’.

Are you not leading? Do you not know about your own manufacturing strategy?

plymiodd allbynnau i 74 y cant yng Nghymru yn gyffredinol, yn hytrach na'r 90 y cant a amlinellwyd, ac yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, roedd yr allbwn yn 63 y cant yn hytrach na'r 80 y cant a mwy yr oedd y ddogfen yn ei gyhoeddi. Sut ydych chi'n esbonio'r methiant hwn?

Y Prif Weinidog: Rydym yn gwybod bod incwm domestig crynswth aelwydydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw, i'r pwynt ei fod wedi gwella'n sylweddol o'i gymharu â chyfartaledd y DU.

Nick Bourne: Ddogfen Llafur oedd honno, oedd yn nodi'r targedau hynny o lwyddiant yr ydych wedi methu â'u cyflawni yn druenus. Dyna beth a olygir wrth fethiant; gallaf ddeall nad ydych eisiau cydnabod hynny, ond dyna'r hyn ydyw. Gadewch imi droi at weithgynhyrchu. Yn 1997, roedd 28 y cant o werth ychwanegol crynswth Cymru yn dod o weithgynhyrchu. Erbyn 2008, roedd wedi gostwng i ddim ond 17 y cant ac ar yr un pryd ag yr oedd yn cynyddu yn Lloegr a'r Alban. Dros y pum wythnos diwethaf—rwyf wedi gwirio hyn—rwyf wedi bod yn gofyn i chi am y strategaeth gweithgynhyrchu. Bu ichi addo y byddem yn ei chael cyn diwedd y Cynulliad hwn—cyn dechrau *purdah*. Mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, dywedoch,

‘bwriedir cyhoeddi'r strategaeth gweithgynhyrchu cyn i'r Cynulliad gael ei ddi-ddymu.’

Dychmygwch fy syndod, felly, pan dderbyniais lythyr gennych a oedd yn nodi,

Yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog yr wythnos hon dywedais y byddai ein strategaeth gweithgynhyrchu yn cael ei chyhoeddi cyn i'r Cynulliad gael ei ddi-ddymu. Ers hynny, rwyf wedi cael fy nghynghori na fydd hyn yn digwydd ac i osgoi unrhyw ddryswch pellach—

er nad oedd unrhyw ddryswch—

Roedd yn bwysig imi egluro'r sefyllfa cyn gynted ag y bo modd.

Onid ydych yn arwain? Onid ydych yn gwybod am eich strategaeth

gweithgynhyrchu eich hun?

The First Minister: There are two strategies; one was published on 16 March and the other is due to be published in the autumn. In order to make it clear, I wanted to ensure that you knew that the second strategy will be published in the autumn, but that the first strategy had already been published on 16 March.

Y Prif Weinidog: Mae dwy strategaeth; cafodd un ei chyhoeddi ar 16 Mawrth a bydd y llall yn cael ei chyhoeddi yn yr hydref. Er mwyn ei gwneud yn glir, roeddwn am sicrhau eich bod yn gwybod y bydd yr ail strategaeth yn cael ei chyhoeddi yn yr hydref, ond bod y strategaeth gyntaf wedi'i chyhoeddi ar 16 Mawrth.

Nick Bourne: That is not very convincing, especially when I referred to the first strategy last week. I said then,

Nick Bourne: Nid yw hynny'n argyhoeddiadol iawn, yn enwedig pan gyfeiriais at y strategaeth gyntaf yr wythnos diwethaf. Dywedais bryd hynny,

'Within the last week, the report of the manufacturing forum has been published, and it is expressly stated in the chairman's foreword that...this is...not a Government strategy.'

O fewn yr wythnos ddiwethaf, cyhoeddwyd adroddiad y fforwm gweithgynhyrchu, a nodir yn benodol yn rhagair y cadeirydd nad strategaeth y Llywodraeth yw hon.

I continued,

Ymhellach, gofynnais y canlynol:

'Will you confirm that that is not the strategy and that yours will be forthcoming in the remaining 10 days of this Assembly?'

A wnewch chi gadarnhau nad honno yw'r strategaeth ac y bydd eich strategaeth chi ar gael yn ystod y 10 diwrnod sy'n weddill o'r Cynulliad hwn?

You answered,

Eich ateb chi oedd:

'As I said last week in the Chamber, the publication of the manufacturing strategy is planned before the Assembly dissolves.'

Fel y dywedais yn y Siambr yr wythnos diwethaf, bwriedir cyhoeddi'r strategaeth gweithgynhyrchu cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu.

How is it that you do not know about your own manufacturing strategy?

Sut nad ydych yn gwybod am eich strategaeth gweithgynhyrchu eich hun?

The First Minister: As I have made clear, the strategy that was produced—'Manufacturing in Wales' is a strategy—was produced on 16 March. As I have also made clear, there will be a further strategy that will be produced in the autumn.

Y Prif Weinidog: Fel yr wyf wedi'i wneud yn glir, cafodd y strategaeth a gynhyrchwyd—mae 'Gweithgynhyrchu yng Nghymru' yn strategaeth—ei chreu ar 16 Mawrth. Fel yr wyf hefyd wedi'i wneud yn glir, bydd strategaeth bellach a fydd yn cael ei chynhyrchu yn yr hydref.

Nick Bourne: I have pressed you time after time on whether we would have a strategy within this Assembly term. I said that we had waited three years and 11 months to get a strategy and you said that the reason for that was in order to get it right, and that it would come before this Assembly was dissolved. How is it that, last week—even when I put it

Nick Bourne: Rwyf wedi pwyso arnoch dro ar ôl tro ynghylch a fyddai gennym strategaeth o fewn tymor y Cynulliad hwn. Dywedais ein bod wedi aros tair blynedd a 11 mis i gael strategaeth, a dywedoch mai'r rheswm am hynny oedd er mwyn cael pethau'n iawn, ac y byddai'n ymddangos cyn i'r Cynulliad hwn gael ei ddiddymu. Sut

to you in terms of the other document—you did not know when your own manufacturing strategy was going to be published?

The First Minister: As I have said to you, the ‘Manufacturing in Wales’ strategy was published on 16 March. That is a strategy document. Here we have the Tories talking to us about manufacturing, when we know that their budget announcement has ensured that large employers in Wales, such as Tata Steel, are now struggling because of the emissions taxes that they have imposed on industry. We see Vince Cable scuttling to Tata today to try to calm Tata down; that is not the way to encourage investment in Wales, and that is not the way to encourage manufacturing.

Nick Bourne: You may want to try to mask the fact that you do not know, as the leader of your party, when you will publish your manufacturing strategy. You might also try to criticise the present Westminster Government. However, the fact is that manufacturing fell from 28 per cent of GVA in 1997 to 17 per cent in 2008, under a Labour Government at Westminster, and under a Labour administration here. You do not know when your own manufacturing strategy will be published. You then tell us that you have subsequently been told when the manufacturing strategy is coming out. Why did you not know that as First Minister?

The First Minister: I believe that I have answered your question. Here we have a party that did its utmost to wreck manufacturing in this country, and would still do it if it was given the chance, and is still doing it now. We know that. The party on the opposite side of the Chamber has no interest in creating jobs; it should stick to what it does best, which is destroying the economy.

Helen Mary Jones: I wish to bring us back to the health budget. I am sure that you would agree that the investment in local

felly, yr wythnos diwethaf—hyd yn oed pan godais i hyn yn nhermau’r ddogfen arall—nad oeddech yn gwybod pryd fyddai eich strategaeth gweithgynhyrchu chi eich hun yn cael ei chyhoeddi?

Y Prif Weinidog: Fel yr wyf wedi’i ddweud wrthy, cafodd strategaeth ‘Gweithgynhyrchu yng Nghymru’ ei chyhoeddi ar 16 Mawrth. Dogfen strategaeth yw honno. Mae’r Torïaid yma yn siarad â ni am weithgynhyrchu, a hynny er ein bod yn gwybod i’w cyhoeddiad cyllidebol hwy sicrhau bod cyflogwyr mawr yng Nghymru, megis Tata Steel, bellach yn ei chael yn anodd o ganlyniad i’r trethi allyriadau a orfodwyd ar y diwydiant ganddynt. Rydym yn gweld Vince Cable yn ei heglu hi i Tata heddiw i geisio tawelu Tata; nid dyna’r ffordd i annog buddsoddiad yng Nghymru, ac nid dyna’r ffordd i annog gweithgynhyrchu.

Nick Bourne: Efallai eich bod am geisio cuddio’r ffaith nad ydych yn gwybod, fel arweinydd eich plaid, pryd y byddwch yn cyhoeddi eich strategaeth gweithgynhyrchu. Efallai eich bod hefyd yn ceisio beirniadu’r Llywodraeth bresennol yn San Steffan. Fodd bynnag, y ffaith amdani yw i weithgynhyrchu ostwng o 28 y cant o werth ychwanegol crynswth yn 1997 i 17 y cant yn 2008, o dan Lywodraeth Lafur yn San Steffan, ac o dan weinyddiaeth Lafur yma. Nid ydych yn gwybod pryd y bydd eich strategaeth gweithgynhyrchu eich hun yn cael ei chyhoeddi. Yna dywedwch wrthym eich bod wedi cael gwybod ers hynny pryd y bydd eich strategaeth weithgynhyrchu yn dod allan. Pam nad oeddech chi’n gwybod hynny fel Prif Weinidog?

Y Prif Weinidog: Credaf fy mod wedi ateb eich cwestiwn. Dyma blaid a wnaeth ei gorau glas i ddryllio gweithgynhyrchu yn y wlad hon, ac a fyddai’n dal i wneud hynny pe rhoddid y cyfle iddi, ac sy’n parhau i wneud hynny yn awr. Rydym yn gwybod hynny. Nid oes gan y blaid ar ochr arall y Siambr unrhyw ddiddordeb mewn creu swyddi; dylai gadw at yr hyn y mae’n ei wneud orau, sef dinistrio’r economi.

Helen Mary Jones: Hoffwn ddychwelyd at y gyllideb iechyd. Rwy’n siŵr y cytunwch fod y buddsoddiad mewn gwasanaethau ysbty

hospital services through the ‘One Wales’ period is something that all of us who have supported your Government can be pleased with. Do you believe that that support for local hospital services should continue under the next Government, whoever makes it up? I am sorry, I do not mean ‘makes it up’. [*Laughter.*] I do not mean to suggest that any Government in this place has ever been, in any sense, imaginary. I believe that you get the gist of my question, First Minister. [*Laughter.*]

The First Minister: I am sure that whoever comprises the next Government after 5 May will want to ensure that health services are delivered as locally as possible.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): A weak economy, underfunded schools and an NHS that costs more but delivers a lot less; is that the best that Labour and Plaid can deliver for Wales?

The First Minister: Let us consider what the Lib Dems have delivered in England. Look at what they have done with tuition fees, for example—that is the ultimate breach of promise before the public. I am sure that students would rather be in Wales than across the border. We see the foundation phase being rolled out across Wales and we see the investment in the NHS, when we know that there will be a cut of £500 million in the health budget in England in the future. We know, of course, that council taxes are lower in Wales, that local government is better supported in Wales and that there are many good reasons why people want to live in Wales—to avoid the destruction being visited by the Lib Dems upon England.

Kirsty Williams: In March 2007, our unemployment rate in Wales—you are, after all, First Minister of Wales—was the same as the UK average. After four years of your Labour and Plaid Government, we have the highest unemployment rate of the UK nations. What do you think that you and Ieuan Wyn Jones could have done differently?

lleol drwy gyfnod ‘Cymru’n Un’ yn rhywbeth y gall pob un ohonom sydd wedi cefnogi eich Llywodraeth fod yn falch ohono. A ydych yn credu y dylai’r gefnogaeth i wasanaethau ysbyty lleol barhau o dan y Llywodraeth nesaf, pwy bynnag sy’n ei gwneud i fyny? Ymddiheuriadau, nid wyf yn golygu ‘gwneud i fyny’. [*Chwerthin.*] Nid wyf eisiau awgrymu bod unrhyw Lywodraeth yn y lle hwn wedi bod erioed, mewn unrhyw ffordd, yn ddychmygol. Credaf eich bod yn deall byrdwn fy nghestiwn, Brif Weinidog. [*Chwerthin.*]

Y Prif Weinidog: Rwy’n siŵr y bydd pwy bynnag sy’n rhan o’r Llywodraeth nesaf ar ôl 5 Mai am sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu mor lleol ag y bo modd.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Economi wan, ysgolion yn cael eu tanariannu a GIG sy’n costio mwy ond sy’n darparu llawer llai; ai dyna yw’r gorau y gall Llafur a Phlaid Cymru ei gyflawni dros Gymru?

Y Prif Weinidog: Gadewch inni ystyried yr hyn y mae’r Democratiaid Rhyddfrydol wedi’i gyflwyno yn Lloegr. Edrychwch ar yr hyn maent wedi ei wneud gyda ffioedd dysgu, er enghraifft—dyna’r enghraifft amlycaf o dorri addewid i’r cyhoedd. Rwy’n siŵr y byddai’n well gan fyfyrwyr fod yng Nghymru na dros y ffin. Rydym yn gweld y cyfnod sylfaen yn cael ei gyflwyno ledled Cymru, a’r buddsoddiad yn y GIG, a hynny gan wybod y bydd toriad o £500 miliwn yn y gyllideb iechyd yn Lloegr yn y dyfodol. Rydym yn gwybod, wrth gwrs, bod y dreth gyngor yn is yng Nghymru, bod llywodraeth leol yn cael ei chefnogi yn well yng Nghymru a bod nifer o resymau da pam y mae pobl eisiau byw yng Nghymru—er mwyn osgoi’r dinistr sy’n cael ei greu gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn Lloegr.

Kirsty Williams: Ym mis Mawrth 2007, roedd ein cyfradd diweithdra yng Nghymru—Prif Weinidog Cymru ydych chi wedi’r cyfan—yr un fath â chyfartaledd y DU. Ar ôl pedair blynedd o Lywodraeth Lafur a Phlaid Cymru, mae gennym y gyfradd diweithdra uchaf ymhlith gwledydd y DU. Beth ydych chi’n meddwl y gallech chi ac Ieuan Wyn Jones fod wedi’i wneud yn wahanol?

The First Minister: I read with interest Kirsty's comments at the Lib Dems' lobby briefing this morning, when she said that, in the election campaign, Nick Clegg will be coming to Wales and that they will welcome him. [*Laughter.*] The phrase 'sham divorce' was used in the Chamber last week, in the context of a divorce between two political parties, but I have never heard of a sham divorce within a political party.

Kirsty Williams: I note, Presiding Officer, that the First Minister is not willing to defend his record on employment in Wales, but he might be willing to defend his record on education. In the last year, there have been three assessments of your management of the education system, First Minister: the GCSE and A-level results put us behind England for the first time; the Programme for International Student Assessment results saw us go backwards in reading, mathematics and science; and Estyn—your own inspectorate—has said that 40 per cent of our children are leaving primary school with a reading age lower than their chronological age. Which of those damning verdicts of your record did you find most disturbing?

The First Minister: We come back to the point that the Minister for Children, Education and Lifelong Learning has outlined the way forward for the education system. We have put in place the foundation phase, which is much envied and admired by other countries in the UK and beyond. We have kept the education maintenance allowance that is being scrapped by your party in England, which will mean that many students currently in college in England will not be able to stay there. We have also ensured that people who have the ability to go to university will not be put off by excessive student tuition fees, which was one of your party's key promises when you entered power with the Tories in Westminster last year, and which you broke within the first week or two. That was the level of principle and character of the Lib Dems. We are proud of our record. We are proud of our record with the ProAct and ReAct schemes,

Y Prif Weinidog: Darllenais â diddordeb sylwadau Kirsty ym mriff lobio'r Democratiaid Rhyddfrydol y bore yma, pan ddywedodd y byddai Nick Clegg, yn ystod yr ymgyrch etholiadol, yn dod i Gymru ac y byddent yn ei groesawu. [*Chwerthin.*] Defnyddiwyd y term *sham divorce* yn y Siambr yr wythnos diwethaf a hynny yng nghyd-destun ysgariad rhwng dwy blaid wleidyddol, ond nid wyf erioed wedi clywed am ysgariad o'r fath o fewn plaid wleidyddol.

Kirsty Williams: Nodaf, Lywydd, nad yw'r Prif Weinidog yn barod i amddiffyn ei record ar gyflogaeth yng Nghymru, ond efallai y bydd yn barod i amddiffyn ei record ar addysg. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd tri asesiad o'ch rheolaeth chi o'r system addysg, Brif Weinidog: fe'n rhoddwyd y tu ôl i Loegr am y tro cyntaf gyda'n canlyniadau TGAU a Safon Uwch; golygodd canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr ein bod bellach wedi mynd tuag yn ôl o ran darllen, mathemateg a gwyddoniaeth; ac mae Estyn—eich arolygiaeth chi eich hun—wedi dweud bod 40 y cant o'n plant yn gadael yr ysgol gynradd gydag oedran darllen sy'n is na'u hoedran cronolegol. Pa un o'r dyfarniadau ddamniol hyn o'ch record sy'n peri fwyaf o bryder i chi?

Y Prif Weinidog: Rydym yn dychwelyd at y pwynt fod y Gweinidog Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi amlinellu'r ffordd ymlaen ar gyfer y system addysg. Rydym wedi sefydlu'r cyfnod sylfaen, sy'n destun eiddigedd ac edmygedd i lawer gan wledydd eraill y DU a thu hwnt. Rydym wedi cadw'r lwfans cynhaliaeth addysg sy'n cael ei ddileu gan eich plaid chi yn Lloegr, a fydd yn golygu na fydd llawer o fyfyrwyr sydd ar hyn o bryd yn y coleg yn Lloegr yn gallu aros yno. Rydym hefyd wedi sicrhau na fydd pobl sydd â'r gallu i fynd i brifysgol yn peidio â mynd yno oherwydd y ffioedd dysgu gormodol, sef un o addewidion allweddol eich plaid chi wrth gymryd yr awenau gyda'r Torïaid yn San Steffan y llynedd, er ichi dorri'r addewid hwnnw o fewn wythnos neu ddwy. Dyna oedd lefel egwyddor a chymeriad y Democratiaid Rhyddfrydol. Rydym yn falch o'n record ni. Rydym yn falch o'n record gyda'n cynlluniau ProAct a

which were put in place during difficult economic times. The difference between the parties on this side of the Chamber and those on your side is that we want to ensure that people are shielded from the economic difficulties that the world has faced over the past three or four years, rather than expose people fully to those difficulties and leave them to sink or swim, as your party is doing.

Kirsty Williams: One wonders how the 40 per cent of children leaving primary school with a reading age below their chronological age can ever hope to aspire to get to university, First Minister. However, perhaps we can turn to the health service. While we are looking back at the last few years, perhaps I could ask you a question about that epic compilation of slides provided to you, at great cost, by McKinsey and Company, that said that your health strategy was financially unaffordable and lacked accountability and that there was a lack of capacity to deliver it. Given that, it is little wonder that we have to wait longer for an ambulance in Wales than those across the border, or wait longer for an operation. First Minister, you are about to go out to the country to be tried on your performance for Wales; you regularly make reference to your legal background, so, to coin a familiar legal phrase, in the court of public opinion, based on the evidence of your stewardship of the economy, education and health, are you not bang to rights?

The First Minister: All that I can say about the forthcoming trial in the court of public opinion is that we will all be defendants, but some of us are happier with what the outcome will be than others.

Sandy Mewies: Talking of pledges broken by the Conservatives, ably abetted by the Liberal Democrats, George Osborne managed to sneak into his budget last week that people receiving the winter fuel allowance aged over 80 would have it cut by £100. The rest of those receiving it would have it cut by £50. That is despite a personal pledge by David Cameron a year earlier, when he said that Labour was lying when it said that that would happen. *[Interruption.]*

ReAct, a roddwyd ar waith mewn cyfnod economaidd anodd. Y gwahaniaeth rhwng y pleidiau ar yr ochr hon i'r Siambr a'r rhai sydd ar eich ochr chi yw ein bod ni am sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag yr anawsterau economaidd y mae'r byd wedi'u hwynebu dros y tair neu bedair blynedd diwethaf, yn hytrach na gwneud pobl yn fwy agored i'r anawsterau hynny a'u gadael i nofio neu foddi, fel y mae eich plaid chi yn ei wneud.

Kirsty Williams: Rhaid tybio sut y gall y 40 y cant o blant sy'n gadael yr ysgol gynradd gydag oedran darllen sy'n is na'u hoed cronolegol fyth obeithio anelu at gyrraedd y brifysgol, Brif Weinidog. Fodd bynnag, efallai y gallwn droi at y gwasanaeth iechyd. Gan ein bod yn edrych yn ôl ar yr ychydig flynyddoedd diwethaf, efallai y gallaf ofyn cwestiwn ichi am y casgliad epig o sleidiau a ddarparwyd ichi, am bris mawr, gan McKinsey and Company, a ddangosodd bod eich strategaeth iechyd yn anfforddiadwy yn ariannol, yn ogystal â bod heb atebolrwydd na'r gallu i gyflawni. O gofio hynny, nid yw'n fawr o syndod bod yn rhaid inni aros yn hwy am ambiwlans yng Nghymru na thros y ffin, neu aros yn hwy am lawdriniaeth. Brif Weinidog, rydych ar fin sefyll eich prawf o flaen y genedl ar sail eich perfformiad dros Gymru; rydych yn cyfeirio'n aml at eich cefndir cyfreithiol, felly, os goddefir yr ymadrodd cyfreithiol cyfarwydd, gerbron llys y farn gyhoeddus, yn seiliedig ar dystiolaeth eich stiwardiaeth o'r economi, addysg ac iechyd, onid ydych yn euog?

Y Prif Weinidog: Y cyfan y gallaf ei ddweud am y prawf hwn yn llys y farn gyhoeddus yw y byddwn i gyd yn ddiffnyddion, ond y bydd rhai ohonom yn hapusach â'r canlyniad nag eraill.

Sandy Mewies: Gan ein bod yn siarad am addewidion wedi'u torri gan y Ceidwadwyr, gyda chymorth parod y Democratiaid Rhyddfrydol, llwyddodd George Osborne i sleifio i mewn i'w gyllideb yr wythnos diwethaf y byddai'r bobl dros 80 oed sy'n derbyn y lwfans tanwydd gaeaf yn derbyn £100 yn llai. Byddai'r gweddill sy'n ei dderbyn yn cael gostyngiad o £50. Mae hynny er gwaethaf addewid personol gan David Cameron flwyddyn yn gynharach, pan

What is he doing now? It is another u-turn. Would you agree, First Minister, that the Tory and Lib Dem UK coalition Government—and it would be followed here, if they got elected—in act after act are attacking the good health of the vulnerable people living in England; we do not want that to happen in Wales.

ddywedodd fod Llafur yn dweud celwydd pan ddywedodd y byddai hynny'n digwydd. [*Torri ar draws.*] Beth mae'n ei wneud yn awr? Mae hon yn dro pedol arall. A fyddech yn cytuno, Brif Weinidog, fod Llywodraeth glymblaid y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol—a byddai hyn yn digwydd yma, pe caent eu hethol—yn y naill weithred ar ôl y llall, yn ymosod ar iechyd pobl sy'n agored i niwed sy'n byw yn Lloegr; nid ydym am i hynny ddigwydd yng Nghymru.

1.45 p.m.

The First Minister: Is it not amazing that another broken promise has been slipped through quietly, in the hope that no-one would notice it, because of the budget announcement? The winter fuel allowance will be reduced despite a personal pledge to the contrary made time after time by the Prime Minister. What we see here is another broken pledge by the Conservative Party, aided and abetted—to use the legal phrase—by their accessories, the Lib Dems.

Y Prif Weinidog: Onid yw'n rhyfeddol fod addewid arall a dorwyd wedi'i sleifio drwodd yn dawel fach, yn y gobraith na fyddai unrhyw un yn sylwi arni oherwydd cyhoeddiad y gyllideb? Bydd y lwfans tanwydd gaeaf yn cael ei leihau, er gwaethaf addewid personol i'r gwrthwyneb dro ar ôl tro gan y Prif Weinidog. Yr hyn a welwn yma yw addewid arall a dorwyd gan y Blaidd Geidwadol, gyda'i haffeithwyr—a defnyddio term cyfreithiol—sef y Democratiaid Rhyddfrydol, yn cynorthwyo ac yn ategu.

Llosgi Cynnyrch Gwastraff

Incineration of Waste Products

2. William Graham: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar losgi cynnyrch gwastraff. OAQ(3)3515(FM)*

2. William Graham: *Will the First Minister outline the Welsh Assembly Government's policies on the incineration of waste products. OAQ(3)3515(FM)*

The First Minister: Our waste strategy document, 'Towards Zero Waste', places the highest priority on waste prevention followed by very high levels of recycling, of at least 70 per cent. For what is left, the recovery of energy from residual wastes delivers the most sustainable outcome. Landfill is the worst option, and should be reduced to as close to zero as possible.

Y Prif Weinidog: Mae ein dogfen strategaeth am wastraff, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', yn rhoi'r flaenoriaeth i atal gwastraff ac yna ar lefelau uchel iawn o ailgylchu, sef o leiaf 70 y cant. I'r hyn sy'n weddill, adfer ynni o wastraff gweddilliol sy'n cynnig y canlyniad mwyaf cynaliadwy. Tirlenwi yw'r dewis gwaethaf, a dylid ei leihau mor agos â phosibl i sero.

William Graham: Thank you for your answer, First Minister. Would you agree, therefore, that incineration is probably the best method of dealing with household waste, particularly as it gives the bonus of energy generation?

William Graham: Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. A fyddech yn cytuno, felly, mai llosgi yn ôl pob tebyg yw'r dull gorau o ddelio â gwastraff y cartref, yn enwedig gan ei fod yn rhoi bonws drwy gynhyrchu ynni?

The First Minister: You will be aware that there is a waste hierarchy; energy from waste plants rank higher in that hierarchy than landfill. However, our preference is for a

Y Prif Weinidog: Fe fyddwch yn ymwybodol bod hierarchaeth wastraff, a bod ynni o weithfeydd gwastraff yn uwch yn yr hierarchiaeth honno na thirlenwi. Fodd

reduction in waste, in the first place, followed closely by greater recycling.

Veronica German: With respect to Covanta Energy's application in Merthyr, in my region, you wrote to your colleague Dai Havard to say that you would not be able to intervene because the Assembly Government was not a statutory consultee in the Infrastructure Planning Commission's application process. However, on the IPC website, it clearly states that the Assembly Government is a statutory consultee at both the pre-application and examination stage of the process. Can you explain that anomaly, and will your Government be responding to the consultation, as stated on the website?

The First Minister: This is not a matter for the Welsh Assembly Government; it is a matter for the IPC. We have no role in the decision-making process for this particular application.

Y Sector Preifat

3. Nick Bourne: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cefnogi'r sector preifat yng Nghymru. OAQ(3)3499(FM)*

The First Minister: Our plans are outlined in the policy document 'Economic Renewal: a new direction'.

Nick Bourne: I thank the First Minister for that response. We have just been talking about the undeniable slippage in gross value added figures for Wales as a proportion of the UK figures. The First Minister and I will probably have common cause in feeling that we do not want to qualify for the next round of European Union cohesion funding between 2014 and 2020, but on the current figures it looks as if we will. Assuming that we do, does the First Minister agree that the money should be targeted at private-sector-led schemes? If so, how can we ensure that that happens?

The First Minister: First of all, I join you in hoping that we do not qualify for the highest level of structural funds. If we do not, I hope that we qualify for transitional funding; it is

bynag, gwell gennym ni yw gostyngiad mewn gwastraff yn y lle cyntaf, gydag ailgylchu mwy yn ail agos.

Veronica German: O ran cais Covanta Energy ym Merthyr, yn fy rhanbarth i, ysgrifenasoch at eich cyfaill Dai Havard i ddweud na allech ymyrryd gan nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghorai statudol ym mhroses ymgeisio'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Serch hynny, ar wefan yr IPC, mae'n datgan yn glir bod Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghorai statudol yng nghyfnod cyn ymgeisio a chyfnod archwilio'r broses. A allwch esbonio'r anghysondeb hwnnw, ac a fydd eich Llywodraeth yn ymateb i'r ymgynghoriad, fel y nodir ar y wefan?

Y Prif Weinidog: Nid yw hwn yn fater i Lywodraeth Cynulliad Cymru; mater i'r IPC ydyw. Nid oes gennym rôl yn y broses benderfynu yn y cais penodol hwn.

The Private Sector

3. Nick Bourne: *Will the First Minister outline the Welsh Assembly Government's plans for supporting the private sector in Wales. OAQ(3)3499(FM)*

Y Prif Weinidog: Amlinellir ein cynlluniau yn y ddogfen bolisi 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'.

Nick Bourne: Diolch i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Rydym newydd fod yn siarad am y llithriad diamheuol yn y ffigurau gwerth ychwanegol crynswth i Gymru fel cyfran o ffigurau'r DU. Bydd y Prif Weinidog a minnau fwy na thebyg yn cytuno nad ydym am fod yn gymwys i'r rownd nesaf o gyllid cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd rhwng 2014 a 2020, ond yn ôl y ffigurau presennol, mae'n edrych fel y byddwn. A bwrw y byddwn yn gymwys, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno y dylai'r arian gael ei dargedu at gynlluniau a arweinir gan y sector preifat? Os felly, sut y gallwn sicrhau hynny?

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf oll, ymunaf â chi yn y gobaith na fyddwn yn gymwys i'r lefel uchaf o gronfeydd strwythurol. Os nad ydym, yr wyf yn gobeithio y byddwn yn

important that we do not go from receiving the highest level of structural funds to getting nothing. We want to ensure that as much money as possible goes to good projects. What those projects might look like depends on what the rules are for any successor to convergence funding.

Rhodri Glyn Thomas: Mae'n eironig bod arweinydd yr wrthblaid yn galw am fuddsoddiad yn y sector preifat pan fyddai'r buddsoddiad hwnnw'n gwneud defnydd o arian cyfalaf; dyna'r arian a fyddai'n mynd i'r sector preifat. Mae'r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan wedi torri'r arian hwnnw o 41 y cant. Mae'n mynd i fod yn gynyddol anos i Lywodraeth Cymru fuddsoddi yn y sector preifat i'n galluogi i ddianc o'r sefyllfa hon, lle'r ydym yn gorfod cael arian strwythurol oherwydd bod ffigurau cynnyrch mewnwladol crynswth y pen Cymru yn llai na 75 y cant o'r ffigurau ar gyfer Ewrop. A fydech yn cytuno bod y Ceidwadwyr yma yn ddauwynebog, i ddweud y lleiaf, ac yn dangos eu diffyg dylanwad ar y glymblaid yn San Steffan, gan eu bod yn methu â chael dylanwad ar y glymblaid i sicrhau bod yr arian cyfalaf hollbwysig hwnnw'n dod i Gymru?

Y Prif Weinidog: Mae'n beth gwael dros ben bod arian cyfalaf yn cael ei dorri yn y ffordd yma. Bydd hyn yn ei gwneud yn llawer anos sicrhau twf yn y sector preifat yng Nghymru yn y ffordd y byddem wedi dymuno.

Peter Black: In last week's budget the UK Government came up with a number of proposals to try to help private industry and business to flourish. One proposal was to set up enterprise zones, one of which may well be set up just across the Welsh border in Bristol. I understand that, as part of that provision, the Welsh Government has been given the power to set up its own enterprise zones, with similar incentives for private businesses in Wales. What is your attitude towards that proposal?

The First Minister: These are interesting ideas. It is now a matter for the next Government to take those ideas forward.

gymwys ar gyfer cyllid trosiannol; mae'n bwysig nad ydym yn mynd o dderbyn y lefel uchaf o gronfeydd strwythurol i gael dim o gwbl. Rydym am sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn mynd i brosiectau da. Bydd ffurf y prosiectau hynny yn dibynnu ar reolau yr hyn a allai olynu cyllid cydgyfeirio.

Rhodri Glyn Thomas: It is ironic that the leader of the opposition calls for investment in the private sector when such investment would come from capital moneys; that is the money that would go to the private sector. The coalition Government in Westminster has cut that budget by 41 per cent. It is going to be increasingly difficult for the Welsh Government to invest in the private sector to enable us to escape this situation in which we receive structural funds as a result of having per capita gross domestic product figures that are below 75 per cent of the average for Europe. Would you agree that the Conservatives here are, at the very least, twofaced, and that they show their lack of influence on the coalition in Westminster, in that they are unable to influence the coalition to ensure that these vital capital moneys come to Wales?

The First Minister: It is appalling that capital funding is being cut in this way. Doing this will make it much more difficult to secure growth in the private sector in Wales in the that we would have hoped to see.

Peter Black: Yn y gyllideb yr wythnos diwethaf, awgrymodd Llywodraeth y DU nifer o gynigion i geisio helpu diwydiant preifat a busnes i ffynnu. Un cynnig oedd sefydlu parthau menter, a gallai un ohonynt gael ei sefydlu dros y ffin ym Mryste. Fel rhan o'r ddarpariaeth honno, deallaf i Lywodraeth Cymru gael y pŵer i sefydlu ei pharthau menter ei hun, gyda chymhellion tebyg ar gyfer busnesau preifat yng Nghymru. Beth yw eich agwedd tuag at y cynnig hwnnw?

Y Prif Weinidog: Mae'r rhain yn syniadau diddorol. Mae bellach yn fater i'r Llywodraeth nesaf fwrw ymlaen â'r syniadau hynny.

Gwasanaethau Trallwyso Gwaed

4. David Lloyd: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau trallwyso gwaed yng Nghymru. OAQ(3)3517(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae byrddau iechyd lleol wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'r trefniadau trallwyso gwaed presennol drwy eu gwaith ar y cyd ar Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru. Byddant yn cyflwyno adroddiad ar hyn yn ddiweddarach eleni.

David Lloyd: Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Hoffwn dalu teyrnged i staff y gwasanaeth trallwyso gwaed yng Nghymru am eu gwaith clodwiw. Fodd bynnag, mae adroddiadau o Loegr—yn naturiol, wrth ystyried yr hyn sydd yn mynd ymlaen yn y gwasanaeth iechyd yn Lloegr a'r pwysau i breifateiddio gwasanaethau—ynglŷn â'r posibilrwydd o breifateiddio'r gwasanaeth trallwyso gwaed yno. A allwch gadarnhau nad oes y fath fwriad yma yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Nid oes cynlluniau i wneud hynny.

Nick Ramsay: I echo the sentiments expressed by Dai Lloyd in raising his question, in that the staff in the blood transfusion service do a tremendous job. The Assembly Government has been vociferous in supporting the public information campaigns of such groups as the Kidney Wales Foundation and others in relation to what we can do to increase blood donation in Wales. Are you confident that your Government is giving adequate support to that at the moment? In the light of the report that is to be published, and the work that has been done, do you hope that more can be done by the Assembly Government in future to increase the availability of blood in Wales for transfusion services? If not, the NHS will find it very difficult to cope.

The First Minister: The Welsh Blood Service does a very good job in advertising itself and ensuring that people know where and when they can give blood. There are many of us in the Chamber who will have

Blood Transfusion Services

4. David Lloyd: *Will the First Minister make a statement on the future of blood transfusion services in Wales. OAQ(3)3517(FM)*

The First Minister: A review of the current blood transfusion arrangements is being conducted by local health boards through their collective work on the Welsh Health Specialised Services Committee. They will report on this later this year.

David Lloyd: Thank you for that answer, First Minister. I would like to pay tribute to the staff of the blood transfusion service in Wales for their excellent work. However, there are reports from England—quite naturally, given what is going on in the health service in England and the pressures to privatise services—of the possibility of privatising blood transfusion services there. Can you confirm that there is no such intention in Wales?

The First Minister: There are no plans to do that.

Nick Ramsay: Ategef y farn a fynegwyd gan Dai Lloyd yn ei gwestiwn, gan fod staff y gwasanaeth trallwyso gwaed yn gwneud gwaith aruthrol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn uchel ei chloch wrth gefnogi ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus grwpiau megis Sefydliad Aren Cymru ac eraill o ran yr hyn y gallwn ei wneud i gynyddu rhoi gwaed yng Nghymru. A ydych yn hyderus bod eich Llywodraeth yn rhoi cymorth digonol i hynny ar hyn o bryd? Yn sgîl yr adroddiad sydd i'w gyhoeddi, a'r gwaith a wnaed, a ydych yn gobeithio bod modd i Lywodraeth y Cynulliad wneud mwy yn y dyfodol i gynyddu argaeledd gwaed yng Nghymru i wasanaethau trallwyso gwaed? Heb hynny, bydd y GIG yn ei chael yn anodd ymdopi.

Y Prif Weinidog: Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gwneud gwaith da iawn yn hysbysebu ei hun a sicrhau bod pobl yn gwybod ble a phryd y cânt roi gwaed. Mae llawer ohonom yn y Siambr wedi gwneud

done that many times over the past few years. We will wait to see what the review says before seeing whether there is any way in which support for publicising the work of the blood transfusion service can be increased.

Brian Gibbons: First Minister, you may be aware that the UK Government has expressed the wish to explore the commercial opportunities that blood transfusion services may provide in England. Would you like to commit your Government to not being involved in horse trading with our blood transfusion service, as we see happening in England? Surely, this is something that we as a Government would deprecate in the most extreme terms.

The First Minister: The use of the words 'commercial opportunities' chills the blood, if I can use that phrase. I reiterate what I said to Dai Lloyd: we have no intention of privatising the blood transfusion service.

Cyllid

5. Brian Gibbons: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu cyllid ar gyfer busnesau yng Nghymru. OAQ(3)3518(FM)*

The First Minister: Based on a repayable model, our approach to business finance focuses on the six key sectors and priorities, including research and development, as outlined in 'Economic Renewal: a new direction'.

Brian Gibbons: You will know that, if we are to have a dynamic, growing economy in Wales, we have to address the need for capital of those high-growth companies in Wales. Indeed, at a UK level, this was highlighted by Chris Rowlands's report a few years ago. To me, one of the most remarkable features of the UK Government's budget statement last week was the virtual ignoring of the recommendations of that report, and, indeed, the EEF, the manufacturers' organisation, has pointed this out in terms of the proposals in the UK budget statement relating to the promotion of equity investment, which is precisely what many high-growth companies do not want at this stage of their development. They appreciate

hynny sawl gwaith dros y blynyddoedd diwethaf. Arhoswn i weld beth sydd yn yr adolygiad cyn ystyried a oes modd cynyddu'r cymorth a roddir i roi cyhoeddusrwydd i waith y gwasanaeth trallwysu gwaed.

Brian Gibbons: Brif Weinidog, efallai eich bod yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi mynegi dymuniad i drafod y cyfleoedd masnachol y gall gwasanaethau trallwysu gwaed eu cynnig yn Lloegr. A hoffech chi ymrwymo eich Llywodraeth i beidio â bargeinio gyda'n gwasanaeth trallwysu gwaed, fel y gwelwn sy'n digwydd yn Lloegr? Yn sicr, dyma rywbeth y byddem fel Llywodraeth yn anghymeradwyo yn y termau mwyaf eithafol.

Y Prif Weinidog: Mae'r defnydd o eiriau megis 'cyfleoedd masnachol' yn oeri'r gwaed, os caf ddefnyddio'r ymadrodd hwnnw. Ailadroddaf yr hyn a ddywedais wrth Dai Lloyd: nid yw'n fwriad gennym breifateiddio'r gwasanaeth trallwysu gwaed.

Finance

5. Brian Gibbons: *Will the First Minister make a statement on the provision of finance for business in Wales. OAQ(3)3518(FM)*

Y Prif Weinidog: Yn seiliedig ar fodel o ad-dalu, mae ein hymagwedd at gyllid busnes yn canolbwyntio ar y chwe sector allweddol a blaenoriaethau, gan gynnwys ymchwil a datblygu, fel yr amlinellir yn 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'.

Brian Gibbons: Byddwch yn gwybod, os ydym am gael economi ddeinamig sy'n tyfu yng Nghymru, y bydd yn rhaid i ni fynd i'r afael ag angen y cwmnïau twf uchel hynny am gyfalaf yng Nghymru. Yn wir, ar lefel y DU, amlygwyd hyn gan adroddiad Chris Rowlands ychydig flynyddoedd yn ôl. I mi, un o'r nodweddion mwyaf nodedig yn natganiad cyllideb Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf oedd y cafodd argymhellion yr adroddiad hwnnw eu hanwybyddu i bob pwrpas, ac yn wir, mae'r EEF, sefydliad y gweithgynhyrchwyr, wedi dweud hynny o ran y cynigion yn natganiad cyllideb y DU sy'n ymwneud â hyrwyddo buddsoddi ecwiti, sef yr union beth nad yw llawer o gwmnïau twf uchel am ei weld ar yr

their autonomy, which allows them to innovate and develop, and they are reluctant to go down the equity route. Surely, this is a missed opportunity to promote business growth in the United Kingdom and in Wales.

The First Minister: I agree with you Brian, and it is a matter of regret that many of the recommendations that were included in the review have not been taken forward by the Government.

David Melding: You will know that most jobs are created in new businesses, particularly small businesses. Do you not agree that the best thing that we can do for the financing of small businesses is to abolish business rates?

The First Minister: I see that the money tree has started to grow again on the other side of the Chamber. We have a good record in relation to helping small businesses, particularly with regard to small business rate relief. That is a scheme that has been of tremendous help to many small businesses across Wales. Furthermore, it is a scheme that works and is grounded in reality, unlike the schemes that are proposed from the opposite side of the Chamber.

Chris Franks: For a better Wales, we need to find new ways of providing finance to ensure that many deferred projects, such as improvements to Queen Street station in Cardiff and Pontypridd railway station, and better renal services in the Cynon Valley, can go ahead. What discussions has the Welsh Government had to establish more growth funds for small businesses? What help can be given to assist small businesses and town centres by providing business rate relief?

The First Minister: These matters have been included in 'Economic Renewal: a new direction'. I refer you to the answer that I gave some moments ago regarding small business rate relief.

Amseroedd Aros y GIG

6. Veronica German: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dorri amseroedd*

adeg hon yn eu datblygiad. Maent yn gwerthfawrogi eu hannibyniaeth, sy'n eu galluogi i arloesi a datblygu, ac maent yn gynddyn i ddilyn y llwybr ecwiti. Yn sicr, dyma golli cyfle i hyrwyddo twf busnes yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru.

Y Prif Weinidog: Cytunaf â chi, Brian, a gresyn nad yw llawer o'r argymhellion yn yr adolygiad wedi cael eu datblygu gan y Llywodraeth.

David Melding: Byddwch yn gwybod bod y rhan fwyaf o swyddi yn cael eu creu mewn busnesau newydd, yn enwedig busnesau bach. Onid ydych yn cytuno mai'r peth gorau y gallwn ei wneud o ran cyllid busnesau bach yw dileu trethi busnes?

Y Prif Weinidog: Gwelaf fod y goeden arian wedi dechrau tyfu eto ar ochr draw'r Siambr. Mae gennym record dda o ran helpu busnesau bach, yn enwedig o ran rhyddhad ardrethi busnesau bach. Mae'r cynllun hwnnw wedi bod yn help mawr i lawer o fusnesau bach ledled Cymru. Ar ben hynny, mae'n gynllun sy'n gweithio ac mae wedi'i seilio mewn realiti, yn wahanol i'r cynlluniau a gynigir ochr draw'r Siambr.

Chris Franks: Am Gymru well, mae angen dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu cyllid i sicrhau bod llawer o brosiectau gohiriedig, fel gwelliannau i orsaf Heol y Frenhines yng Nghaerdydd a gorsaf rheilffordd Pontypridd, a gwell wasanaethau arenol yng Nghwm Cynon, yn mynd yn eu blaen. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael i sefydlu rhagor o gronfeydd twf i fusnesau bach? Pa help ellir ei roi i gynorthwyo busnesau bach a chanol trefi drwy ddarparu rhyddhad ardrethi busnes?

Y Prif Weinidog: Mae'r materion hyn wedi cael eu cynnwys yn 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'. Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais rai munudau yn ôl o ran rhyddhad ardrethi busnesau bach.

NHS Waiting Times

6. Veronica German: *Will the First Minister make a statement on cutting NHS waiting*

aros y GIG. OAQ(3)3510(FM)

The First Minister: With the exception of orthopaedic patients, over 95 per cent of patients are waiting less than 26 weeks from referral to treatment.

Veronica German: In the last year, on average, 14 out of every 100 people attending accident and emergency departments waited for longer than four hours to be treated, which is well above the 5 per cent target. This has a knock-on effect on ambulance response times. In my region alone, ambulance staff spend over 1,200 hours every month queuing outside hospitals. Consultant cover in accident and emergency departments is well below the level recommended by the College of Emergency Medicine. Is this a record that you and your Government are proud to be judged on?

The First Minister: We expect the performance levels of accident and emergency departments to improve over the next month. This is something that we monitor continuously with the chief executives of the local health boards. However, we are certainly very proud of the fact that, over the next three years, the health budget in Wales will be preserved, even though your party is seeking to cut it in England.

Andrew R.T. Davies: First Minister, one of the problems that many people face when visiting hospitals, and which increases the pressure on hospitals, is the number of services that are provided on hospital sites. Do you regret the lack of opportunities that you have provided for optometrists to develop community-based eye-care services? This prevents people from being able to receive these services in the community and forces them to become stuck in the bottleneck caused by hospital waiting times.

The First Minister: Optometrists are doing far more now than was the case some years ago, particularly with regard to the observation of cataracts. As a Government, we have always tried to ensure that people receive more services at the primary care

times. OAQ(3)3510(FM)

Y Prif Weinidog: Ac eithrio cleifion orthopedig, mae dros 95 y cant o gleifion yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth oddi ar eu hatgyfeiriad.

Veronica German: Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ar gyfartaledd, arhosodd 14 o bob 100 o bobl a aeth i adrannau damweiniau ac achosion brys am fwy na phedair awr i gael eu trin, sy'n llawer uwch na'r targed o 5 y cant. Mae hyn yn cael effaith ganlyniadol ar amseroedd ymateb ambiwlansys. Yn fy rhanbarth i yn unig, mae staff ambiwlans yn treulio mwy na 1,200 awr bob mis yn ciwio y tu allan i ysbytai. Mae'r cyflenwad o feddygon ymgynghorol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn llawer is na'r hyn a argymhellir gan y Coleg Meddygaeth Frys. A fyddech chi a'ch Llywodraeth yn falch o gael eich mesur yn ôl y record hon?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn disgwyl i lefelau perfformio adrannau damweiniau ac achosion brys wella dros y mis nesaf. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei fonitro yn barhaus gyda phrif weithredwyr y byrddau iechyd lleol. Fodd bynnag, yr ydym yn sicr yn falch iawn o'r ffaith y bydd y gyllideb iechyd yng Nghymru yn cael ei chadw dros y tair blynedd nesaf, er bod eich plaid chi yn ceisio i ei thorri yn Lloegr.

Andrew R.T. Davies: Brif Weinidog, un o'r problemau y mae llawer o bobl yn eu hwynebu wrth fynd i'r ysbyty, a rhywbeth sy'n cynyddu'r pwysau ar ysbytai, yw nifer y gwasanaethau a gynigir ar safleoedd ysbytai. A ydych yn gresynu at y diffyg cyfleoedd yr ydych wedi'u rhoi i optometryddion i ddatblygu gwasanaethau gofal llygaid yn y gymuned? Mae hyn yn rhwystro pobl rhag derbyn y gwasanaethau hyn yn y gymuned ac yn eu gorfodi i gael eu dal yn y dagfa a achosir gan amseroedd aros ysbytai.

Y Prif Weinidog: Mae optometryddion yn gwneud llawer mwy yn awr na'r hyn a wneid flynyddoedd yn ôl, yn enwedig o ran canfod cataractau. Fel Llywodraeth, yr ydym bob amser wedi ceisio sicrhau bod pobl yn cael mwy o wasanaethau ar lefel gofal sylfaenol.

level. I have certainly never heard anyone argue before that we should reduce the number of services that are available in hospitals.

Swyddi yn y Sector Cyhoeddus

7. Leanne Wood: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd swyddi yn y sector cyhoeddus i economi Cymru. OAQ(3)3505(FM)*

The First Minister: Public sector jobs are fundamentally important to Wales, representing some 25.7 per cent of total employment.

Leanne Wood: First Minister, in response to the cuts agenda of the Westminster coalition Government, it was great to see such a good turnout at the Trades Union Congress demonstration on Saturday, in London. Will you join me in congratulating the Cardiff Public and Commercial Services member, Richard Evans, who walked the 166 miles from Cardiff to London as part of that protest? I have raised with you on a number of occasions the job cuts at the passport office, the Driving Standards Agency and the coastguard.

2.00 p.m.

However, not much attention has been paid to the cutbacks to the Equality and Human Rights Commission. It is being hit with a cut of two thirds of its budget, which will see its staffing levels go from 525 to 200 by next year and its helpline outsourced. In Wales, that will probably mean the loss of 30 staff and could result in the closure of the Bangor office. Given the Assembly's all-party commitment to equality of opportunity, this should be of concern to all of us in this Chamber. First Minister, could you tell us what representations you have made, or were able to make, to your Westminster counterparts on this issue?

The First Minister: First, I wish to say that a 166-mile walk is a great example of dedication, if I can put it that way. I do not think that you could ask for more evidence of

Yn sicr, nid wyf erioed wedi clywed neb yn dadlau o'r blaen y dylem leihau nifer y gwasanaethau sydd ar gael mewn ysbytai.

Public Sector Jobs

7. Leanne Wood: *Will the First Minister make a statement about the importance of public sector jobs to the Welsh economy. OAQ(3)3505(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae swyddi yn y sector cyhoeddus o bwys sylfaenol i Gymru, gan eu bod cyfrif am tua 25.7 y cant o gyfanswm cyflogaeth.

Leanne Wood: Brif Weinidog, fel ymateb i agenda toriadau Llywodraeth y glymblaid yn San Steffan, roedd yn wych gweld cynifer o bobl yng ngwrthdystiad Cyngres yr Undebau Llafur ddydd Sadwrn yn Llundain. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Richard Evans, aelod cangen Caerdydd o'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol, a gerddodd y 166 milltir o Gaerdydd i Lundain fel rhan o'r gwrthdystiad? Yr wyf wedi codi sawl gwaith gyda chi fater y toriadau swyddi yn y swyddfa basport, yr Asiantaeth Safonau Gyrru a gwylwyr y glannau.

Fodd bynnag, nid oes llawer o sylw wedi cael ei roi i'r toriadau i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'n cael ei daro gan doriad o ddwy ran o dair o'i gyllideb, a fydd yn peri bod ei lefelau staffio yn mynd o 525 i 200 erbyn y flwyddyn nesaf a bydd ei linell gymorth yn cael ei gcontractio'n allanol. Yng Nghymru, bydd hynny yn debygol o olygu colli 30 o staff a gallai arwain at gau'r swyddfa ym Mangor. O ystyried ymrwymiad pob plaid yn y Cynulliad at gyfle cyfartal, dylai hyn bryderu bob un ohonom yn y Siambr hon. Brif Weinidog, a allwch ddweud wrthym pa sylwadau yr ydych wedi'u gwneud, neu a oeddech yn gallu eu gwneud, wrth eich cymheiriaid yn San Steffan ar y mater hwn?

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf, hoffwn ddweud bod taith gerdded o 166 milltir yn enghraifft wych o ymroddiad, os gallaf ei roi felly. Nid wyf yn credu y gallech ofyn am

commitment. When proposals have been made to cut the number of jobs in UK Government departments and agencies in Wales, we have always robustly resisted them. Carl Sargeant, the relevant Minister, has written with regard to the cuts to which you referred affecting the Equality and Human Rights Commission.

Darren Millar: First Minister, in your response earlier to Nick Bourne regarding GDP levels per head in Wales, and those in west Wales and the Valleys in particular, you made reference yet again to gross disposable household income. If you are such a believer in those statistics, what do you say about the fact that, according to the GDHI figures, the gap between the richest and poorest regions of Wales trebled between 1998 and 2008? Indeed, in your own constituency, Bridgend, GDHI per head has gone down from 89.4 per cent to 87.6 per cent of the UK average. Are you are proud of that?

The First Minister: I am not sure whether you are referring to my constituency or to the county. The point is that GDHI has increased. There is no doubt about that. If you look at the figures over the past decade, you will see that GDHI in Wales has increased. We also know full well that the GDHI figures for Wales have got closer to the UK average during that time. That is an example of the success of structural funds.

Alun Davies: In the last year, we have seen police officers, nurses and teachers facing cutbacks. The Tories come here and talk about the NHS and then turn around and cut 50,000 jobs in the NHS in England. We know that we are losing 1,600 police jobs in Wales because of the cuts coming down the M4. Do you agree, First Minister, that we need a Government in Wales that is committed not only to the public sector, but to delivering and funding public services, so that we keep people in work rather than throw them out of work, and, when people retire, keep them safe and warm in their homes, rather than cutting winter fuel payments by the back door in the way that

fwy o dystiolaeth o ymrwymiad. Yr ydym bob amser wedi gwrthsefyll yn gadarn gynigion sydd wedi cael eu gwneud i dorri nifer y swyddi mewn adrannau ac asiantaethau Llywodraeth y DU yng Nghymru. Mae Carl Sargeant, y Gweinidog perthnasol, wedi ysgrifennu ynghylch y toriadau y cyfeiriasoch atynt a fydd yn effeithio ar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Darren Millar: Brif Weinidog, yn eich ymateb cynharach i Nick Bourne ynglŷn â lefelau CMC y pen yng Nghymru, a'r rhai yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn arbennig, gwnaethoch gyfeirio unwaith eto at incwm aelwydydd crynswth i'w wario. Os ydych yn credu mor daer yn yr ystadegau hynny, beth a ddywedwch am y ffaith, yn ôl y ffigurau IACW, fod y bwlch rhwng rhanbarthau cyfoethocaf a thlotaf Cymru wedi treblu rhwng 1998 a 2008? Yn wir, yn eich etholaeth eich hun, Pen-y-bont ar Ogwr, mae IACW y pen wedi gostwng o 89.4 y cant i 87.6 y cant o gyfartaledd y DU. A ydych yn falch o hynny?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr a ydych yn cyfeirio at fy etholaeth neu at y sir. Y pwynt yw bod IACW wedi cynyddu. Nid oes amheuaeth am hynny. Os edrychwch ar y ffigurau dros y degawd diwethaf, fe welwch fod IACW yng Nghymru wedi cynyddu. Yn ogystal, gwyddom yn iawn fod y ffigurau IACW ar gyfer Cymru wedi agosáu at gyfartaledd y DU yn ystod y cyfnod hwnnw. Dyna enghraifft o lwyddiant y cronfeydd strwythurol.

Alun Davies: Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr ydym wedi gweld heddweision, nyrsys ac athrawon yn wynebu toriadau. Mae'r Toriaid yn dod yma a siarad am y GIG ac yna'n torri 50,000 o swyddi yn y GIG yn Lloegr. Gwyddom ein bod yn colli 1,600 o swyddi heddlu yng Nghymru oherwydd y toriadau sy'n dod i lawr yr M4. A ydych yn cytuno, Brif Weinidog, fod arnom angen Llywodraeth yng Nghymru sydd wedi ymrwymo nid yn unig i'r sector cyhoeddus, ond i ddarparu ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus, fel ein bod yn cadw pobl mewn gwaith yn hytrach na'u taflu allan o waith, a, phan fydd pobl yn ymddeol, eu cadw'n glyd ac yn gynnes yn eu cartrefi, yn hytrach na

the people opposite have done?

The First Minister: Cutting winter fuel payments is a shocking breach of trust. The party opposite should be ashamed. To use a word that the party opposite loves to use in this Chamber and outside it, it is 'shameful' to see that happening; it is another broken promise. It is important that people feel able to walk the streets safely at night and that they are safe from burglary and from being attacked. That will not be helped by cutting the numbers of police. We know that the UK Government has tried to say that the job losses will be in back-room staff. However, every single constabulary is saying that it will lose front-line police officers. That can only mean an increase in crime and a decrease in people's feeling safe in their own communities.

Jeff Cuthbert: First Minister, the Welsh Conservatives would have us believe that the solution to the problems faced by small businesses is to cut out the non-domestic council tax, that is, business rates. Do you agree that the real threat to the survival of small businesses is people's purchasing power being reduced a result of job cuts, particularly within the public sector in Wales, which will put thousands of people out of work and render them unable to purchase the products and services of small businesses?

The First Minister: That is entirely the point. You can reduce business rates as low as you want, but if there is no-one to buy what those businesses are producing, those businesses will not survive. We see, from the policies being pursued elsewhere, that the number of people who will be out of work will increase. Their collective purchasing power will decrease, and that means that more businesses will fail. However, that is not a message that the party opposite wants to hear.

Ymrwymadau 'Cymru'n Un'

8. *Gareth Jones:* A wnaiff y Prif Weinidog

thorri taliadau tanwydd y gaeaf yn llechwraidd fel y gwnaeth y bobl gyferbyn?

Y Prif Weinidog: Mae torri taliadau tanwydd gaeaf yn enghraifft syfrdanol o dorri ymddiriedaeth. Dylai'r blaid gyferbyn fod â chywilydd. A defnyddio gair y mae'r blaid gyferbyn wrth ei bodd yn ei ddefnyddio yn y Siambr hon a'r tu allan iddi, mae'n 'gywilyddus' i weld hynny'n digwydd. Mae'n addewid arall wedi'i thorri. Mae'n bwysig bod pobl yn teimlo y gallant gerdded ar hyd strydoedd yn ddiogel yn y nos a'u bod yn ddiogel rhag byrgleriaeth a rhag cael eu hymosod arnynt. Ni fydd hynny'n cael ei helpu drwy dorri niferoedd yr heddlu. Gwyddom fod Llywodraeth y DU wedi ceisio dweud mai staff sy'n gweithio mewn ystafelloedd cefn a fydd yn colli eu swyddi. Fodd bynnag, mae pob llu yn dweud y bydd yn colli swyddogion heddlu rheng flaen. Ni all hynny ond olygu cynnydd mewn troseddau a llai o ymdeimlad o ddiogelwch gan bobl yn eu cymunedau eu hunain.

Jeff Cuthbert: Brif Weinidog, hoffai'r Ceidwadwyr Cymreig inni gredu mai'r ateb i'r problemau a wynebwr gan fusnesau bach yw cael gwared ar y dreth gyngor annomestig, hynny yw, trethi busnes. A ydych yn cytuno mai'r bygythiad gwirioneddol i barhad busnesau bach yw bod gallu pobl i brynu yn cael ei leihau o ganlyniad i doriadau swyddi, yn enwedig o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru, a fydd yn diswyddo miloedd o bobl ac yn eu gwneud yn analluog i brynu cynnyrch a gwasanaethau busnesau bach?

Y Prif Weinidog: Dyna'r pwynt yn hollol. Gallwch leihau trethi busnes cymaint ag y dymunwch, ond os nad oes unrhyw un i brynu'r hyn a gynhyrchir gan y busnesau hynny, ni fydd y busnesau hynny yn goroesi. O edrych ar y polisïau a ddilynrir mewn mannau eraill, gallwn weld y bydd nifer y bobl a fydd yn ddi-waith yn cynyddu. Bydd eu pŵer prynu cyfunol yn gostwng, a golyga hynny y bydd mwy o fusnesau yn methu. Fodd bynnag, nid yw hynny'n neges y mae'r blaid gyferbyn am ei chlywed.

'One Wales' Commitments

8. *Gareth Jones:* Will the First Minister

ddatganiad am gyflawni ymrwymadau Cytundeb Cymru'n Un. OAQ(3)3519(FM)

Y Prif Weinidog: Mae mwyafrif llethol yr ymrwymadau yn ein rhaglen eisoes wedi'u cyflawni. Bydd ein hadroddiad terfynol ar y Cynulliad hwn yn dangos y cynnydd da sy'n digwydd er mwyn cwblhau'r ychydig sy'n ar ôl.

Gareth Jones: Diolch am yr ateb hwnnw. Dyma'r tro olaf y gallaf eich holi yn swyddogol ar gytundeb 'Cymru'n Un'. Er bod gennyf amheuan ar y dechrau, cefais fy mherswadio gan yr ymrwymadau i sicrhau pleidlais 'ie' mewn refferendwm erbyn 2011 ac i ddiogelu dyfodol ysbyty Llandudno ac ysbytai eraill, ynghyd â chyfres o ymrwymadau sy'n anelu at roi anghenion pobl a chleifion o flaen mympwyon rheolwyr y gwasanaeth iechyd. Credaf fod cytundeb 'Cymru'n Un' wedi cyflawni'r amcanion penodol hyn yn llawn. Yr wyf yn falch hefyd ein bod wedi cyflawni Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r cyfnod sylfaen, ac wedi hybu diwydiannau twristiaeth ac amaethyddiaeth. Yn fy etholaeth, yn Aberconwy, yr ydym wedi cyflawni gwelliannau hanfodol i amddiffynfeydd rhag llifogydd yn nyffryn Conwy a gwelliannau i'r ffyrdd a'r rheilffyrdd. Fodd bynnag, mae llawer yn dal angen ei wneud. Ar y nodyn hwnnw, a wneuch ymrwymo y bydd unrhyw Lywodraeth y byddwch yn rhan ohoni yn y Cynulliad nesaf yn rhoi'r sylw a'r parch dyledus i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y pwyllgorau, o safbwynt eu hadroddiadau etifeddiaeth? Credaf y byddant yn ddogfennau gwerthfawr ac yn fannau cychwyn defnyddiol ar gyfer y genhedlaeth nesaf o Aelodau'r Cynulliad.

Yn olaf, dymunaf yn dda i bob un ohonoch yn eich ymdrechion yn y dyfodol ar ran pobl Cymru. Gofynnaf i chi hefyd, Brif Weinidog, ategu fy marn y byddai wedi bod yn anodd cyflawni'r hyn a wnaethom yn ystod y Cynulliad hwn heb waith hanfodol ein pwyllgorau a'n staff cymorth. Hoffwn fanteisio ar y cyfle olaf hwn i ddiolch i rai o staff fy mhwyllgor, sef y clerc a'r dirprwy glerc, Siân Phipps a Dan Collier, heb anghofio'r diweddar Kath Jenkins. Diolchaf hefyd i'r ymchwilwyr, y cyfieithwyr a'r holl

make a statement on fulfilling the commitments of the One Wales agreement. OAQ(3)3519(FM)

The First Minister: The vast majority of the commitments in our programme have already been delivered. Our final update on this Assembly will show the good progress being made towards completing the few that remain.

Gareth Jones: Thank you for that answer. This is the last time that I can officially question you on the 'One Wales' agreement. Although I had doubts at the beginning, I was persuaded by the commitments to ensure a 'yes' vote in a referendum by 2011 and to safeguard the future of Llandudno hospital and other hospitals, along with a series of commitments aimed at putting the needs of people and patients above the whims of managers within the health service. I think that the 'One Wales' agreement has achieved these specific recommendations fully. I am also pleased that we have achieved the Welsh Language (Wales) Measure 2011, the foundation phase, and have promoted the tourism and agriculture industries. In my constituency, in Aberconwy, we have delivered essential improvements to flood defences in the Conwy valley and improvements to roads and railways. However, there is still much to be done. On that note, will you make a commitment that any Government of which you are a part in the next Government will give the appropriate attention and respect to the work done by committees, with regard to their legacy reports? I think that they will be valuable documents and useful starting points for the next generation of Assembly Members.

Finally, I wish you all well in your future endeavours on behalf of the people of Wales. I also ask you, First Minister, to endorse my view that it would have been difficult to achieve what we have during this Assembly without the essential work of our committees and support staff. I would like to take advantage of this last opportunity to thank some of my committee staff, namely the clerk and deputy clerk, Siân Phipps and Dan Collier, not forgetting the late Kath Jenkins. I also thank the researchers, the translators and

dîm cymorth am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r gwaith yr ydym wedi'i wneud yma ar ran pobl Cymru.

Y Prif Weinidog: Diolch, Gareth, am eich geiriau caredig tuag at yr Aelodau yn y Siambr ac at yr aelodau o staff sydd wedi bod yn rhoi cefnogaeth ichi. Dymunaf yn dda ichi ar eich ymdeoliad, os mai dyna y bydd—pwy a wŷr beth sydd rownd y gornel? Fy marn i, a barn y pleidiau ar yr ochr hwn o'r Siambr, yw bod y Llywodraeth wedi cadw at ei haddewidion o dan gytundeb 'Cymru'n Un'. Bydd y ffordd y bydd y pwyllgorau yn gweithio yn y Cynulliad nesaf yn rhywbeth i'r Cynulliad ei ystyried, wrth edrych ar y Rheolau Sefydlog nesaf.

Y Llywydd: Diolch am eich sylwadau perthnasol am staff y Cynulliad.

Angela Burns: I have the greatest respect for Gareth Jones, but I do not agree with an awful lot of what he just said about the 'One Wales' commitments. Over the last few months, most of the questions that I have asked Ministers have been about the absolute failure of this Government to deliver half of these commitments and to meet all of the aspirations that it laid out. I want to read back to you, First Minister, your speech to the Labour conference on Saturday 19 February this year. You said that it is quite easy for a Government to turn itself into a strategy factory, creating an endless stream of strategies without there being any product at the end of it. You said that you want this to change radically and that delivery will be the watch word of the next Welsh Labour Government. It is a complete and utter shame that it was not the watch word of the Government that has been here for the last four years. You have missed four years, you have let the people of Wales down, and it is dreadful that you suddenly think, 'Oh my gosh, we haven't done it'. The words 'strategy factory' do not even begin to cover it.

The First Minister: You say that half of the commitments have not been met—that is not right, for a start. We are very proud of what we have done here. Go to talk to the more than 12,000 people who are still in jobs because of ProAct, people who otherwise

all the support team for their valuable contributions to the work that we have done here on behalf of the people of Wales.

The First Minister: Thank you, Gareth, for your kind words to the Members in the Chamber and the staff who have supported you. I wish you well in your retirement, if that is what it is—who knows what lies around the corner? My view, and that of the parties on this side of the Chamber, is that the Government has kept its promises under the 'One Wales' agreement. The way in which the committees will work in the next Assembly is something for the Assembly to consider, in looking at the new Standing Orders.

The Presiding Officer: Thank you for those relevant comments about Assembly staff.

Angela Burns: Mae gennyf y parch mwyaf at Gareth Jones, ond nid wyf yn cytuno â llawer iawn o'r hyn y mae newydd ei ddweud am ymrwymadau 'Cymru'n Un'. Dros y misoedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau yr wyf wedi eu gofyn i Weinidogion wedi bod ynglŷn â methiant llwyr y Llywodraeth hon i weithredu hanner yr ymrwymadau hyn ac i fodloni'r holl ddyheadau a amlinellodd. Yr wyf am ddarllen yn ôl i chi, Brif Weinidog, eich araith yng nghynhadledd y Blaid Lafur ar ddydd Sadwrn 19 Chwefror eleni. Dywedasoeh ei bod yn eithaf hawdd i Lywodraeth droi'n ffatri strategaeth, gan greu llif diddiwedd o strategaethau heb fod unrhyw gynnyrch ar y diwedd. Dywedasoeh eich bod am i hyn newid yn radical ac mai cyflawni fydd arwyddair Llywodraeth Lafur nesaf Cymru. Mae'n drueni llwyr nad oedd yn arwyddair y Llywodraeth sydd wedi bod yma am y pedair blynedd diwethaf. Yr ydych wedi colli pedair blynedd, yr ydych wedi siomi pobl Cymru, ac mae'n gywilydd eich bod yn sydyn yn meddwl, 'O, diar, nid ydym wedi ei wneud e'. Megis dechrau disgrifio'r sefyllfa yn unig y mae'r geiriau 'ffatri strategaeth'.

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn dweud nad yw hanner yr ymrwymadau wedi cael eu bodloni—nid yw hynny'n gywir, i ddechrau. Yr ydym yn falch iawn o'r hyn yr ydym wedi ei wneud yma. Ewch i siarad â'r mwy na 12,000 o bobl sydd dal mewn swyddi

would have been on the dole and would not have received any training. Talk to the people who have been helped by ReAct and that are being helped by Adapt. Talk to the teachers who are grateful for the fact that the foundation phase has been rolled out across Wales, and for the support that they receive in schools. Talk to local government workers in Wales, who are funded at a much higher level than those in England. We know that, in England, there are thousands of people working in front-line services, in social services and other parts of local government, who will lose their jobs. We are very happy with our record here in terms of what we have delivered, particularly when we compare it with the destruction happening elsewhere in the UK.

Jenny Randerson: One part of the 'One Wales' agreement that has not been delivered relates to the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009. I have asked you before about that Measure. A great deal of thought went into it, as well as a great deal of effort on the part of Assembly Government staff, Assembly staff, and, indeed, on the part of the previous Minister Jane Hutt, who supported it throughout the Assembly. The consultees also played a great part in it. It is therefore a great pity that it has lain on the shelf gathering dust for the past 18 months. I got a very vague answer from you, First Minister, the last time I asked about this. Perhaps you have had time to do your homework on this now. Can you give us a commitment that, if you are part of the Government after the election, you will implement the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009?

The First Minister: I cannot give commitments on behalf of the next Government. I am grateful for your view that I will be part of the next Government, but I cannot comment further on that. From our point of view, there is no reason why the Measure cannot be implemented.

Mick Bates: First Minister, I would like to start by saying what a pleasure it has been to work with you, most of the time, over the past 12 exciting and historic years. I endorse Gareth's comments about the committees,

oherwydd ProAct, pobl a fyddai fel arall wedi bod ar y dôl ac na fyddau wedi cael unrhyw hyfforddiant. Siaradwch â'r bobl sydd wedi cael eu helpu gan ReAct, ac sy'n cael eu helpu gan Adapt. Siaradwch â'r athrawon sydd yn ddiolchgar am y ffaith bod y cyfnod sylfaen wedi cael ei gyflwyno ar draws Cymru, ac am y gefnogaeth a gânt mewn ysgolion. Siaradwch â gweithwyr llywodraeth leol yng Nghymru, sy'n cael eu hariannu ar lefel llawer uwch na'r rhai yn Lloegr. Gwyddom fod miloedd o bobl yn Lloegr sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheng flaen, yn y gwasanaethau cymdeithasol a rhannau eraill o lywodraeth leol, a fydd yn colli eu swydd. Yr ydym yn hapus iawn gyda'n record yma o ran yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni, yn enwedig pan ydym yn ei gymharu â'r dinistr sy'n digwydd mewn mannau eraill yn y DU.

Jenny Randerson: Un rhan o gytundeb 'Cymru'n Un' nad yw wedi ei gyflwyno yw Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009. Yr wyf wedi gofyn i chi o'r blaen am y Mesur hwnnw. Aeth llawer iawn o feddwl i mewn iddo, yn ogystal â llawer iawn o ymdrech ar ran staff Llywodraeth y Cynulliad, staff y Cynulliad, ac, yn wir, ar ran y Gweinidog blaenorol Jane Hutt, a oedd yn ei gefnogi drwy gydol y Cynulliad. Chwaraeodd yr ymgynghoreion ran fawr ynddo hefyd. Felly, mae'n drueni mawr ei fod wedi gorwedd ar y silff yn hel llwch dros y 18 mis diwethaf. Cefais ateb amwys iawn gennych, Brif Weinidog, y tro diwethaf i mi ofyn am hyn. Efallai eich bod wedi cael amser i wneud eich gwaith cartref arno yn awr. A allwch roi ymrwymiad i ni, os ydych yn rhan o'r Llywodraeth ar ôl yr etholiad, y byddwch yn rhoi'r Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 ar waith?

Y Prif Weinidog: Ni allaf roi ymrwymiadau ar ran y Llywodraeth nesaf. Yr wyf yn ddiolchgar eich bod yn credu y byddaf yn rhan o'r Llywodraeth nesaf, ond ni allaf ddweud rhagor am hynny. O'n safbwynt ni, nid oes rheswm pam na all y Mesur gael ei roi ar waith.

Mick Bates: Brif Weinidog, hoffwn ddechrau drwy ddweud cymaint o bleser y bu gweithio gyda chi, y rhan fwyaf o'r amser, dros y 12 mlynedd gyffrous a hanesyddol diwethaf. Cymeradwyaf sylwadau Gareth am

and particularly what he said about the support from staff, which has been excellent. For my own part, I very much hope that, in the next Assembly, there will be a rural development committee to represent a vast part of Wales that is sometimes sadly neglected. However, one of the commitments in the 'One Wales' document—and I have heard you use the phrase 'broken promises' of late—was to cut carbon emissions by 3 per cent in areas of devolved competence in Wales. By your own Government's admission, you have achieved only a 1 per cent reduction. You say that the other bits should be EU and Great Britain figures. From your experience of this Government's attempts, which, may I say, have been commendable in some areas, what experience would you pass on to your next Government in order to achieve a similar target, which is so important in many fields, including building the economy and combating climate change?

The First Minister: There is still work to do on climate change and on reducing carbon emissions. We know that, and that is why we set challenging targets. If there are occasions when we fall short of those targets, we must redouble our efforts to ensure that we reach them in years to come. I also thank you for the working relationship that we have had over the years, particularly with regard to rural development. I remember the time of foot and mouth disease in particular. When I rang Mick on his mobile, it was guaranteed that you could hear sheep bleating in the background. I could never work out whether he was always in the fields or whether it was background music in his house. [*Laughter.*] I wish you well in your retirement, Mick—if I can call it that.

Blaenoriaethau ar gyfer Islwyn

9. Irene James: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer Islwyn. OAQ(3)3500(FM)*

The First Minister: Our priorities for Islwyn are the same as for the rest of Wales, namely delivering our 'One Wales' commitments,

y pwyllgorau, ac yn enwedig yr hyn a ddywedodd am y gefnogaeth gan staff, sydd wedi bod yn ardderchog. O'm rhan i, yr wyf yn gobeithio, yn y Cynulliad nesaf, y bydd pwyllgor datblygu gwledig i gynrychioli rhan helaeth o Gymru sy'n cael ei hesgeuluso yn ddybryd weithiau. Fodd bynnag, un o'r ymrwymadau yn 'Cymru'n Un'—ac yr wyf wedi eich clywed yn defnyddio'r ymadrodd 'addewidion wedi eu torri' yn ddiweddar—oedd torri allyriadau carbon 3 y cant yn y meysydd cymhwysedd datganoledig yng Nghymru. Mae eich Llywodraeth eich hun wedi cyfaddef mai gostyngiad o 1 y cant yn unig yr ydych wedi ei gyflawni. Yr ydych yn dweud y dylai'r darnau eraill fod yn ffigurau'r UE a Phrydain Fawr. O'ch profiad o ymdrechion y Llywodraeth hon, sydd, a gaf ddweud, wedi bod yn glodwiw mewn rhai meysydd, pa brofiad a fydddech yn ei drosglwyddo i'ch Llywodraeth nesaf er mwyn cyflawni targed tebyg, sydd mor bwysig mewn sawl maes, yn cynnwys adeiladu'r economi a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd?

Y Prif Weinidog: Mae gwaith i'w wneud o hyd ar newid yn yr hinsawdd ac ar leihau allyriadau carbon. Gwyddom hynny, a dyna pam yr ydym yn gosod targedau heriol. Os oes adegau pan nad ydym yn cyflawni'r targedau hynny, mae'n rhaid i ni ymdrechu'n galetach i sicrhau ein bod yn eu cyflawni yn y blynyddoedd i ddod. Yr wyf hefyd yn diolch i chi am y berthynas waith yr ydym wedi ei chael dros y blynyddoedd, yn enwedig o ran datblygu gwledig. Yr wyf yn cofio adeg clwy'r traed a'r genau yn arbennig. Pan oeddwn yn ffonio Mick ar ei ffôn symudol, yr oeddech yn sicr glywed breffu defaid yn y cefndir. Ni allwn byth weithio allan a oedd bob amser yn y caeau neu a oedd yn ei chwarae fel cerddoriaeth gefndir yn ei dŷ. [*Chwerthin.*] Dymunaf yn dda ichi yn eich ymddeoliad, Mick—os gallaf ei alw'n hynny.

Priorities for Islwyn

9. Irene James: *Will the First Minister make a statement on his priorities for Islwyn. OAQ(3)3500(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau ar gyfer Islwyn yr un fath ag ar gyfer gweddill Cymru, sef cyflawni ein hymrwymadau

protecting public services and building sustainable economic recovery.

Irene James: Thank you for your response, First Minister. Carwyn, in the second Assembly, Labour announced the reopening of the Ebbw Valley rail line, much of which runs through my constituency of Islwyn. The line between Ebbw Vale and Cardiff was opened at the start of the third Assembly and has been a huge success. First Minister, can you confirm Labour's commitment to opening the Newport section of the Ebbw Valley rail line?

The First Minister: In keeping with the theme that we have developed here, I also wish you all the best in the years to come.

Irene James: Thank you.

The First Minister: We are already investing £2.6 million to install a connection at Gaer junction to improve the signalling between it and Park junction. The reinstatement of that crossover is a prerequisite for services to Newport, and that is currently under construction. Once that work is done, that will open the way for services to Newport.

William Graham: I welcome what you have just said about the Ebbw Vale rail link. You will know that the connection to Newport was originally suggested when the Llanwern steelworks were lost. In addition to the rail service, the bus service needs some reorganisation. It does not seem that it is being prioritised.

2.15 p.m.

The First Minister: If you are talking about the bus service between Rogerstone and Newport, there were difficulties with the patronage of the route. As a result, unfortunately, the route could not be continued, but, in time, the hope is that it will be possible to access Newport directly from Rogerstone railway station.

Pobl Ifanc yn Cymryd Rhan Mewn

'Cymru'n Un', diogelu gwasanaethau cyhoeddus ac adeiladu adferiad economaidd cynaliadwy.

Irene James: Diolch i chi am eich ymateb, Brif Weinidog. Carwyn, yn yr ail Gynulliad, cyhoeddodd Llafur y byddai rheilffordd Cwm Ebwy yn cael ei ailagor, gyda llawer ohono'n rhedeg drwy fy etholaeth i, Islwyn. Agorwyd y llinell rhwng Glyn Ebwy a Chaerdydd ar ddechrau'r trydydd Cynulliad ac mae wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Brif Weinidog, a allwch gadarnhau ymrwymiad Llafur i agor darn Casnewydd o reilffordd Cwm Ebwy?

Y Prif Weinidog: Yn unol â'r thema yr ydym wedi'i ddatblygu yma, yr wyf hefyd yn dymuno'r gorau i chi yn y blynyddoedd i ddod.

Irene James: Diolch yn fawr.

Y Prif Weinidog: Yr ydym eisoes yn buddsoddi £2.6 miliwn i osod cysylltiad yng nghyffordd Gaer i wella'r signalau rhyngddo a chyffordd Pharc. Mae adfer y groesfan honno yn rhagofyniad ar gyfer gwasanaethau i Gasnewydd, ac mae hynny yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Unwaith y bydd hynny wedi ei gwblhau, bydd yn agor y ffordd ar gyfer gwasanaethau i Gasnewydd.

William Graham: Yr wyf yn croesawu'r hyn yr ydych newydd ei ddweud am gswllt rheilffordd Glyn Ebwy. Byddwch yn gwybod yr awgrymwyd y cysylltiad i Gasnewydd yn wreiddiol pan gollwyd gweithiau dur Llanwern. Yn ogystal â'r gwasanaeth rheilffordd, mae angen ad-drefnu'r gwasanaeth bws rhywfaint. Nid ymddengys ei fod yn cael ei flaenoriaethu.

Y Prif Weinidog: Os ydych yn sôn am y gwasanaeth bws rhwng Tŷ-du a Chasnewydd, yr oedd anawsterau o ran y defnydd o'r gwasanaeth. O ganlyniad, yn anffodus, ni ellid parhau gyda'r llwybr, ond, ymhen amser, y gobaith yw y bydd yn bosibl mynd i Gasnewydd yn uniongyrchol o orsaf reilffordd Tŷ-du.

Participation of Young People in

Democratiaeth

10. Helen Mary Jones: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn democratiaeth. OAQ(3)3503(FM)*

The First Minister: Through our school curriculum in Wales, young people are encouraged to learn about and participate in democracy. Our personal and social education framework for seven to 19 year-olds and the Welsh baccalaureate give learners opportunities to understand the importance of democratic decision making and the mechanics of the process.

Helen Mary Jones: I had the opportunity to see some of that work at first hand last week when I visited Ysgol Gyfun y Strade in my Llanelli constituency, where the young people participated in a hard-fought referendum about whether or not we should reduce the voting age to 16. It is my view that, if we could encourage young people to begin voting while they are still in education, which most are at the age of 16, it might encourage them to develop a long-term habit of participating. I am sure that you share my concern about the relatively low percentage of young people aged over 18 who vote. Will you join me in congratulating those pupils in Ysgol Gyfun y Strade—who gave me a good run for my money when I put my points of view forward—for their lively participation? Will you also share your view about reducing the voting age to 16?

The First Minister: I join you in congratulating the pupils at Ysgol Gyfun y Strade for the debate that they held there. I have some sympathy for the idea that the voting age should be reduced to 16, but with that comes a number of other responsibilities that are currently imposed at 18 years of age. Therefore, being able to vote and taking the responsibilities of an adult are one and the same thing.

Mohammad Asghar: First Minister, previous studies from the Electoral Commission have shown that people from the UK's black and minority ethnic communities are often less likely to vote in

Democracy

10. Helen Mary Jones: *What steps is the Welsh Assembly Government taking to encourage the participation of young people in democracy. OAQ(3)3503(FM)*

Y Prif Weinidog: Drwy ein cwricwlwm ysgol yng Nghymru, mae pobl ifanc yn cael eu hannog i ddysgu am ddemocratiaeth ac i gymryd rhan mewn democratiaeth. Mae ein fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol i blant rhwng saith a 19 mlwydd oed a bagloriaeth Cymru yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddeall pwysigrwydd gwneud penderfyniadau democrataidd a pheirianwaith y broses.

Helen Mary Jones: Cefais gyfle i weld rhywfaint o'r gwaith hwnnw yn uniongyrchol yr wythnos diwethaf pan ymwelais ag Ysgol Gyfun y Strade yn fy etholaeth i, Llanelli, lle cymrodd y bobl ifanc ran mewn refferendwm frwd ynghylch a ddylem leihau'r oedran pleidleisio i 16. Yn fy marn i, pe gallem annog pobl ifanc i ddechrau pleidleisio tra eu bod dal mewn addysg, fel y mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc 16 oed, gallai hynny eu hannog i ddatblygu arfer hirdymor o gymryd rhan. Yr wyf yn siŵr eich bod yn rhannu fy mhryder ynghylch y ganran gymharol isel o bobl ifanc dros 18 oed sy'n pleidleisio. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y disgyblion hynny yn Ysgol Gyfun y Strade—a roddodd dipyn o gystadleuaeth i mi pan gyflwynais fy safbwyntiau—am eu cyfranogiad bywiog? A wnewch chi hefyd rannu eich barn am ostwng yr oedran pleidleisio i 16?

Y Prif Weinidog: Ymunaf â chi yn llongyfarch y disgyblion yn Ysgol Gyfun y Strade am y ddadl a gynhaliwyd yno. Mae gennyf rywfaint o gydymdeimlad â'r syniad y dylid gostwng yr oedran pleidleisio i 16, ond gyda hynny daw nifer o gyfrifoldebau eraill sy'n dod i rym ar hyn o bryd pan ydych yn 18 mlwydd oed. Felly, mae'r hawl i bleidleisio ac ysgwyddo cyfrifoldebau oedolyn yn mynd law yn llaw.

Mohammad Asghar: Brif Weinidog, mae astudiaethau blaenorol gan y Comisiwn Etholiadol wedi dangos bod pobl o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig y DU yn aml yn llai tebygol o bleidleisio mewn

elections and that the likelihood that people will vote increases with age. Given such trends, what steps is the Assembly Government taking and what steps do you feel can be taken generally to encourage the participation of young people from BME communities in democracy?

The First Minister: I mentioned what we are doing through schools in Wales. We also have Funky Dragon and we support statutory school councils. However, it is also a matter for the Electoral Commission to look at ways of increasing participation in elections from all people within our community.

Eleanor Burnham: This might be the last time that I get up to ask a question to the First Minister—who knows—but I wish to echo what Gareth said and thank everyone, because I think that this place has been exceptionally well run. I have read the rather cheeky comments of the UK Independence Party about getting rid of us and bringing in MPs to do a part-time job here, and the mind boggles. I have just read Betsan Powys's blog where there is no comment to refute that. Therefore, if one is reading that blog, one is almost led to believe that the BBC endorses the blog, but I am sure that it will be pleased to comment on what I have just said, because I think that it is absolutely scandalous. There was a similar situation with the 'Yes' vote, because there was no ability—[*Interruption.*] I am sorry if I ramble for a minute, but I am sure that you will allow me to do so today. Some people think that we are absolutely C-R-A-P and some people think that we are of no use, but I would like to think that we have been of some use. One of our uses is that, because of the number of women here, we have had a much softer touch on the soft issues of life, such as children and young people's issues, equality issues, and so on. This is the one thing that the Assembly has been good at, and one of the biggest privileges for me, is talking to schools, and Sandy, Mark and I visited a school the other day—although it was a slight opportunity for hustings. With regard to engagement with young people, one of the plus points of the Assembly is its work to engage people in democracy, and I wish to

etholiadau a bod y tebygolrwydd y bydd pobl yn pleidleisio yn cynyddu gydag oedran. O ystyried tueddiadau o'r fath, pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd a pha gamau yr ydych chi'n teimlo y gellir eu cymryd yn gyffredinol i annog cyfranogiad pobl ifanc o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig mewn democratiaeth?

Y Prif Weinidog: Soniais am yr hyn yr ydym yn ei wneud drwy ysgolion yng Nghymru. Mae gennym hefyd y Ddraig Ffynti ac yr ydym yn cefnogi cynghorau ysgol statudol. Fodd bynnag, mae hefyd yn fater i'r Comisiwn Etholiadol i edrych ar ffyrdd o gynyddu cyfranogiad mewn etholiadau gan yr holl bobl yn ein cymuned.

Eleanor Burnham: Efallai mai dyma'r tro olaf y byddaf yn gofyn cwestiwn i'r Prif Weinidog—pwy a wŷr—ond yr wyf am adleisio'r hyn a ddywedodd Gareth a diolch i bawb, oherwydd credaf fod y lle hwn wedi cael ei redeg yn eithriadol o dda. Yr wyf wedi darllen sylwadau braidd yn ddigywilydd gan UKIP am gael gwared arnom a chael Aelodau Seneddol i wneud swydd ran-amser yma, ond mae'n syniad arswydus. Yr wyf newydd ddarllen blog Betsan Powys lle nad oes sylw i wrthbrofi hynny. Felly, wrth ddarllen y blog, mae rhywun bron yn cael ei arwain i gredu bod y BBC yn cymeradwyo'r blog, ond yr wyf yn siŵr y bydd yn falch i roi sylwadau ar yr hyn yr wyf i newydd ei ddweud, oherwydd credaf ei fod yn gwbl warthus. Yr oedd sefyllfa debyg gyda'r bleidlais 'Ie', gan nad oedd gallu—[*Torri ar draws.*] Mae'n ddrwg gennyf os wyf yn crwydro am funud, ond yr wyf yn sicr y byddwch yn caniatáu i mi wneud hynny heddiw. Mae rhai pobl yn meddwl ein bod yn G-A-Ch-U llwyr ac mae rhai pobl yn meddwl ein bod yn dda i ddim, ond hoffwn feddwl ein bod wedi bod o ryw ddefnydd. Un peth defnyddiol yw, oherwydd nifer y menywod yma, rydym wedi gallu ymdrin yn llawer mwy sensitif â rhai materion, fel materion plant a phobl ifanc, materion cydraddoldeb ac yn y blaen. Dyma'r un peth y mae'r Cynulliad wedi bod yn dda yn ei gylch, ac yn un o'r breintiau mwyaf i mi yw siarad ag ysgolion, ac ymwelodd Sandy, Mark a minnau ag ysgol ychydig ddiwrnodau yn ôl—er ei fod yn gyfle hefyd ar gyfer hustyngau. O ran ymgysylltu â phobl ifanc,

thank everyone, and thank you for allowing me to say that. Do you agree with some of my comments, First Minister?

The First Minister: I do, Eleanor, and I wish you all the best as well, whatever happens in the future.

Two things struck me about the UKIP announcement yesterday. It said that it did not want to abolish the Assembly, just get rid of AMs, which is a little like saying that you want to keep hospitals open but to make sure that there are no doctors in them. Twenty-five years after the end of the second world war, former Japanese soldiers were discovered in jungle areas of Asia who refused to believe that the war was over. They refused to believe the notes that were dropped on them by aircraft because they saw it as their duty to continue to fight until the emperor ordered them to lay down their arms. It is a bit like UKIP. The referendum is over, and someone should tell them.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ei atebion i'r cwestiynau ac am ei ddymuniadau da i'w gyd-Aelodau.

un o bwyntiau cadarnhaol y Cynulliad yw ei waith i gynnwys pobl mewn democratiaeth, a hoffwn ddiolch i bawb, a diolch i chi am ganiatáu imi ddweud hynny. A ydych yn cytuno gyda rhai o'm sylwadau, Brif Weinidog?

Y Prif Weinidog: Ydw, Eleanor, ac yr wyf yn dymuno pob llwyddiant i chi hefyd, beth bynnag sy'n digwydd yn y dyfodol.

Yr oedd dau beth yn fy nharo am gyhoeddiad UKIP ddoe. Dywedodd nad oedd am ddiddymu'r Cynulliad, dim ond cael gwared ar Aelodau'r Cynulliad, sydd ychydig fel dweud eich bod am gadw ysbytai ar agor, ond peidio â rhoi unrhyw feddygon ynddynt. Bum mlynedd ar hugain ar ôl diwedd yr ail ryfel byd, darganfuwyd cyn-filwyr o Siapan mewn ardaloedd jungl yn Asia a wrthododd gredu bod y rhyfel drosodd. Gwrthodent gredu'r nodiadau yr oedd awyrennau yn eu gollwng o'r awyr oherwydd eu bod yn ystyried mai eu dyletswydd oedd parhau i ymladd nes i'r ymerawdwr eu gorchymyn i ildio. Mae ychydig yn debyg i UKIP. Mae'r refferendwm ar ben, a dylai rhywun ddweud y blaid.

The Presiding Officer: I thank the First Minister for his responses to questions and for his good wishes to fellow Members.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): It is with mixed feelings that I make the final business statement of this Assembly. I thank all Members across the Chamber and your officials and staff who have worked so hard to ensure that the business of this Assembly and Government has been managed so effectively over the past four years, Llywydd. In this last statement, I have two changes to report to this afternoon's business. The Minister for Social Justice and Local Government will make a statement on the review of local government—local, regional, national: what services are best delivered where? That will be followed by a statement by the Minister for Children, Education and Lifelong Learning on the report on the structure of education services

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Teimladau cymysg sydd gennyf wrth wneud datganiad busnes olaf y Cynulliad hwn. Diolch i'r holl Aelodau ar draws y Siambr a'ch swyddogion a staff sydd wedi gweithio mor galed i sicrhau bod busnes y Cynulliad a'r Llywodraeth wedi'i reoli mor effeithiol dros y pedair blynedd diwethaf, Lywydd. Yn y datganiad olaf hwn, mae gennyf ddau newid i'w hadrodd i fusnes y prynhawn yma. Bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gwneud datganiad ar yr adolygiad o lywodraeth leol—lleol, rhanbarthol, cenedlaethol: pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble? Bydd hynny yn cael ei ddilyn gan ddatganiad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar yr

in Wales.

Mark Isherwood: On Friday, 25 March, the cross-party group on neurosciences, which I chair, published a report on the lack of understanding of neurological conditions such as Parkinson's disease and multiple sclerosis in emergency units across Wales. This report was submitted to the Minister for Health and Social Services and contained a series of recommendations, including different methods of training and a requirement for neurologists to visit emergency units regularly. Would it be possible for the Minister for Health and Social Services to make a statement responding to this report, either before dissolution or in the legacy report to the successor Minister, whether it be her or another Member of the next Assembly?

My second and final point builds upon a question that I raised with you in last week's business statement about the lack of north Wales representation on the Welsh Government's public transport user committee for Wales. I am now told that no-one from north or mid Wales is on this important committee. Therefore, half of Wales is not represented by anyone with day-to-day experience of the railroad infrastructure in those areas, which raises questions about the all-Wales transport plan. Concern was also raised that the committee has decided initially to consult with transport providers rather than the rail users that it is set up to represent. Therefore, could we have a statement either before dissolution or in a legacy report to successors to ensure that this matter is addressed by the next Welsh Government?

Jane Hutt: As with all of the cross-party groups that have met in the Assembly, the one on neurosciences is important. I am sure that the Minister for health will consider the report carefully and that the Minister responsible will look at the public transport user committee representation, not just in terms of north Wales but of mid Wales as well.

adroddiad ar strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru.

Mark Isherwood: Ar ddydd Gwener, 25 Mawrth, cyhoeddodd y grŵp trawsbleidiol ar niwrowyddorau, yr wyf fi'n ei gadeirio, adroddiad ar y diffyg dealltwriaeth o gyflyrau niwrolegol megis clefyd Parkinson a sglerosis ymledol mewn unedau brys ledled Cymru. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd yn cynnwys cyfres o argymhellion, yn cynnwys dulliau gwahanol o hyfforddi a gofyniad i niwrolegwyr ymweld ag unedau brys yn rheolaidd. A fuasai'n bosibl i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad yn ymateb i'r adroddiad hwn, naill ai cyn y diddymu neu yn yr adroddiad etifeddiaeth i'w holynydd, p'un ai hi neu Aelod arall o'r Cynulliad nesaf fydd yn Weinidog?

Mae fy ail bwynt a'r pwynt olaf yn adeiladu ar gwestiwn a godais gyda chi yn natganiad busnes yr wythnos diwethaf am y diffyg cynrychiolaeth o ogledd Cymru ar bwyllgor defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus i Gymru Llywodraeth Cymru. Dywedir wrthyf yn awr nad oes neb o ogledd na chanolbarth Cymru ar y pwyllgor pwysig hwn. Felly, nid yw hanner y wlad yn cael ei chynrychioli gan rywun sydd â phrofiad dydd-i-ddydd o'r seilwaith rheilffordd yn yr ardaloedd hynny, sy'n codi cwestiynau am y cynllun trafndiaeth Cymru gyfan. Mynegwyd pryder hefyd fod y pwyllgor wedi penderfynu dechrau ymgynghori â darparwyr trafndiaeth yn hytrach na'r defnyddwyr rheilffyrdd y cafodd ei sefydlu i'w cynrychioli. Felly, a allem gael datganiad naill ai cyn y diddymu neu mewn adroddiad etifeddiaeth i olynwyr i sicrhau bod y mater yn cael sylw gan Lywodraeth nesaf Cymru?

Jane Hutt: Fel holl grwpiau trawsbleidiol y Cynulliad, mae'r grŵp ar niwrowyddorau yn bwysig. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog dros iechyd yn ystyried yr adroddiad yn ofalus ac y bydd y Gweinidog cyfrifol yn edrych ar gynrychiolaeth y pwyllgor defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus, nid yn unig o ran gogledd Cymru ond canolbarth Cymru yn ogystal.

Lynne Neagle: I ask for a written statement on the impact on pensioner poverty of the underhand cuts to the winter fuel allowance that were hidden in the small print of the budget last week. David Cameron promised voters that these payments were safe in the run-up to the election and, with rising fuel prices hitting elderly people especially hard, these plans amount to nothing less than a betrayal of older people in this country. The removal of the top-up put in place by the previous Labour Government means that, next winter, over-60s will lose £50 of their allowance, with those over 80 losing £100. In contrast, one of the things that has characterised the response of this Labour-led Government to our difficult economic times is a desire to protect the vulnerable from the worst of the cuts. Whether by maintaining free bus passes for over-60s, protecting social services or the announcement last week by the Deputy Minister for Social Services of a cap on homecare charges, Labour is standing up for older people in Wales. Why on earth can the Tories not do the decent thing by older people and follow our lead?

Jane Hutt: This is why older people in Wales in particular cannot trust the UK Government. That was clear from the budget last week with that reduction and cut to the all-important winter fuel allowance, particularly with the rising cost of fuel. That is something that I know we are all finding as we talk to pensioners on the doorstep, and our pensioners will be pleased that, from 1 April, we will be introducing our new fuel poverty scheme, where we are putting more funding into tackling fuel poverty and improving home energy efficiency than the Government across the border in England. We would encourage anyone struggling with their fuel bills to make contact as a result of the new fuel poverty scheme from 1 April.

Darren Millar: Could we have a written statement from the Minister for Rural Affairs to update Members on the Welsh deer strategy? I am sure that you will be aware

Lynne Neagle: Gofynnaf am ddatganiad ysgrifenedig ar effaith y toriadau llechwraidd i'r lwfans tanwydd gaeaf y'u cuddiwyd ym mhrint mân y gyllideb yr wythnos diwethaf ar dlodi pensiynwyr. Addawodd David Cameron i bleidleiswyr fod y taliadau hyn yn ddiogel yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad, a chyda phrisiau cynyddol tanwydd yn taro pobl oedrannus yn arbennig o galed, nid yw'r cynlluniau hyn yn ddim llai na brad o bobl hŷn yn y wlad hon. Mae cael gwared ar y taliad atodol a gyflwynodd y Llywodraeth Lafur flaenorol yn golygu, y gaeaf nesaf, y bydd pobl dros 60 oed yn colli £50 o'u lwfans, gyda'r rhai sydd dros 80 oed yn colli £100. Mewn cyferbyniad, un o'r pethau sydd wedi nodweddu ymateb y Llywodraeth yma o dan arweiniad Llafur i'r cyfnod economaidd anodd hwn yw'r awydd i amddiffyn pobl agored i niwed rhag y gwaethaf o'r toriadau. P'un ai drwy barhau i roi tocynnau bws am ddim i bobl dros 60 oed, diogelu gwasanaethau cymdeithasol neu'r cyhoeddiad yr wythnos diwethaf gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o gap ar daliadau gofal cartref, mae Llafur yn sefyll dros bobl hŷn yng Nghymru. Pam ar y ddaear na all y Torïaid wneud y peth iawn dros bobl hŷn a dilyn ein hesiampl ni?

Jane Hutt: Dyma pam na all pobl hŷn yng Nghymru yn arbennig ymddiried yn Llywodraeth y DU. Yr oedd hynny'n glir o'r gyllideb yr wythnos ddiwethaf gyda'r gostyngiad a'r toriad hwnnw i'r lwfans tanwydd y gaeaf hollwbysig, yn enwedig gyda chost gynyddol tanwydd. Mae hynny'n rhywbeth y gwn ein bod i gyd yn ei ganfod wrth i ni siarad â phensiynwyr ar garreg y drws, a bydd ein pensiynwyr yn falch y byddwn ni, ar 1 Ebrill, yn cyflwyno ein cynllun tldi tanwydd newydd, lle byddwn yn rhoi mwy o arian i fynd i'r afael â thldi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni yn y cartref na'r Llywodraeth dros y ffin yn Lloegr. Byddem yn annog unrhyw un sy'n cael trafferth i dalu eu biliau tanwydd i gysylltu o ganlyniad i'r cynllun tldi tanwydd newydd o 1 Ebrill ymlaen.

Darren Millar: A allem gael datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ddiweddarau Aelodau ar strategaeth ceirw Cymru? Yr wyf yn siŵr y byddwch yn

that deer can be an invasive pest on people's land unless they are managed in a sustainable way, and although legislation is in place for landowners specifically to be able to manage the deer population, there are problems for landowners who lack shooting rights on their land. Could we have an update on that?

Secondly, could we have a statement from the Minister for Heritage on Welsh Assembly Government support for the Wales Millennium Centre? We know that it is an important national building, and an iconic one, and the events and shows that take place there are extremely successful. It has had an excellent programme of events this year, and I had the opportunity to visit last week to watch *We Will Rock You*. I have to say that I was very impressed with the whole facility. I therefore ask for a statement on the Assembly Government's continued support for the Wales Millennium Centre prior to the election.

Jane Hutt: I am sure that the Minister for Rural Affairs will take note of your concerns, and your constituents' concerns, about the need for a Welsh deer strategy.

In terms of the Wales Millennium Centre, I am proud to be a Minister for finance who has helped to protect important landmarks, and not only the Wales Millennium Centre. I am sure that you will recognise that we have been able to underpin those major national institutions that are so important to our culture and our arts. I am sure that *We Will Rock You* made you realise what you will be up against at the forthcoming election.

Helen Mary Jones: I am sure that we are all proud of the stance that our Government has taken in making veterans a priority category for receiving social housing if they need it. We will all be aware that it is not always easy for veterans to find out about their rights and to exercise them. Would you consider asking the Deputy Minister for Housing and Regeneration to make a written statement to the Assembly on how we can ensure that veterans are made aware of their rights with regard to housing in Wales? Could I further

ymwybodol y gall ceirw fod yn bla goresgynnol ar dir pobl oni bai eu bod yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy, ac er bod deddfwriaeth yn bodoli i dirfeddianwyr yn benodol allu rheoli'r boblogaeth ceirw, mae problemau i dirfeddianwyr sydd heb hawliau saethu ar eu tir. A allem gael y wybodaeth ddiweddaraf am hynny?

Yn ail, a allem gael datganiad gan y Gweinidog dros Dreftadaeth ar gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ganolfan Mileniwm Cymru? Yr ydym yn gwybod ei fod yn adeilad cenedlaethol pwysig ac eiconig, ac mae'r digwyddiadau a sioeau a lwyfennir yno yn hynod o lwyddiannus. Mae wedi cael rhaglen ardderchog o ddiwyddiadau eleni, a chefais y cyfle i ymweld yr wythnos diwethaf i wyllo *We Will Rock You*. Rhaid i mi ddweud y gwnaeth y cyfleuster cyfan argraff dda iawn arnaf. Felly, gofynnaf am ddatganiad cyn yr etholiad am gefnogaeth barhaus Llywodraeth y Cynulliad i Ganolfan Mileniwm Cymru.

Jane Hutt: Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn nodi eich pryderon, a phryderon eich etholwyr, am yr angen am strategaeth ceirw yng Nghymru.

O ran Canolfan Mileniwm Cymru, yr wyf yn falch o fod yn Weinidog cyllid sydd wedi helpu i ddiogelu adeiladau pwysig, ac nid Canolfan Mileniwm Cymru yn unig. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cydnabod ein bod wedi gallu bod yn gymaint o gynhaliath i'r sefydliadau cenedlaethol mawr sydd mor bwysig i'n diwylliant a'n celfyddydau. Yr wyf yn siŵr y gwnaeth *We Will Rock You* wneud i chi sylweddoli beth fyddwch yn cystadlu yn ei erbyn yn yr etholiad sydd i ddod.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn falch o'r safiad y mae ein Llywodraeth wedi ei gwneud wrth wneud cyn-filwyr yn gategori blaenoriaeth ar gyfer derbyn tai cymdeithasol os ydynt ei angen. Rydym i gyd yn ymwybodol nad yw bob amser yn hawdd i gyn-filwyr ddod i wybod am eu hawliau a'u defnyddio. A fyddech yn ystyried gofyn i'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio wneud datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad ar sut y gallwn sicrhau bod cyn-filwyr yn cael eu hysbysu

ask that consideration be given to one particular group of veterans that we sometimes forget? There are a good many ex-Gurkhas living in my constituency, and many of them have particular issues relating to language, culture, and getting used to living in a different type of community. Would you suggest to the next Government that that particular group of veterans needs to be given consideration when we are looking at services for veterans—whether they are medical services, housing, or any other public services in Wales?

Jane Hutt: You know that the Deputy Minister for Housing and Regeneration, Jocelyn Davies, has made it clear that the Assembly Government is committed to tackling and preventing homelessness, and that the project that is being taken forward by Cymorth Cymru, with the directory of ex-service personnel and other vulnerable groups experiencing housing difficulties in Wales, will be very important. Indeed, in relation to Gurkhas and our support for them, it is clear that with the Gurkhas settling into the United Kingdom since 2004, and Gurkha Company (Mandalay) being based at the infantry battle school in Brecon since 1974, we value the Gurkha community. I would be very happy to raise concerns with Carl Sargeant in his capacity as Minister with responsibility for the armed forces community in Wales, but this is a cross-Government issue; we can all support our Gurkhas and be proud of their presence in Wales.

2.30 p.m.

Kirsty Williams: Minister, could you make a request that a statement be issued by the Minister for Children, Education and Lifelong Learning with regard to his decision on the school closure proposals for the Maes y Dderwen catchment area? There are 10 schools and 10 communities awaiting that decision. The intention by Powys County Council is to replace those 10 schools with four new schools. As you can imagine, there is a great deal of disquiet within the community and the council, and an eagerness for a decision before the Assembly is dissolved, which would mean that they would

o’u hawliau o ran tai yng Nghymru? A allaf ofyn ymhellach bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i un grŵp penodol o gyn-filwyr yr ydym yn ei anghofio weithiau? Mae yna lawer iawn o gyn-Gurkhas yn byw yn fy etholaeth i, ac mae gan lawer ohonynt faterion penodol sy’n ymwneud ag iaith, diwylliant a chyfarwyddo â byw mewn math gwahanol o gymuned. A fydddech yn awgrymu i’r Llywodraeth nesaf fod angen ystyried y grŵp penodol hwn o gyn-filwyr pan fyddwn yn edrych ar wasanaethau i gyn-filwyr—p’un a ydynt yn wasanaethau meddygol, tai neu unrhyw wasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru?

Jane Hutt: Yr ydych yn gwybod bod y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, Jocelyn Davies, wedi ei gwneud yn glir bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i fynd i’r afael â digartrefedd a’i atal, ac y bydd y prosiect sydd dan ofal Cymorth Cymru, gyda chyfeiriadur o gyn-filwyr a grwpiau eraill agored i niwed sy’n profi anawsterau o ran tai yng Nghymru, yn bwysig iawn. Yn wir, mewn perthynas â’r Gurkhas a’n cefnogaeth ni iddynt, mae’n amlwg, a’r Gurkhas wedi gallu ymgartrefu yn y Deyrnas Unedig ers 2004, a Gurkha Company (Mandalay) wedi’i leoli yn yr ysgol frwydro i droedfilwyr yn Aberhonddu ers 1974, ein bod yn gwerthfawrogi’r gymuned Gurkha. Buaswn yn hapus iawn i godi pryderon gyda Carl Sargeant yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y gymuned lluoedd arfog yng Nghymru, ond mae hwn yn fater traws-Lywodraethol; gallwn oll gefnogi ein Gurkhas a bod yn falch o’u presenoldeb yng Nghymru.

Kirsty Williams: Weinidog, a allech wneud cais bod datganiad yn cael ei gyhoeddi gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes o ran ei benderfyniad ar y cynigion i gau ysgolion yn nalgylch Maes y Dderwen? Mae 10 ysgol a 10 cymuned yn disgwyl am y penderfyniad hwnnw. Y bwriad gan Gyngor Sir Powys yw cael pedair ysgol newydd yn lle’r 10 ysgol honno. Fel y gallwch ddychmygu, mae llawer o anesmwythyd o fewn y gymuned a’r cyngor, ac awydd am benderfyniad cyn i’r Cynulliad gael ei ddiddymu, a fyddai’n golygu na fyddai’n rhaid iddynt aros tan y bydd

not have to wait until a new Welsh Assembly Government was formed to find out the fate of those schools as a result of that closure programme.

Secondly, I raise with you the issue I raised last week with regard to fire services in my constituency. You will be aware that last week I raised the issue of the Land Rover in Rhayader. I do not know whether the Minister for Social Justice and Local Government was able to have a word with the fire brigade in the area because the Land Rover is now staying in Rhayader, which is very welcome indeed. If he did play a part in that, perhaps he could use similar charm to persuade the fire brigade to keep the turntable unit in Llandrindod Wells fire station, which it is now proposing to move and which would result in the nearest turntable engine for the Radnorshire area being in Aberystwyth. I am sure that you would agree that it is not acceptable for a unit to have to travel all the way over from the west coast of Wales to answer calls in Radnorshire.

Jane Hutt: Clearly, the Minister for Children, Education and Lifelong Learning's determination on the Powys County Council school proposals must be within the timescale set, from the date on which public notices were published. That is something that we will deal with and aim to determine as soon as possible. Your point also demonstrates the importance of a business statement: when Members bring issues to the fore, Ministers can respond. The current position in terms of the fire and rescue service, and the removal of the Land Rover vehicle from Rhayader, which was an important factor that you raised, have been looked at and a range of options to address operational issues have been considered and taken up by the Minister and you can see the results.

Christine Chapman: Could we have an urgent statement from the Minister for the Economy and Transport on bus services in Wales? I am led to believe that Veolia Transport Ltd, which is Wales's second

Llywodraeth newydd Cynulliad Cymru yn cael ei ffurfio cyn darganfod tynged yr ysgolion hynny o ganlyniad i'r rhaglen gau honno.

Yn ail, hoffwn godi gyda chi'r mater a godais yr wythnos diwethaf mewn perthynas â gwasanaethau tân yn fy etholaeth i. Byddwch yn ymwybodol fy mod wedi codi mater y Land Rover yn Rhaeadr Gwy yr wythnos diwethaf. Nid wyf yn gwybod a lwyddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i gael gair gyda'r frigâd dân yn yr ardal oherwydd bydd y Land Rover yn awr yn aros yn Rhaeadr Gwy, sydd i'w groesawu'n fawr iawn. Os oedd ganddo ef ran yn hynny, efallai y gallai ddefnyddio swyn tebyg i ddwyn perswâd ar y frigâd dân i gadw'r uned drofwrdd yng ngorsaf dân Llandrindod, y mae'r gwasanaeth yn awr yn cynnig ei symud, a fyddai'n golygu mai yn Aberystwyth fyddai'r peiriant trofwrdd agosaf i ardal Sir Faesyfed. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno nad yw'n dderbyniol bod uned yn gorfod teithio'r holl ffordd o arfordir gorllewin Cymru i ateb galwadau yn Sir Faesyfed.

Jane Hutt: Yn amlwg, mae'n rhaid i benderfyniad y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gynigion Cyngor Sir Powys o ran ysgolion gael ei wneud o fewn yr amserlen a osodwyd, o'r dyddiad y cafodd yr hysbysiadau cyhoeddus eu cyhoeddi. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ymdrin ag ef ac yn anelu at gael penderfyniad yn ei gylch cyn gynted ag y bo modd. Mae eich pwynt hefyd yn dangos pam mor bwysig yw datganiad busnes: pan mae Aelodau'n dod â materion i'r amlwg, gall Gweinidogion ymateb. Mae'r sefyllfa bresennol o ran y gwasanaeth tân ac achub, a chael gwared ar y cerbyd Land Rover o Rhaeadr Gwy, a oedd yn ffactor pwysig a godwyd gennych, wedi cael ei ystyried ac mae ystod o opsiynau i fynd i'r afael â materion gweithredol hefyd wedi cael eu hystyried a'u gweithredu gan y Gweinidog, a gallwch weld y canlyniadau.

Christine Chapman: A allwn gael datganiad brys gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar wasanaethau bysiau yng Nghymru? Deallaf fod Veolia Transport Ltd, sef ail weithredwr bysiau mwyaf Cymru, yn

biggest bus operator, is pulling out of services in Wales. If you look at Rhondda Cynon Taf alone, that will mean the loss of over 100 jobs in this area. This is obviously a very worrying time for the drivers and, in the present economic circumstances, it has to be an issue of great concern when any group of workers is threatened with redundancy. We have had calls this morning from Unite, the union, and I know that there were discussions on this yesterday. While the irregularity of bus services in my constituency over the past decade has been extremely frustrating, this move will cause even greater disruption as Veolia continues to provide the majority of services in my area and also has the contract for school transport. Could you ensure that a statement is prepared, Minister, because this is going to be very worrying for many of us in our constituencies?

Jane Hutt: It is very worrying not just for those in your constituency, but for a much wider regional area in terms of Veolia pulling out of providing bus services in Rhondda Cynon Taf and the resulting loss of jobs and services. I understand that officials have been made aware of this via Unite and have discussed these issues today. They have agreed to meet the operations director of Veolia Transport at Treforest tomorrow morning, which will give us an update on the present position from the company's perspective and establish how the Welsh Assembly Government can assist those affected.

Nick Bourne: I will make a couple of points. The first relates to a matter for the Minister for Social Justice and Local Government, which has only just come to light in full. I will write to the Minister on this, so if it is too late for a written statement, perhaps a reply letter could be published in the Library for Members, or former Members as I suppose we will be known. The closure of the Aberystwyth day centre has recently been announced. The centre is presently very close to the bus station, the railway station and the centre of the town and has very good access. Its replacement out of town does not have

tynnu allan o wasanaethau yng Nghymru. Os ydych yn edrych ar Rhondda Cynon Taf yn unig, bydd hynny'n golygu colli mwy na 100 o swyddi yn yr ardal. Mae hyn yn amlwg yn amser pryderus iawn i yrwyr ac, yn yr amgylchiadau economaidd presennol, mae'n rhaid iddo fod yn fater o bryder mawr pan fydd bygythiad o golli swyddi i unrhyw grŵp o weithwyr. Rydym wedi cael galwadau y bore yma gan Unite, yr undeb, a gwn fod trafodaethau wedi cael eu cynnal ar y mater hwn ddoe. Er bod afreoleidd-dra gwasanaethau bysiau yn fy etholaeth i yn ystod y degawd diwethaf wedi bod yn hynod rwystredig, bydd y cam hwn yn achosi hyd yn oed mwy o aflonyddwch gan fod Veolia yn parhau i ddarparu'r rhan fwyaf o wasanaethau yn fy ardal i, ac mae hefyd ganddo'r contract ar gyfer cludiant i'r ysgol. A allech sicrhau bod datganiad yn cael ei baratoi, Weinidog, oherwydd mae hyn yn mynd i beri pryder i lawer ohonom yn ein hetholaethau?

Jane Hutt: Mae'n peri cryn bryder nid yn unig ar gyfer y rhai yn eich etholaeth chi, ond ar gyfer ardal ranbarthol llawer ehangach o ran Veolia yn tynnu allan o ddarparu gwasanaethau bws yn Rhondda Cynon Taf a'r colli swyddi a gwasanaethau sy'n deillio o hynny. Deallaf fod swyddogion wedi cael gwybod am hyn drwy Unite ac wedi trafod y materion hyn heddiw. Maent wedi cytuno i gwrdd â chyfarwyddwr gweithrediadau Veolia Transport yn Nhreforest bore yfory, a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y sefyllfa bresennol o safbwynt y cwmni ac yn cadarnhau sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru gynorthwyo'r rhai yr effeithir arnynt.

Nick Bourne: Mae gennyf ddau bwynt i'w wneud. Mae'r cyntaf yn ymwneud â mater i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, sydd ond wedi dod i'r amlwg yn llawn yn ddiweddar. Byddaf yn ysgrifennu at y Gweinidog am hyn, felly os yw'n rhy hwyr ar gyfer datganiad ysgrifenedig, efallai y gallai llythyr ymateb gael ei gyhoeddi yn y Llyfrgell i Aelodau, neu gyn-aelodau fel mae'n debyg y byddwn yn cael ein hadnabod. Cyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd canolfan ddydd Aberystwyth yn cau. Mae'r ganolfan ar hyn o bryd yn agos iawn i'r orsaf fysiau, yr orsaf

good access and is away from the public transport hub. I appreciate that this is a matter for local government, but once he gets the letter, could the Minister respond on what should have been done in terms of consultation? There has not been thorough consultation on this issue and people in the town—particularly those who represent older people—are concerned about this issue.

Secondly, and on behalf of the opposition, I wish to echo Jane's thanks to the civil servants who serve all the people of Wales. It is right that we recognise their professionalism and their effectiveness. Through you, Llywydd, I also wish to thank the Assembly Commission staff, who have been uniformly hard-working, professional and good-humoured over the last four years in serving Members who have not always been all of those things, if they have been any of them. I wish to thank them very much for all that they have done over the past four years.

Jane Hutt: Thank you for endorsing my comments, Nick. Those views regarding the delivery by Government and Assembly Commission staff over the past four years are reflected across the Chamber.

Your first point is important. As you say, it is a matter for Ceredigion County Council, but I am sure that the Minister for Social Justice and Local Government will have taken note of that and will respond to you.

The Presiding Officer: May I thank you, Nick, on behalf of Commission staff for your well-received thanks? You were always all those things that you set out. Brian Gibbons has the next question.

Brian Gibbons: In view of time constraints, could we have a written statement on the details of the meeting between the First Minister and Karl-Ulrich Köhler, the European head of Tata Steel, particularly in

reilffordd a chanol y dref ac mae'n hygyrch iawn. Nid yw'r ganolfan newydd y tu allan i'r dref yn hygyrch ac mae wedi'i lleoli beth pellter i ffwrdd o'r ganolfan trafniadaeth gyhoeddus. Rwy'n sylweddoli bod hwn yn fater i lywodraeth leol, ond unwaith iddo gael y llythyr, a allai'r Gweinidog ymateb o ran yr hyn y dylid fod wedi'i wneud o ran ymgynghori? Ni fu ymgynghori trylwyr ar y mater hwn, ac mae pobl yn y dref—yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli pobl hŷn—yn pryderu am y mater hwn.

Yn ail, ac ar ran yr wrthblaid, hoffwn ategu diolch Jane i'r gweision sifil sy'n gwasanaethu holl bobl Cymru. Mae'n iawn ein bod yn cydnabod eu proffesiynoldeb a'u heffeithiolrwydd. Trwoch chi, Lywydd, rwyf hefyd am ddiolch i staff Comisiwn y Cynulliad, sydd wedi bod yn gweithio'n galed, yn broffesiynol ac yn hwyliog dros y pedair blynedd diwethaf wrth wasanaethu Aelodau nad ydynt bob amser wedi arddangos yr ymddygiadau hynny i gyd, os ydynt wedi arddangos unrhyw un ohonynt. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn am bopeth y maent wedi'i wneud dros y pedair blynedd diwethaf.

Jane Hutt: Diolch i chi am ategu fy sylwadau, Nick. Mae'r safbwyntiau hynny mewn perthynas â gweithredu gan staff y Llywodraeth a Chomisiwn y Cynulliad dros y pedair blynedd diwethaf yn cael eu hadlewyrchu ar draws y Siambr.

Mae eich pwynt cyntaf yn bwysig. Fel y dywedwch, mae'n fater i Gyngor Sir Ceredigion, ond rwy'n sicr y bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi cymryd sylw o hynny ac y bydd yn ymateb i chi.

Y Llywydd: Hoffwn ddiolch i chi, Nick, ar ran staff y Comisiwn am eich diolch, sydd wedi cael derbyn iad da. Roeddech bob amser yn dangos yr ymddygiadau hynny a restrwyd gennyh. Mae gan Brian Gibbons y cwestiwn nesaf.

Brian Gibbons: O ystyried y cyfyngiadau ar amser, a allem gael datganiad ysgrifenedig ar fanylion y cyfarfod rhwng y Prif Weinidog a Karl-Ulrich Köhler, pennaeth Ewropeaidd Tata Steel, yn enwedig mewn perthynas â sut

relation to how the Assembly Government will work with the steel industry in Wales in light of the carbon floor payments that were announced in the UK Government budget? That carbon floor will add hundreds of millions of pounds to the cost of producing steel in Wales and the implications for the industry are alarming. Mr Köhler has said that, whatever business benefits occurred in last year's UK budget statement, they will be dwarfed by the introduction of carbon floor payments, which potentially represent a severe blow to the sustainability of the Welsh steel industry. This will send a shiver of alarm down the backs of all of us who are concerned about manufacturing in Wales. It does not even take into account the implications of phase 3 of the European Union emissions trading system, which is also due to come into force in a few years' time. Therefore, any of us who are concerned about manufacturing in Wales need to make urgent representations about the implications of this carbon levy for our industry, because tens of thousands of jobs are dependent on that industry in Wales. If that proposal is not urgently mitigated, I dread to think what the implications will be for the future economic wellbeing of our country.

Jane Hutt: Thank you for ensuring, as the constituency Member for Aberavon, that those representations have been heard. The First Minister met the head of Tata Steel Europe last week to discuss the future of the company in this country. We have a close working relationship with Tata Steel, which is a major employer in Wales. It is investing heavily in reducing its carbon emissions in Wales. Therefore, we need to look carefully at how the floor price would link to existing initiatives, such as the European Union emissions trading system. We are considering our response to the budget announcement and we will relay our position to the UK Government in due course. We will ensure that the representations that have been made—which may also have been made to Vince Cable during his visit today—will be shared with the Assembly.

Nick Ramsay: I am sure that the Minister for Health and Social Services is aware that, after we have entered the dissolution period,

y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r diwydiant dur yng Nghymru yn sgil yr isafswm taliadau carbon a gyhoeddwyd yng nghyllideb Llywodraeth y DU? Bydd yr isafswm hwnnw'n ychwanegu cannoedd o filiynau o bunnoedd at y gost o gynhyrchu dur yng Nghymru ac mae'r goblygiadau i'r diwydiant yn frawychus. Mae Mr Köhler wedi dweud, beth bynnag oedd y manteision i fusnes yn natganiad cyllideb y DU y llynedd, byddant yn bitw yn erbyn yr isafswm taliadau carbon os cânt eu cyflwyno, a gallai fod yn ergyd ddifrifol i gynaliadwyedd diwydiant dur Cymru. Bydd hyn yn codi ofn ar bob un ohonom sy'n poeni am weithgynhyrchu yng Nghymru. Nid yw hyd yn oed yn cymryd i ystyriaeth oblygiadau cam 3 system fasnachu allyriadau'r Undeb Ewropeaidd, sydd hefyd yn dod i rym ymhen ychydig flynyddoedd. Felly, mae angen i unrhyw un ohonom sy'n poeni am weithgynhyrchu yng Nghymru gyflwyno sylwadau ar frys ynghylch y goblygiadau'r ardoll garbon hon i'n diwydiant, gan fod degau o filoedd o swyddi yn ddibynnol ar y diwydiant hwnnw yng Nghymru. Os nad yw'r cynnig hwnnw'n cael ei liniaru ar frys, mae'n gas gennyf feddwl beth fydd y goblygiadau ar gyfer lles economaidd ein gwlad yn y dyfodol.

Jane Hutt: Diolch i chi am sicrhau, fel yr Aelod etholaethol dros Aberafan, bod y sylwadau hynny wedi cael eu gwneud. Cyfarfu'r Prif Weinidog â phennaeth Tata Steel Europe yr wythnos diwethaf i drafod dyfodol y cwmni yn y wlad hon. Mae gennym berthynas waith agos gyda Tata Steel, sy'n gyflogwr mawr yng Nghymru. Mae'n buddsoddi'n helaeth mewn lleihau ei allyriadau carbon yng Nghymru. Felly, mae angen inni edrych yn ofalus ar sut y byddai'r isafswm pris yn cysylltu â'r mentrau sy'n bodoli eisoes, fel system fasnachu allyriadau yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn ystyried ein hymateb i gyhoeddiad y gyllideb a byddwn yn mynegi ein safbwynt i Lywodraeth y DU maes o law. Byddwn yn sicrhau y bydd y sylwadau sydd wedi eu gwneud—sydd o bosibl hefyd wedi cael eu gwneud i Vince Cable yn ystod ei ymweliad heddiw—yn cael eu rhannu â'r Cynulliad.

Nick Ramsay: Rwy'n siŵr bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol bod y cyfnod rhwng 11 a 17

between 11 and 17 April is Parkinson's Awareness Week in the UK. Parkinson's UK's theme for this year is 'Join us' and the organisation wishes to raise awareness of this debilitating condition. Every hour, someone in the UK is diagnosed with Parkinson's disease, but it is often given less precedence than other neurological conditions. It is particularly a problem for younger people, because although it is generally thought that it is older people who are affected by Parkinson's disease, younger people can also be seriously affected. I know that it is too late to ask for a ministerial statement or a Government debate on this, however, will you join me and other Assembly Members in stating the Assembly's commitment to sufferers of Parkinson's disease, to demonstrate that there is a desire here for them to be well looked after in future?

Jane Hutt: I am sure that Members across the Chamber, with the Minister for Health and Social Services at the forefront, join you in recognising the needs of those who suffer from Parkinson's disease at whatever age. The awareness week will be an important opportunity for us all to highlight those needs and is an important part of the strategy that the Minister has taken forward with regard to supporting those with neurological conditions.

Veronica German: Minister, will you ask your colleague the Minister for health to make an urgent statement on the news that we have heard today that 38 patients are at risk of contracting Creutzfeldt-Jakob disease after surgery in south Wales? This is very worrying, not only for those who are affected, but for others who may have reason to be concerned. Even though we read that the risk of transmission is low, I would rather hear that from the Minister for health than through reading reports in the press. I am sure that people all over Wales would like to get a better understanding of the situation.

Jane Hutt: We must be mindful of raising concerns and anxieties on such matters.

Ebrill, sef ar ôl inni ddechrau'r cyfnod diddymu, yn Wythnos Ymwybyddiaeth Clefyd Parkinson yn y DU. Thema Parkinson's UK eleni yw 'Ymunwch â ni' ac mae'r sefydliad yn dymuno codi ymwybyddiaeth ynghylch y cyflwr gwanychol hwn. Bob awr, mae rhywun yn y DU yn clywed eu bod yn dioddef o glefyd Parkinson, ond yn aml mae'n cael llai o flaenoriaeth na chyflyrau niwrolegol eraill. Mae'n broblem arbennig i bobl iau, oherwydd er y credir yn gyffredinol mai pobl hŷn sy'n cael eu heffeithio arnynt gan glefyd Parkinson, gall pobl ifanc hefyd gael eu heffeithio'n ddifrifol. Rwy'n gwybod ei bod yn rhy hwyr i ofyn am ddatganiad gweinidogol neu ddadl y Llywodraeth ar hyn; fodd bynnag, a fydddech yn ymuno â mi ac Aelodau eraill y Cynulliad i ddatgan ymrwymiad y Cynulliad i ddiodefwyr clefyd Parkinson, er mwyn dangos bod dyhead yma eu bod yn cael gofal da yn y dyfodol?

Jane Hutt: Rwy'n siŵr bod Aelodau ar draws y Siambr, gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar frig y rhestr, yn ymuno â chi i gydnabod anghenion y rhai sy'n dioddef o glefyd Parkinson, beth bynnag eu hoed. Bydd yr wythnos ymwybyddiaeth yn gyfle pwysig inni oll dynnu sylw at yr anghenion hynny, ac mae'n rhan bwysig o'r strategaeth y mae'r Gweinidog wedi ei datblygu o ran cefnogi pobl sydd â chyflyrau niwrolegol.

Veronica German: Weinidog, a wnewch chi ofyn i'ch cydweithiwr, y Gweinidog dros iechyd, wneud datganiad brys ar y newyddion yr ydym wedi'i glywed heddiw fod 38 o gleifion mewn perygl o ddal clefyd Creutzfeldt-Jakob ar ôl llawdriniaeth yn ne Cymru? Mae hyn yn peri pryder mawr, nid yn unig i'r rhai sydd wedi'u heffeithio, ond i eraill a allai fod â rheswm i fod yn bryderus. Er ein bod wedi darllen bod y risg o drosglwyddo'r clefyd yn isel, byddai'n well gennyf glywed hynny gan y Gweinidog dros iechyd na thrwy ddarllen adroddiadau yn y wasg. Rwy'n siŵr y byddai pobl ar hyd a lled Cymru yn hoffi cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa hon.

Jane Hutt: Rhaid inni fod yn ofalus o ran codi pryderon ac ofnau ar faterion o'r fath.

However, this is a public health matter and it is therefore for public health professionals to guide us on it.

Fodd bynnag, mae hwn yn fater iechyd cyhoeddus ac felly cyfrifoldeb gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd cyhoeddus yw rhoi arweiniad i ni arno.

Datganiad am Adolygiad Llywodraeth Leol: Ai Dyma'r Ffordd Orau o Ddarparu Gwasanaethau—Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol?
Statement on the Review of Local Government—Local Regional National: What Services Are Best Delivered Where?

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): In September last year, I commissioned an independent review of local authority service delivery. The aim of that work was to provide a clearer organisational framework for the delivery of a range of local authority services. It was about looking at how services are currently delivered and exploring the fundamental issues of what services are best delivered where. The exercise is now complete and I am publishing the review today.

Carl Sargeant: Diolch, Dai, am eich sylwadau. Cefais fy nharo gan eich sylwadau agoriadol am ehangu gorwelion. Mae'n swnio fel teitl strategaeth arall, ond rydych yn hollol gywir: mae hyn yn ymwneud â gweithio y tu hwnt i'r ffiniau hynny ac, mewn rhai ardaloedd, mae llywodraeth leol wedi tyfu i wneud hynny. Rwyf wedi fy nghalonogi gan rai o'r newidiadau mewn darparu gwasanaethau sydd eisoes yn digwydd. Un enghraifft yw gwasanaethau cyfreithiol yn ne Cymru, lle mae saith awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi gwasanaethau cyfreithiol. Tu hwnt i hynny, mae'r heddlu yn cymryd rhan ac mae rhai o'r prifysgolion hefyd yn ymwybodol o'r ddarpariaeth honno o wasanaethau cyfreithiol. Unwaith eto, dyna weithio tu hwnt i ffiniau disgwyliadau.

Bu i chi godi rhai pwyntiau dilys am gaffael cyhoeddus a chreu amgylchedd a fydd hefyd yn helpu economi Cymru. Wrth weithio gyda Jane Hutt, ac ar draws y Llywodraeth, rwy'n falch bod gan y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi ffrwd waith caffael cyhoeddus.

procurement work stream. Mohammed Mehmet from Denbighshire County Council is the lead member for that, which is driving local government and the 22 authorities to support that proposal. I consider myself to be a friend of local government, Dai, because if Eric Pickles was in charge and if we did not have devolution in Wales, local government would be in a very different place today. I would like to think that local authorities see me as a friend of local government. I am quite keen to drive this agenda of collaboration forward, working together across the boundaries, because it is about protecting public sector jobs in Wales. That is my ambition and I hope that local government can share that with me today.

Veronica German: Thank you, Minister, for your statement. I also thank Joe Simpson for the report that has been presented to us today. I have only had a chance to have a quick skim through it, obviously, but there is a great deal there to digest. We all agree that everyone in Wales deserves the best possible public services and that we cannot keep on doing things the way that we have always done them. As Jonathan mentioned, it may not be that local government will deliver all of these services. It may be that it delivers them collaboratively—I am having trouble saying the word now. I will concentrate my remarks more on councillors and the effect that this will have on them. There is a particular part of the report that refers to a new role for councillors. You have already said that, often, there have been political reasons as to why changes have not happened in the past. People feel that some of their sovereignty—sorry, I am not getting my words out at all well today. People feel that some of their sovereignty is taken away when they start to collaborate with others. We have talked before about how we scrutinise collaborative work. Councillors find that quite difficult. I think that council cabinet members can work collaboratively—I am having trouble saying the word again.

Brian Gibbons: Together.

Veronica German: Together. Thank you.

Mohammed Mehmet, o Gyngor Sir Ddinbych, yw'r aelod arweiniol ar hynny, sy'n ysgogi llywodraeth leol a'r 22 awdurdod i gefnogi'r cynnig hwnnw. Rwy'n ystyried fy hun yn ffrind i lywodraeth leol, Dai, oherwydd pe bai Eric Pickles yn gyfrifol, a phe na bai datganoli yng Nghymru, byddai llywodraeth leol mewn sefyllfa wahanol iawn heddiw. Byddwn yn hoffi meddwl bod awdurdodau lleol yn fy ngweld fel ffrind i lywodraeth leol. Rwy'n eithaf awyddus i yrru'r agenda hon o gydweithredu ymlaen, gan weithio ar y cyd ar draws y ffiniau, oherwydd mae a wnelo â diogelu swyddi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dyna yw fy uchelgais ac rwy'n gobeithio y gall llywodraeth leol rannu hynny gyda mi heddiw.

Veronica German: Diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad. Diolch hefyd i Joe Simpson am yr adroddiad a gyflwynwyd i ni heddiw. Rwyf ond wedi cael cyfle i sgimio drwyddo, yn amlwg, ond mae llawer iawn yno i'w ystyried. Rydym i gyd yn cytuno bod pawb yng Nghymru yn haeddu'r gwasanaethau cyhoeddus gorau posibl ac na allwn ddal ati i wneud pethau'r ffordd rydym wedi eu gwneud erioed. Fel y soniodd Jonathan, efallai nad llywodraeth leol fydd yn darparu'r holl wasanaethau hyn. Mae'n bosibl y bydd yn eu darparu ar y cyd—rwy'n cael trafferth ynganu. Byddaf yn canolbwyntio fy sylwadau ar gynghorwyr a'r effaith a gaiff hyn arnynt. Mae rhan benodol o'r adroddiad yn cyfeirio at rôl newydd i gynghorwyr. Rydych eisoes wedi dweud, yn aml, y bu rhesymau gwleidyddol ynghylch pam na ddigwyddodd newidiadau yn y gorffennol. Mae pobl yn teimlo bod peth o'u sofraniaeth—mae'n ddrwg gennyf, rwy'n ei chael yn anodd i yngan fy ngeiriau yn dda o gwbl heddiw. Mae pobl yn teimlo eu bod yn colli peth o'u sofraniaeth pan fyddant yn dechrau cydweithio ag eraill. Rydym wedi sôn o'r blaen am sut yr ydym yn craffu ar waith ar y cyd. Mae cynghorwyr yn canfod hynny'n eithaf anodd. Rwy'n credu y gall aelodau cyngor cabinet weithio yn gydweithredol—rwy'n cael trafferth ynganu eto.

Brian Gibbons: Gyda'i gilydd.

Veronica German: Gyda'i gilydd. Diolch.

However, backbench councillors cannot see how their role fits in so easily with that agenda and how they can scrutinise on behalf of their local communities as well as for the project as a whole. On the changing role of councillors, the report said that some might think that councillors' roles would be reduced but that it is clear this is not the case and that councillors should become cabinet members for their wards and community champions. To me, the way it is written makes it sound as though their role would not be reduced, because they would be taking on this role as community champions. However, does that mean that the scrutiny role would be somewhat reduced? That is a danger. I know that it should not be, but I think that there is a danger that that could happen. I would welcome your comments on how you see that going forward.

The report says that there should be more support for members outside the committee work that they do. People go into local government and become councillors in order to get things done for their communities. I am sure that that is true of most people. In the past, the work that they have done in their wards has often been treated as political work or work that is not council work as such. This report wants to turn that on its head and say, 'No, the community champion part of this is very important' and that support should be given by councils for members to undertake this work. Where do you see this role coming in? Is it a role for the WLGA? Can you see other ways of best practice and so on being spread across different councils in Wales?

On the major aspect of this report and your statement on whether this is national, regional or local work, many people will be concerned that too much would be national and regional and that there would not be enough left locally, although I understand why we want collaboration. I know that it is early, but do you have any views so far on how much of this work you would see remaining at the local council level and how much would be done regionally or nationally? I endorse Jonathan Morgan's point that there is perhaps some work done

Fodd bynnag, ni all cynghorwyr meinciau cefn weld sut mae eu rôl yn cyd-fynd mor hawdd â'r agenda hwnnw a sut y gallant graffu ar ran eu cymunedau lleol yn ogystal ag ar gyfer y prosiect yn gyffredinol. Ar y newid yn rôl cynghorwyr, dywedodd yr adroddiad y gallai rai feddwl y byddai lleihau ar rôl cynghorwyr ond ei bod yn amlwg nad yw hynny'n wir, ac y dylai cynghorwyr fod yn aelodau cabinet dros eu wardiau ac yn hyrwyddwyr cymunedol. I mi, mae'r ffordd y mae wedi ei eirio yn awgrymu na fydd lleihau ar eu rôl, oherwydd byddant yn mabwysiadu rôl fel hyrwyddwyr cymunedol. Fodd bynnag, a ydy hynny'n golygu y byddai lleihau rhywfaint ar eu rôl craffu? Mae hynny'n berygl. Rwy'n gwybod na ddylai fod, ond credaf fod perygl y gallai hynny ddigwydd. Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar sut y gwelwch hynny'n datblygu.

Mae'r adroddiad yn dweud y dylai fod mwy o gefnogaeth i aelodau y tu allan i'r gwaith pwyllgor y maent yn ei wneud. Mae pobl yn mynd i mewn i lywodraeth leol a dod yn gynghorwyr er mwyn gwneud pethau dros eu cymunedau. Rwy'n siŵr bod hynny'n wir am y rhan fwyaf o bobl. Yn y gorffennol, mae'r gwaith y maent wedi'i wneud yn eu wardiau wedi ei drin fel gwaith gwleidyddol neu waith nad yw'n waith y cyngor fel y cyfryw. Mae'r adroddiad hwn am droi hynny ar ei ben a dweud, 'Na, mae bod yn hyrwyddwr cymunedol yn rhan bwysig o hyn' a dylid rhoi'r gefnogaeth honno i aelodau wneud y gwaith hynny. Ble ydych chi'n gweld y rôl hon yn digwydd? A yw'n rôl i GLILC? A allwch chi weld dulliau eraill o arferion gorau ac ati yn cael eu lledu ar draws cynghorau gwahanol yng Nghymru?

Ar yr agwedd bwysig ar yr adroddiad hwn a'ch datganiad ynghylch a yw hyn yn waith cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, bydd llawer o bobl yn poeni y byddai gormod yn genedlaethol ac yn rhanbarthol ac na fyddai digon ar ôl yn lleol, er fy mod yn deall pam rydym eisiau gweld cydweithio. Rwy'n gwybod ei fod yn gynnar, ond a oes gennych unrhyw sylwadau hyd yn hyn ar faint o'r gwaith hwn byddech yn ei weld yn aros ar lefel cyngor lleol a faint fyddai'n cael ei wneud yn rhanbarthol neu'n genedlaethol? Cymeradwyaf bwynt Jonathan Morgan fod

by the Assembly Government at the moment that could be done at a different level. Apart from that, Members have covered everything, and you have covered all of the other points that I wanted to make.

3.15 p.m.

Carl Sargeant: Thank you for your comments, Veronica. This report is part of the suite of tools that we have to drive this agenda forward. We have discussed the Proposed Local Government (Wales) Measure at length on many occasions, and I must refer back to that in terms of the points that you raised on the levels of scrutiny and support for backbench members who do not feel part of the executive decision-making process. We have strengthened that position in the proposed Measure about training officers to support the scrutiny function of a council, because I believe that good services are enhanced by good scrutiny. That is something that we are taking forward with local government. Training is extremely important, and it is something that the Welsh Local Government Association, as an improvement agency, also works on. I am keen to understand how we can better support that principle.

Reports are always interesting and people will interpret them in many different ways with regard to what they believe they say and what they actually say. The fundamental issue for me is how we get good value and good services for the people of Wales. It is quite a controversial thing to say, but where there have been difficulties in driving forward the change agenda, whether that is at a political or officer level, I do not believe that there will be a place for them in local government in the future, because they cannot maintain the old school way of delivering public services. We are in a different place as we are financially constrained, and we are changing the way in which services are delivered.

I cannot give you the detail on which services will be based at a regional level or national level; it will be about what is best placed to deliver better services. That will be done

efallai rhywfaint o waith a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd y gellid ei wneud ar lefel wahanol. Ar wahân i hynny, mae'r Aelodau wedi trafod popeth, ac rydych wedi ymdrin â phob un o'r pwyntiau eraill roeddwn am eu gwneud.

Carl Sargeant: Diolch i chi am eich sylwadau, Veronica. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o ddulliau sydd gennym i yrru'r agenda hon ymlaen. Rydym wedi trafod Mesur Arfaethedig Llywodraeth Leol (Cymru) yn fanwl ar sawl achlysur, a rhaid i mi gyfeirio'n ôl at hynny o ran y pwyntiau a godwyd gennych ar y lefelau o graffu a chymorth i aelodau meinciau cefn nad ydynt yn teimlo'n rhan o'r broses weithredol o wneud penderfyniadau. Rydym wedi cryfhau'r sefyllfa honno yn y Mesur arfaethedig ynghylch hyfforddi swyddogion i gynorthwyo swyddogaeth graffu'r cyngor, oherwydd rwy'n credu bod gwaith craffu da yn gwella gwasanaethau. Rydym yn bwrw ymlaen â hynny gyda llywodraeth leol. Mae hyfforddiant yn bwysig iawn, ac mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fel asiantaeth gwella, hefyd yn gweithio arno. Rwy'n awyddus i ddeall sut y gallwn gefnogi'r egwyddor honno'n well.

Mae adroddiadau bob amser yn ddiddorol a bydd pobl yn eu dehongli mewn sawl ffordd wahanol o ran yr hyn y maent yn credu y maent yn ei ddweud a'r hyn y maent mewn gwirionedd yn ei ddweud. Y mater pwysicaf i mi yw sut yr ydym yn cael gwerth da a gwasanaethau da i bobl Cymru. Mae'n dipyn o beth dadleuol i'w ddweud, ond lle bu anawsterau wrth fwrw ymlaen â'r agenda newid, boed hynny ar lefel wleidyddol neu swyddog, nid wyf yn credu y bydd lle ar eu cyfer mewn llywodraeth leol yn y dyfodol, oherwydd ni allant gynnal yr hen ffordd draddodiadol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Rydym mewn sefyllfa wahanol wrth i ni gael ein cyfyngu yn ariannol, ac rydym yn newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.

Ni allaf roi'r manylion i chi am ba wasanaethau fydd ar lefel ranbarthol neu lefel genedlaethol; bydd yn ymwneud â'r hyn sydd orau i ddarparu gwell gwasanaethau. Gwneir

through a compact programme between the Welsh Assembly Government and local government leaders. Key to that also is accountability. I respect and support the good councillors that we have in Wales at town and community council level and local authority level; we have some fantastic councillors who are dedicated to the delivery of good services, and I understand their concerns about accountability if the level of service is driven upwards to a regional or national level. I believe that we have scrutiny methods in place to combat their concerns about the delivery of those services.

I share a belief with my colleagues Leighton Andrews and Gwenda Thomas in a fundamental change for better service delivery in Wales. I am pleased that you were supportive of most of the issues in the Proposed Local Government (Wales) Measure, as I believe that the Assembly is keen, with the limited amount of funding available, to deliver services across Wales at the best level for the best value for the public purse.

The report says that there are elements of service delivery at the 22 local authorities that are wasteful, provide questionable value for the public purse and which are often difficult to sustain. That is not an acceptable position to be in, and whoever the Minister for local government may be post-May, it will be for them to decide on how to take forward those recommendations.

Your final point, which Jonathan also raised—I apologise for not picking up on that—was around what the Assembly does and what local government does. That is about having a grown-up conversation about service delivery, and the Minister for education and I have spoken often about where service levels are best placed. There may be an opportunity for services that are delivered at Assembly level to be delivered at local government level or beyond, or for local government services to be delivered at a town and community council level. I have an open mind on some of those issues, but that is a matter for further debate in the future.

hynny drwy raglen gytundeb rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr llywodraeth leol. Mae atebolrwydd hefyd yn allweddol i hynny. Rwy'n parchu ac yn cefnogi'r cynghorwyr da sydd gennym yng Nghymru ar lefel cyngor tref a chymuned ac ar lefel awdurdod lleol; mae gennym rai cynghorwyr gwych sy'n ymroddedig i ddarparu gwasanaethau da, ac rwy'n deall eu pryderon am atebolrwydd os bydd lefel y gwasanaeth yn cael ei yrru i fyny i lefel ranbarthol neu genedlaethol. Rwy'n credu bod gennym ddulliau craffu ar waith i fynd i'r afael â'u pryderon ynghylch darparu'r gwasanaethau hynny.

Fel fy nghydweithwyr Leighton Andrews a Gwenda Thomas credaf mewn newid sylfaenol er mwyn darparu gwasanaethau'n well yng Nghymru. Rwy'n falch yr oeddech yn gefnogol o'r rhan fwyaf o'r materion ym Mesur Arfaethedig Llywodraeth Leol (Cymru), gan fy mod yn credu bod y Cynulliad yn awyddus, gyda'r swm cyfyngedig o arian sydd ar gael, i ddarparu gwasanaethau ar draws Cymru ar y lefel orau er mwyn gweld y gwerth gorau i'r pwrs cyhoeddus.

Mae'r adroddiad yn dweud bod elfennau o'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y 22 o awdurdodau lleol yn wastraffus, yn darparu gwerth amheus i'r pwrs cyhoeddus ac yn aml yn anodd eu cynnal. Nid yw hynny'n sefyllfa dderbyniol i fod ynnddi, a phwy bynnag bydd y Gweinidog dros lywodraeth leol ar ôl mis Mai, nhw fydd yn penderfynu sut i fwrw ymlaen â'r argymhellion hynny.

Roedd eich pwynt olaf, a gododd Jonathan hefyd—rwy'n ymddiheuro am beidio â mynd ar ôl hynny—ynghylch yr hyn y mae'r Cynulliad yn ei wneud â'r hyn y mae llywodraeth leol yn ei wneud. Mae hynny ynghylch cael sgwrs aeddfed am ddarparu gwasanaethau, ac mae'r Gweinidog dros addysg a minnau wedi siarad yn aml am y lleoedd gorau i wasanaethau. Efallai bydd cyfle i ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar lefel y Cynulliad ar lefel llywodraeth leol neu du hwnt, neu i ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol ar lefel cyngortref a chymuned. Mae gennyf feddwl agored ar rai o'r materion hynny, ond mae

hynny'n fater i'w drafod ymhellach yn y dyfodol.

I thank Members for their support for the Simpson report, and future Ministers will make decisions around its recommendations.

Diolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth i adroddiad Simpson. Bydd Gweinidogion yn y dyfodol yn gwneud penderfyniadau ynghylch ei argymhellion.

Datganiad am Adroddiad ar Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru Statement on the Report on the Structure of Education Services in Wales

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews):

Last October, I announced the establishment of an independent task and finish group to consider the case for change to the structure of education services in Wales, excluding higher education. That group has now completed its work and I am publishing the report today.

This is a wide-ranging and significant report. It is based on extensive consultation, with contributions from many organisations and individuals in Wales and beyond. I welcome it, and I am grateful to the chair, Viv Thomas, and the members of the group for their intensive and thoughtful work. I am also grateful to the many people and organisations who contributed positively and generously to that work. The response to the group's recommendations will be a matter for the next Government.

This report complements the independent study on the delivery of local services announced today by the Minister for Social Justice and Local Government. It also complements the work of the efficiency and innovation board, which aims to develop innovation and promote collaboration across public services in Wales.

I established this task and finish group as part of my response to the May 2010 PricewaterhouseCoopers report on the cost of administering education in Wales. Also in response to the report, the front-line resources review programme board, which I chair, has developed a comprehensive delivery plan, using as guiding principles the themes 'simplify, standardise and share'.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu

Gydol Oes (Leighton Andrews): Fis Hydref diwethaf, cyhoeddais sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol i ystyried yr achos dros newid strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru, ac eithrio addysg uwch. Mae'r grŵp hwnnw yn awr wedi cwblhau ei waith ac rwy'n cyhoeddi'r adroddiad heddiw.

Mae hwn yn adroddiad arwyddocaol ac eang ei gwmpas. Mae'n seiliedig ar ymgynghori helaeth, gyda chyfraniadau gan nifer o sefydliadau ac unigolion yng Nghymru a thu hwnt. Rwy'n ei groesawu, ac rwy'n ddiolchgar i'r cadeirydd, Viv Thomas, ac aelodau'r grŵp am eu gwaith dwys a meddylgar. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r nifer o bobl a sefydliadau sydd wedi cyfrannu yn gadarnhaol ac yn hael i'r gwaith hwnnw. Bydd yr ymateb i argymhellion y grŵp yn fater ar gyfer y Llywodraeth nesaf.

Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r astudiaeth annibynnol ar ddarparu gwasanaethau lleol a gyhoeddwyd heddiw gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Mae hefyd yn ategu gwaith y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, sydd â'r nod o ddatblygu arloesedd a hyrwyddo cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Sefydlais y grŵp gorchwyl a gorffen hwn fel rhan o fy ymateb i adroddiad PricewaterhouseCoopers ym mis Mai 2010 ar y gost o weinyddu addysg yng Nghymru. Hefyd mewn ymateb i'r adroddiad, mae'r bwrdd rhaglen adolygu adnoddau rheng flaen, yr wyf yn gadeirydd arno, wedi datblygu cynllun cyflawni cynhwysfawr, gan ddefnyddio'r themâu 'symleiddio, safoni a

Good progress is now being made on delivery, and I am pleased to report that, when fully implemented, I anticipate that a cost shift from support to service functions in the range of £104 million to £192 million, as originally envisaged by PricewaterhouseCoopers, will have been achieved. My department has also reduced its administrative costs by £2.6 million in 2010-11, with further reductions being implemented in future years. The department is also progressing changes to reduce the administrative burden on its delivery partners.

The report that I am publishing today is another contribution to this urgent drive to shift resources to the education front line. It is also more than that. I asked the task and finish group to take a long-term, whole-system view. The primary objective that I gave it was to ensure that the education system is structured in a way that will deliver sustained improvement to learner attainment across Wales. This focus on learner attainment is crucial. As I said in my 'Teaching Makes a Difference' speech in February, in Wales, we have made progress on many fronts in education since devolution, such as an encouraging rise in examination results standards, an increasing number of adults with level 2 or level 3 qualifications and more modern apprenticeships. However, we know that learner attainment is not improving quickly enough, and the 2009 Programme for International Student Assessment results painted a disappointing picture of our educational performance and progress. As I said then, we must all take a level of responsibility for the problem, and for resolving it. We need to focus on higher standards, set our ambitions and expectations high, and look for improvement to every aspect of our system.

The report that I am publishing today tackles these issues directly. The task and finish group has taken a forensic look at the performance of providers at all levels: schools, colleges, local authorities, and regional and national organisations. It has found examples of exceptional achievement and inspiring leadership, but it has also found

rhannu' fel egwyddorion i'w dilyn. Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar gyflawni, ac rwy'n falch o adrodd, pan gaiff ei weithredu'n llawn, rwy'n disgwyl y bydd newid costau swyddogaethau cefnogaeth i wasanaeth o rhwng £104 miliwn a £192 miliwn, fel y rhagwelodd PricewaterhouseCoopers yn wreiddiol. Yn ogystal, mae fy adran wedi gostwng ei gostau gweinyddol o £2.6 miliwn yn 2010-11, gyda gostyngiadau pellach yn cael eu gweithredu yn y dyfodol. Mae'r adran hefyd yn mynd rhagddo â newidiadau i leihau'r baich gweinyddol ar ei bartneriaid cyflenwi.

Mae'r adroddiad yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw yn gyfraniad arall i'r ymgyrch frys hon i symud adnoddau i reng flaen addysg. Mae hefyd yn fwy na hynny. Gofynnais i'r grŵp gorchwyl a gorffen i feithrin golwg hirdymor, system-gyfan. Y prif amcan a sefydlais ar ei gyfer oedd sicrhau bod y system addysg wedi ei strwythuro mewn ffordd a fydd yn sicrhau gwelliant parhaus i gyrhaeddiad dysgwyr ledled Cymru. Mae'r ffocws hwn ar gyrhaeddiad dysgwyr yn hanfodol. Fel y dywedais yn fy araith 'Mae Addysgu yn Gwneud Gwahaniaeth' ym mis Chwefror, yng Nghymru, rydym wedi gwneud cynnydd mewn sawl cyfeiriad ym myd addysg ers datganoli, er enghraifft cafwyd cynnydd calonogol mewn safonau canlyniadau arholiadau, nifer cynyddol o oedolion â chymhwysterau lefel 2 neu lefel 3 a phrentisiaethau mwy modern. Fodd bynnag, gwyddom nad yw cyrhaeddiad dysgwyr yn gwella'n ddigon cyflym, a gwelwyd darlun siomedig o'n perfformiad a chynnydd addysgol yng nghanlyniadau Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr 2009. Fel y dywedais bryd hynny, mae'n rhaid i ni gyd gymryd lefel o gyfrifoldeb am y broblem, a thros ei datrys. Mae angen i ni ganolbwyntio ar safonau uwch, gan osod ein huchelgeisiau a'n disgwyliadau yn uchel, a chwilio am wella ym mhob agwedd ar ein system.

Mae'r adroddiad rwyf yn ei gyhoeddi heddiw yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn uniongyrchol. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi edrych yn ffrensic ar berfformiad darparwyr ar bob lefel: ysgolion, colegau, awdurdodau lleol, a sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r grŵp wedi dod o hyd i enghreifftiau o gyflawniad

a disappointing degree of inconsistency. Too many providers are failing to match the best. The relentless focus on improvement that should be present throughout the system and everywhere in Wales is too often just not there. As a result, there is inconsistency of achievement, and, overall, the pace of improvement has been too slow.

The report argues that the causes of this inconsistency are to be found in structural issues. It says that there is insufficient clarity of accountability for performance, high-quality support and robust, well-informed challenge at all levels. It says that local authorities in Wales are too small, when they operate individually, to provide consistently high-quality improvement services and professional support and challenge to the schools in their charge. It says that there is insufficient integration of education provision, particularly at the post-16 level, where schools and colleges should be working more closely together. It says that there has not been enough clarity of mission and joined-up thinking about education at a national level. These are hard messages: but they come as no surprise. I described the PISA results a wake-up call to a complacent system. This report is another wake-up call, and we should all give it open-minded consideration.

The report acknowledges that local government and other sectors have begun to address some of these issues. It makes recommendations for strengthening local government regional consortia, particularly to build their performance improvement role and to work closely with further education and training providers. It also recommends further rationalisation of the further education sector to around eight to 12 corporate entities. However, the group emphasises the need to deliver demonstrable and substantial improvement in learner achievement across Wales, and to do this quickly. It recommends a further in-depth review in 2013 to take a hard look at progress and consider whether more fundamental structural change is needed.

In February, I set out a 20-point plan to

ethriadol ac arweinyddiaeth ysbrydoledig, ond mae hefyd wedi canfod swm siomedig o anghysondeb. Mae gormod o ddarparwyr yn methu â chyrraedd safonau'r goreuon. Mae'r ffocws diwyro ar wella, a ddylai fod yn bresennol drwy gydol y system ac ym mhob man yng Nghymru, yn rhy aml, ar goll. O ganlyniad, mae anghysondeb o ran llwyddo, ac, yn gyffredinol, mae cyflymder y gwelliant wedi bod yn rhy araf.

Mae'r adroddiad yn dadlau bod achosion yr anghysondeb hwn i'w canfod mewn materion strwythurol. Mae'n dweud nad oes digon o eglurder o ran atebolrwydd am berfformiad, cymorth o ansawdd uchel na her wybodus gadarn ar bob lefel. Mae'n dweud bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn rhy fach, pan fyddant yn gweithredu yn unigol, i ddarparu gwasanaethau gwella cyson o ansawdd uchel a chefnogaeth a her broffesiynol i'r ysgolion yn eu gofal. Mae'n dweud nad oes digon o integreiddio darpariaeth addysg, yn enwedig ar y lefel ôl-16, lle y dylai ysgolion a cholegau weithio'n agosach gyda'i gilydd. Mae'n dweud na chafwyd digon o eglurder o ran cenhadaeth a meddwl cydgysylltiedig am addysg ar lefel genedlaethol. Mae'r rhain yn negeseuon caled: ond nid ydynt yn syndod. Disgrifiais ganlyniadau PISA fel rhybudd ynghylch system ag agwedd hunanfodlon. Mae'r adroddiad hwn yn rhybudd arall, a dylem oll ei ystyried â meddwl agored.

Mae'r adroddiad yn cydnabod bod llywodraeth leol a sectorau eraill wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Mae'n gwneud argymhellion ar gyfer cryfhau consortia rhanbarthol llywodraeth leol, yn enwedig i ddatblygu eu rôl wrth wella perfformiad ac i weithio'n agos ag addysg bellach a darparwyr hyfforddiant. Mae hefyd yn argymhell ad-drefnu pellach ar y sector addysg bellach i tua wyth i 12 o endidau corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r grŵp yn pwysleisio'r angen i gyflawni gwelliannau amlwg a sylweddol mewn cyrhaeddiad dysgwyr ar draws Cymru, ac i wneud hynny'n gyflym. Mae'n argymhell adolygiad manwl arall yn 2013 i edrych yn fanwl ar gynnydd ac i ystyried a oes angen newid strwythurol mwy sylfaenol.

Ym mis Chwefror, sefydlais gynllun 20

transform system leadership and address issues of personalised learning, professional practice, intelligent accountability, collaboration and best practice. I am pleased to note that there is much common ground between that plan and the recommendations in the report that I am publishing today.

However, this is a lengthy and complex report. It runs to over 100 pages, covers much ground, and makes more than 30 important recommendations, each of which deserves careful consideration. At this point I would like to repeat my thanks to the task and finish group for its committed and professional work. I encourage everyone with an interest in improving education in Wales to read the report and consider what it means for them and how they should respond. As I said, it will be for the next Welsh Assembly Government to take this forward.

Paul Davies: I thank the Minister for his statement this afternoon, and for publishing the independent task and finish group report this morning. As the third Assembly draws to a close, we have an opportunity to reflect on the structure of our education services in Wales and look to find ways to build on good practice and provide innovative ways of improving our services. I accept that the group's recommendations will be a matter for the next Assembly Government. However, it is not clear from his statement today whether the Minister would want to adopt the recommendations in the report, and perhaps he would be kind enough to confirm that in his response later.

In his written statement issued on 14 October last year, the Minister stated that his objective was to ensure that the education system is structured in a way that will deliver sustained improvement to learner attainment across Wales and that driving more resources to the front line is critical to doing that. This is an objective that I am sure all parties across the Chamber support. We are all committed to streamlining the education funding system wherever possible. The task and finish group, chaired by Vivian Thomas, has put together a comprehensive set of recommendations to strengthen the current system, and I would like to also take this opportunity to thank

pwytnt i drawsnewid arweinyddiaeth y system ac i roi sylw i faterion cynlluniau dysgu personol, arfer proffesiynol, atebolrwydd deallus, cydweithredu ac arfer gorau. Rwy'n falch o nodi bod llawer o dir cyffredin rhwng y cynllun a'r argymhellion yn yr adroddiad rwy'n ei gyhoeddi heddiw.

Fodd bynnag, mae hwn yn adroddiad hir a chymhleth. Mae'n fwy na 100 o dudalennau, yn cynnwys llawer, ac yn gwneud mwy na 30 o argymhellion pwysig, a phob un ohonynt yn haeddu ystyriaeth ofalus. Ar y pwynt hwn, hoffwn ailadrodd fy niolch i'r grŵp gorchwyl a gorffen am ei waith ymroddgar a phroffesiynol. Rwy'n annog pawb sydd â diddordeb mewn gwella addysg yng Nghymru i ddarllen yr adroddiad ac i ystyried yr hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw a sut y dylent ymateb. Fel y dywedais, mater i Lywodraeth nesaf Cynulliad Cymru fydd datblygu hyn.

Paul Davies: Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma, ac am gyhoeddi adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen y bore yma. Wrth i'r trydydd Cynulliad dynnu at ei derfyn, mae gennym gyfle i fyfyrto ar strwythur ein gwasanaethau addysg yng Nghymru, ac i ddod o hyd i ffyrdd o adeiladu ar arfer da a darparu ffyrdd arloesol o wella ein gwasanaethau. Rwy'n derbyn y bydd argymhellion y grŵp yn fater i Lywodraeth nesaf y Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw'n glir yn ei ddatganiad heddiw, a fyddai'r Gweinidog yn awyddus i fabwysiadu argymhellion yr adroddiad, ac efallai y byddai ef yn ddigon caredig i gadarnhau hynny yn ei ymateb yn nes ymlaen.

Yn ei ddatganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 14 Hydref y llynedd, dywedodd y Gweinidog mai ei amcan oedd sicrhau bod y system addysg wedi ei strwythuro mewn ffordd a fydd yn sicrhau gwelliant parhaus i gyrraedd diadysgwyr ar draws Cymru a bod gyrru mwy o adnoddau i'r rheng flaen yn hanfodol i wneud hynny. Mae hwn yn amcan rwy'n siŵr bod pob plaid ar draws y Siambr yn ei gefnogi. Rydym oll yn ymrwymedig i symleiddio'r system ariannu addysg lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen o dan gadeiryddiaeth Vivian Thomas wedi llunio cyfres gynhwysfawr o argymhellion i gryfhau'r system bresennol, a

Vivian Thomas and other members of the group for their hard work.

The first set of recommendations focuses on the idea of clarity, and I agree that the Assembly Government should clarify the role of educators and politicians. The report specifically calls for a reorganisation of the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills to provide clarity of function and accountability. I would be grateful for the Minister's comments on the group's recommendation for that kind of reorganisation, and what steps will now be taken to take forward this particular recommendation.

I was pleased to read that the group has recommended that DCELLS should create a national IT data platform to collect information regarding performance and standards in schools. This platform would then provide the public with easily accessible information on school performance. In our debate on the annual Estyn report earlier this year, we discussed the lack of comparable data in our assessment system. On both counts, a lack of comparative data means that identifying areas of concern is a problem, and if we cannot identify a problem, then it is obviously difficult to solve it. This way, the passage of information is open and transparent, and we can identify and work on areas of concern a good deal quicker.

Another interesting aspect of the report is the idea of regional consortia, which we have talked about previously, Minister. The report calls for the four regional consortia to be given a clear leadership role, which should be formalised and underpinned by a local government political mandate. I would be grateful, Minister, if you could clarify whether you agree with it. If so, could you expand on that? Is it your intention to create regional educational authorities in the future, should you be fortunate enough to take part in any future Government?

I was particularly pleased to read the group's recommendation 25, which states that, in terms of finance, the guiding principle should be that funding goes directly to the level where delivery and performance lies, be that

hoffwn i hefyd gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Vivian Thomas ac aelodau eraill y grŵp am eu gwaith caled.

Mae'r gyfres gyntaf o argymhellion yn canolbwyntio ar y syniad o eglurder, ac rwy'n cytuno y dylai Llywodraeth y Cynulliad egluro rôl addysgwyr a gwleidyddion. Mae'r adroddiad yn galw yn benodol am ad-drefnu'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau er mwyn cael eglurder o ran swyddogaeth ac atebolrwydd. Byddwn yn ddiolchgar am sylwadau'r Gweinidog ar argymhelliad y grŵp ar gyfer y math hwnnw o ad-drefnu, a pha gamau a fydd yn cael eu cymryd i frw ymlaen â'r argymhelliad penodol hwnnw.

Roeddwn yn falch o ddarllen bod y grŵp wedi argymhell y dylai APADGOS greu plattform ddata TG genedlaethol i gasglu gwybodaeth am berfformiad a safonau mewn ysgolion. Byddai'r plattform hwn wedyn yn rhoi mynediad hawdd i'r cyhoedd at wybodaeth am berfformiad ysgolion. Yn ein dadl ar adroddiad blynyddol Estyn yn gynharach eleni, buom yn trafod y diffyg data sydd ar gael i gymharu yn ein system asesu. Ar y ddau gyfrif, mae diffyg data i gymharu yn golygu bod nodi meysydd sy'n peri pryder yn broblem, ac os na allwn nodi problem, yna yn amlwg mae'n anodd ei datrys. Fel hyn, bydd y wybodaeth yn agored ac yn dryloiw, a gallwn nodi a gweithio ar feysydd o bryder yn llawer cyflymach.

Agwedd ddiddorol arall ar yr adroddiad yw'r syniad o gonsortia rhanbarthol, yr ydym wedi trafod o'r blaen, Weinidog. Mae'r adroddiad yn galw am bedwar consortiwm rhanbarthol i gael rôl arweiniol glir, a ddylid ei ffurfioli a'i drefnu gan fandad gwleidyddol llywodraeth leol. Byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe gallech egluro a ydych yn cytuno â hyn. Os felly, a allech ymhelaethu ar hynny? Ai eich bwriad yw creu awdurdodau addysg rhanbarthol yn y dyfodol, pe byddwch yn ddigon ffodus i gymryd rhan mewn unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol?

Roeddwn yn arbennig o falch o ddarllen argymhelliad 25 y grŵp, sy'n datgan, o ran cyllid, y dylid sefydlu egwyddor i'w dilyn bod cyllid yn mynd yn uniongyrchol i'r lefel lle mae'r ddarpariaeth a'r perfformiad yn

schools, clusters of schools, FE colleges, regional consortia, or nationally.

digwydd, boed hynny'n ysgolion, yn glystyrau o ysgolion, colegau addysg bellach, consortia rhanbarthol, neu'n genedlaethol.

3.30 p.m.

I interpret this recommendation as direct funding for schools, which could, of course, save the Assembly Government 4 per cent of its school funding budget, equivalent to £102 million as recent figures have shown. By giving schools greater autonomy, I am confident that we will, in return, see an improvement in educational standards, as we have seen evidence of this in the National Audit Office report into academies in England. As the Minister is aware, I believe in devolving more powers to schools to allow the people who know best—the teachers, headteachers, parents and governors—to have the authority to manage their own schools without too much interference. We must all recognise that teachers and headteachers who work in the schools have an intricate knowledge of pupils' needs and of the surrounding community. In the circumstances, given the financial recommendations, particularly recommendation 25 in the report, will he agree that funding schools directly from the Welsh Assembly Government would now be the best way forward?

Gwelaf yr argymhelliad hwn fel cyllid uniongyrchol i ysgolion, a allai arbed 4 y cant i Lywodraeth y Cynulliad o'i chyllid i ysgolion, sy'n gyfwerth â £102 miliwn yn ôl ffigurau diweddar. Drwy roi i ysgolion fwy o ymreolaeth, hyderaf y gwelwn wedyn welliant mewn safonau addysgol, gan ein bod wedi gweld tystiolaeth o'r un peth yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar academïau yn Lloegr. Fel y mae'r Gweinidog yn gwybod, yr wyf yn credu mewn datganoli mwy o bwerau i ysgolion i ganiatáu i'r bobl sy'n gwybod orau—athrawon, penaethiaid, rhieni a llywodraethwyr—yr awdurdod i reoli eu hysgolion eu hunain heb ormod o ymyrraeth. Rhaid inni i gyd gydnabod bod gan athrawon a phenaethiaid sy'n gweithio yn yr ysgolion wybodaeth fanwl o anghenion disgyblion a'r gymuned o amgylch. O dan yr amgylchiadau, o ystyried yr argymelliadau ariannol, yn enwedig argymhelliad 25 yn yr adroddiad, a wnaiff gytuno mai'r ffordd orau ymlaen bellach fyddai i Lywodraeth Cynulliad Cymru ariannu ysgolion yn uniongyrchol?

I will touch briefly upon the issue of continuous professional development. The report suggests that headteachers are best placed to control the CPD budgets for their schools, and this is something that I very much agree with. I would be grateful if the Minister could tell us whether he supports this view and whether it would be his intention to devolve control for CPD budgets from local authorities to schools in the future. I agree with the view that there needs to be a national strategy in place on continuous professional development for teachers, and perhaps the Minister would also expand on that in his response.

Soniaf yn fyr am ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r adroddiad yn awgrymu mai penaethiaid sydd yn y lle gorau i reoli cyllidebau DPP yn eu hysgolion, a chytunaf yn fawr â hynny. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ddweud wrthym a yw'n cefnogi'r farn hon ac a fyddai'n fwriad ganddo drosglwyddo rheolaeth dros gyllidebau DPP o awdurdodau lleol i ysgolion yn y dyfodol. Yr wyf yn cytuno â'r farn bod angen strategaeth genedlaethol ar ddatblygiad proffesiynol parhaus i athrawon, ac efallai y byddai'r Gweinidog hefyd yn ehangu ar hynny yn ei ateb.

Finally, Llywydd, I share the Minister's vision for a more joined-up, collaborative education system in Wales, and I believe that that would result in better quality services and greater efficiency. I look forward to hearing more in the near future on the

Yn olaf, Lywydd, yr wyf yn rhannu gweledigaeth y Gweinidog am system addysg fwy cydgysylltiedig a chydweithredol yng Nghymru, a chredaf y byddai hynny'n arwain at wasanaethau o ansawdd gwell ac at well effeithlonrwydd. Edrychaf ymlaen at glywed

structure of our education services in Wales.

Leighton Andrews: I am grateful to the opposition spokesperson for his comments and I am glad that he recognises that this is an important report and that its recommendations are comprehensive. There are clear messages to the education system in the report. There is a clear message that things need to improve and improve quickly, and if they do not improve quickly, then further action must take place by 2013. I am grateful to the group for the clarity of what it has set out in that regard.

In respect of what the report says about the reorganisation of my department, the director general of my department has progressed a reorganisation of the department in conjunction with the progress of the making of this report, and that has given greater clarity and focus to the department. It means that it is essentially structured around those areas to do with children and schools and those areas to do with skills, higher education and lifelong learning. In future, we will have better alignment between the curriculum and qualifications staff and the staff who are focused on school improvement and performance, for example, and in a sense, that was very much what was in the minds of the task and finish group.

In terms of the progress on information communications technology and the need for a national platform for that, that is something that we are taking forward, both in the context of this report and the front-line resources review. I have had several meetings on that in recent weeks and we are making significant progress. He is right to stress the importance of data, and that is something that I highlighted in my statement on 2 February. We want to ensure that data are available. We have made available significant quantities of data to schools and families of schools, and we are making it a requirement that governors have access to those data and that no school will pass an Estyn inspection unless the governing body discusses those data and how they can contribute to school performance.

mwy yn y dyfodol agos am strwythur ein gwasanaethau addysg.

Leighton Andrews: Rwy'n ddiolchgar i lefarydd yr wrthblaid am ei sylwadau ac rwy'n falch ei fod yn cydnabod bod hwn yn adroddiad pwysig a bod ei argymhellion yn gynhwysfawr. Mae negeseuon clir i'r system addysg yn yr adroddiad. Mae neges glir bod angen i bethau wella, a hynny'n gyflym, ac os nad ydynt yn gwella yn gyflym, yna bydd rhaid i weithredu pellach ddigwydd erbyn 2013. Yr wyf yn ddiolchgar i'r grŵp am yr eglurder yn yr hyn mae wedi gosod allan yn hynny o beth.

O ran yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud am ad-drefnu fy adran, mae cyfarwyddwr cyffredinol fy adran wedi bwrw ati gydag ad-drefnu'r adran ar y cyd â'r gwaith o wneud yr adroddiad hwn wrth iddo fynd rhagddo, ac mae hynny wedi rhoi mwy o eglurder a ffocws i'r adran. Mae'n golygu ei bod wedi'i strwythuro yn y bôn o amgylch yr ardaloedd hynny sy'n ymwneud â phlant ac ysgolion a'r ardaloedd hynny sy'n ymwneud â sgiliau, addysg uwch a dysgu gydol oes. Yn y dyfodol, bydd gennym well unioni rhwng y staff cwricwlwm a chymwysterau a'r staff sydd yn canolbwyntio ar wella perfformiad ysgolion, er enghraifft, ac mewn ffordd, hynny i bob pwrpas oedd ym meddyliau'r grŵp gorchwyl a gorffen.

O ran y cynnydd ynghylch technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r angen am lwyfan cenedlaethol iddo, mae'n rhywbeth yr ydym yn bwrw ymlaen ag ef, yng nghydestun yr adroddiad hwn a'r adolygiad o adnoddau rheng flaen. Rwyf wedi cael sawl cyfarfod am hynny yn yr wythnosau diwethaf, ac rydym yn gwneud cynnydd sylweddol. Mae'n iawn i bwysleisio pwysigrwydd data, ac mae hynny'n rhywbeth a amlygwyd gennyf yn fy natganiad ar 2 Chwefror. Rydym am sicrhau bod data ar gael. Rydym wedi trefnu bod symiau sylweddol o ddata ar gael i ysgolion a theuluoedd o ysgolion, ac rydym yn ei gwneud hi'n ofynnol bod llywodraethwyr yn cael cyrchu'r data hynny ac na fydd dim un ysgol yn pasio arolygiad Estyn oni bai bod y corff llywodraethol yn trafod y data hynny a sut y gallant gyfrannu i berfformiad yr ysgol.

In respect of regional consortia, the Association of Directors of Education in Wales has made very significant progress on this and has put in place real measures to ensure that consortia are working effectively, in terms of delivering collaborative services, but also in providing effective challenge and support to individual local authorities. That work has now been endorsed by the political leadership of the Welsh Local Government Association. I was pleased to speak to all the leaders of local government in Wales at a meeting with the WLGA on Friday and there was significant buy-in to what we are seeking to achieve. We have made it clear that if local authorities are not prepared to participate in consortia arrangements, they will lose their entitlement to school effectiveness framework funding. The next Government may want to consider legislative changes in respect of underpinning consortia. However, as I say, that is a matter for the next Government.

On what he said about funding, and funding going directly to where delivery is happening, as he will be aware, I have said in the past in the Chamber that I am not, in principle, opposed to the direct funding of schools. However, again, that is something that will need to be considered at more length by the next Government. I take issue with the figures that he cites. He has quoted before that there could be a possible saving of 4 per cent and £102 million. I am not sure that I agree with those figures, although I know where he got those figures from. I have looked at it, as have Viv Thomas and the group. I believe that he is perhaps transferring too simply an expectation of savings in a particular area by making some assumptions about direct funding. I am certain that some funding could be moved to the front line in that way, but I do not necessarily buy into the figures that he gave.

On continuous professional development, I am open to the idea that there should be more effective control of that at a school level by headteachers, as long as it operates within an overall framework. That framework has to be our school effectiveness framework and it has

O ran consortia rhanbarthol, mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru wedi gwneud cynnydd sylweddol iawn ac wedi rhoi mesurau gwirioneddol ar waith i sicrhau bod consortia yn gweithio'n effeithiol, o ran darparu gwasanaethau ar y cyd, a hefyd o ran darparu her effeithiol a chymorth i awdurdodau lleol unigol. Mae'r gwaith hwnnw bellach wedi cael ei gymeradwyo gan arweinyddiaeth wleidyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roeddwn yn falch o siarad â holl arweinwyr llywodraeth leol yng Nghymru mewn cyfarfod gyda CLILC ddydd Gwener ac roedd cefnogaeth sylweddol i'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Rydym wedi ei gwneud yn glir os nad yw awdurdodau lleol yn barod i gymryd rhan mewn trefniadau consortia, byddant yn colli eu hawl i gael arian o dan y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion. Efallai y bydd y Llywodraeth nesaf am ystyried newidiadau deddfwriaethol i ategu consortia. Fodd bynnag, fel y dywedais, mae hynny'n fater i'r Llywodraeth nesaf.

O ran ei sylwadau am gyllid, ac am gyllid yn mynd yn uniongyrchol i'r lle y mae cyflawni'n digwydd, fel y bydd ef yn ymwybodol, dywedais o'r blaen yn y Siambr nad wyf, mewn egwyddor, yn gwrthwynebu cyllido ysgolion yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae hynny eto'n rhywbeth y bydd angen i'r Llywodraeth nesaf ei ystyried yn helaeth. Rwy'n anghytuno â'r ffigurau y mae'n eu dyfynnu. Mae wedi dyfynnu o'r blaen y gallai fod arbediad posibl o 4 y cant a £102 miliwn. Nid wyf yn siŵr fy mod yn cytuno â'r ffigurau hynny, er fy mod yn gwybod ymhle y cafodd y ffigurau hynny. Rwyf wedi edrych ar y sefyllfa, fel y mae Viv Thomas a'r grŵp. Rwy'n credu ei fod o bosibl yn trosglwyddo yn rhy syml ddisgwyliad o arbedion mewn ardal benodol drwy wneud rhagdybiaethau ynghylch cyllid uniongyrchol. Yr wyf yn sicr y gallai rhywfaint o arian gael ei symud i'r rheng flaen yn y ffordd honno, ond nid wyf o reidrwydd yn credu'r ffigurau a roes.

O ran datblygu proffesiynol parhaus, yr wyf yn agored i'r syniad y dylai fod mwy o reolaeth effeithiol o hynny ar lefel ysgol gan benaethiaid, cyn belled â'i fod yn gweithredu o fewn fframwaith cyffredinol. Rhaid i'r fframwaith hwnnw fod ein fframwaith

to have a focus, therefore, on our specific national objectives. I do not believe that we can afford in future to have a laissez-faire approach to continuous professional development, simply based on personal interest.

Leanne Wood: Thank you for your statement, Minister. I accept that there are great challenges ahead. I would like to ask you about Welsh-medium education and the relationship between the strategies that you produce and practice on the ground, as well as about what powers you have to intervene when local practice does not comply with the Government's strategic priorities. In the last few weeks, my office has been contacted by parents who have been unable to get their children into local Welsh-medium schools due to oversubscription. The schools in question are Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn and Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant, both of which are in Rhondda Cynon Taf.

I know that time is limited this week, but will you agree to meet me to discuss the details of this problem? Will you approach the local authority to find a solution, to ensure that the demand for Welsh-medium education in Rhondda Cynon Taf can be met? Do you share my concerns about reports that parents are being told to apply for an English-medium place, after being told that the school of their choice is full? Are you satisfied that this situation does not run counter to the Welsh-medium education strategy that you unveiled earlier this year, and, if it does run counter to that strategy, what can you do about it? Finally, do you have any powers at your disposal to intervene, to ensure that this shortage of places within the Welsh-medium education sector is resolved, and, if you have those powers, would you be prepared to use them on this occasion?

Leighton Andrews: In my constituency capacity, I met prospective parents of pupils at Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn on Friday, several of whom had admissions issues. My office is taking up those cases directly with the local education authority. There are significant issues there in terms of the transmission routes between the Cylch

effeithiolrwydd ysgolion, a rhaid bod ganddo ffocws, felly, ar ein hamcanion cenedlaethol penodol. Nid wyf yn credu y gallwn fforddio cael ymagwedd laissez-faire yn y dyfodol i ddatblygiad proffesiynol parhaus yn seiliedig ar fudd personol yn unig.

Leanne Wood: Diolch i chi am eich datganiad, Weinidog. Yr wyf yn derbyn bod heriau mawr o'n blaenau. Hoffwn eich holi am addysg cyfrwng Cymraeg a'r berthynas rhwng y strategaethau yr ydych yn eu cynhyrchu ac ymarfer ar lawr gwlad, yn ogystal â pha bwerau sydd gennych i ymyrryd pan nad yw arfer lleol yn cydymffurfio â blaenoriaethau strategol y Llywodraeth. Yn yr wythnosau diwethaf, mae rhieni wedi cysylltu â'm swyddfa sydd wedi methu â chael lle i'w plant yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol oherwydd gordanysgrifio. Yr ysgolion dan sylw yw Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant, sydd ill dwy yn Rhondda Cynon Taf.

Gwn fod amser yn brin yr wythnos hon, ond a wnewch gytuno i gyfarfod â mi i drafod manylion y broblem hon? A fyddwch yn cysylltu â'r awdurdod lleol i ddod o hyd i ateb, i sicrhau y caiff y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf ei fodloni? A ydych yn rhannu fy mhryderon ynghylch adroddiadau am rieni y dywedir iddynt wneud cais am le mewn ysgol cyfrwng Saesneg ar ôl cael gwybod bod eu dewis ysgol yn llawn? A ydych yn fodlon nad yw'r sefyllfa hon yn mynd yn groes i'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg a gyhoeddwyd gennych yn gynharach eleni, ac os yw'n mynd yn groes i'r strategaeth honno, beth y gallwch chi ei wneud amdano? Yn olaf, pa bwerau sydd gennych i ymyrryd, i sicrhau bod y prinder lleoedd yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddatrys, ac os yw'r pwerau hynny gennych, a fydddech yn barod i'w defnyddio ar yr achlysur hwn?

Leighton Andrews: Yn rhinwedd fy rôl yn fy etholaeth, cyfarfûm â rhieni darpar ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn ddydd Gwener, y cafodd nifer ohonynt broblemau derbyn. Mae fy swyddfa yn mynd ar ôl yr achosion hynny yn uniongyrchol gyda'r awdurdod addysg lleol. Mae problemau sylweddol yno o ran y

Meithrin in the areas that serve the catchment for that school. Many of the issues that the Member raised were raised with me by parents on Friday. I have also had representations from parents who are concerned with the situation in Llantrisant. I have passed those on to the relevant constituency Member, Jane Davidson, who is also taking up these issues on behalf of those parents.

On the Welsh-medium education strategy, I have been clear—and the strategy is clear—that we expect local authorities to properly assess parental demand for places in Welsh-medium education. I have said before that if I were not satisfied that local authorities were doing that, I would be prepared to legislate to ensure that they were. My ministerial predecessor looked at the issue of legislative enforcement and concerns were raised by other local authorities, particularly in north-west Wales, that were concerned that they might have to act in respect of English-medium education if we were to open up questions about the enforcement of parental demand in respect of Welsh-medium education. I am certainly prepared to look again at that issue because we must see better planning on the ground and I do not believe that that is happening currently. That is true in terms of primary places, but it is also true in terms of secondary places. Indeed, we have seen the development of secondary Welsh-medium provision by one local authority without it taking account of the consequences for an adjoining local authority. That is quite a serious situation because if we are going to plan demand effectively, particularly with regard to secondary provision, then we will have to plan across local education authority boundaries.

There are a series of issues here that we will have to return to in the next Assembly. We need to distinguish between issues relating to the needs of particular parents, which we will all take up as constituency Members, and the broader strategic question of what we may need to put in place, on a legislative basis, to ensure that there is effective planning in Welsh-medium education in the future.

llwybrau trosglwyddo rhwng y Cylch Meithrin yn yr ardaloedd sy'n gwasanaethu dalgylch yr ysgol honno. Cafodd llawer o'r materion a godwyd gan yr Aelod eu codi gyda mi gan rieni ddydd Gwener. Hefyd, mae rhieni wedi lleisio pryderon wrthyf ynghylch y sefyllfa yn Llantrisant. Yr wyf wedi pasio'r mater i'r Aelod etholaeth berthnasol, sef Jane Davidson, sydd hefyd yn codi'r materion hyn ar ran y rhieni hynny.

Ar y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, yr wyf wedi bod yn glir—ac mae'r strategaeth yn glir—ein bod yn disgwyl i awdurdodau lleol asesu galw rhieni am leoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Dywedais o'r blaen os na fyddaf yn fodlon bod awdurdodau lleol yn gwneud hynny, byddwn yn barod i ddeddfu i'w sicrhau. Edrychodd fy rhagflaenydd gweinidogol ar orfodi drwy ddeddfwriaeth ac fe fynegodd awdurdodau lleol eraill eu pryderon, yn enwedig yng ngogledd-orllewin Cymru, a oedd yn poeni y gallai fod yn rhaid iddynt weithredu o ran addysg cyfrwng Saesneg pe baem yn sôn am orfodi o ran galw rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg. Yn sicr, rwy'n barod i edrych eto ar y mater hwnnw am fod rhaid inni weld gwell gynllunio ar lawr gwlad ac nid wyf yn credu bod hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Mae hynny'n wir o ran lleoedd cynradd, ond mae hefyd yn wir am leoedd uwchradd. Yn wir, rydym wedi gweld un awdurdod lleol yn datblygu ei ddarpariaeth o addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg heb ystyried ei heffaith ar awdurdod lleol cyfagos. Mae hynny'n sefyllfa ddifrifol braidd, oherwydd os ydym yn mynd i gynllunio am alw yn effeithiol, yn enwedig o ran darpariaeth uwchradd, yna bydd rhaid inni gynllunio ar draws ffiniau awdurdodau addysg lleol.

Mae cyfres o faterion yma y bydd rhaid inni ddychwelyd atynt yn y Cynulliad nesaf. Mae angen inni wahaniaethu rhwng materion sy'n ymwneud ag anghenion rhai rhieni, y byddwn i gyd yn delio â hwy fel Aelodau etholaeth, a'r cwestiwn strategol ehangach o'r hyn y gall fod angen ei roi ar waith ar sail ddeddfwriaethol i sicrhau cynllunio effeithiol mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Jenny Randerson: Thank you for your statement, Minister. This report is challenging and reaches some very worrying conclusions. As you said in your statement, it is detailed, lengthy and it certainly should silence that small number of Labour Assembly Members who tried to imply that the PISA results were somehow not a fair reflection. After the PISA results were published, we had the Estyn report and we now have this report. The path taken by their conclusions is now well-trodden; however, we have not seen them in as much detail in the past or with as many positive recommendations for the future.

I am very concerned about some of these recommendations; however, a simple statement like this one cannot possibly go into anything like enough detail, so that must be something for a future Assembly term. I particularly want to emphasise my concern about the conclusion that the outcomes in respect of literacy are problematic at virtually all phases of education, which is absolutely fundamental to where we are as a nation. There are other issues in relation to mathematics and the sciences, underachievement by boys and issues associated with the achievement of children in care. All of those issues have been raised by Members across the parties over the years and it is good to see them being given the attention that they deserve in this report.

I note the recommendation that the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills should have a facilitating role in relation to a national literacy policy, for example, and a number of other initiatives on statistics and leading on policy. That would be a very good thing, but I would caution that there is a difference between facilitating and leading at a strategic level and micromanaging. It is important that the Assembly Government does not fall into the trap that the UK Labour Government fell into of providing far too much guidance to schools—5,000 pages last year alone. The Government here has always avoided that trap. Therefore, Minister, it is important that that lead role remains strategic and does not include detailed everyday minutiae, because the professional role must be left for the

Jenny Randerson: Diolch i chi am eich datganiad, Weinidog. Mae'r adroddiad hwn yn heriol ac mae rhai o'i gasgliadau yn peri gofid mawr. Fel y dywedasoch yn eich datganiad, mae'n fanwl ac yn hirfaith, ac fe ddylai yn sicr roi taw ar y nifer fechan o Aelodau Llafur yn y Cynulliad a geisiodd awgrymu nad oedd y canlyniadau PISA rywsut yn adlewyrchiad teg. Ar ôl i'r canlyniadau PISA gael eu cyhoeddi, cawsom yr adroddiad gan Estyn a bellach mae gennym yr adroddiad hwn. Llwybr sathredig yr aeth eu casgliadau ar hyd-ddo; er, nid ydym wedi gweld rhai mor fanwl o'r blaen neu rai â chynifer o argymhellion cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

Yr wyf yn bryderus iawn ynghylch rhai o'r argymhellion hyn; fodd bynnag, nid yw'n bosibl i ddatganiad syml fel hwn fynd i hanner digon o fanylder, felly rhaid i hynny aros yn rhywbeth i Gynulliad arall. Rwy'n awyddus iawn i bwysleisio fy mhryder ynglŷn â'r casgliad bod y canlyniadau yng nghyswllt llythrennedd yn broblematic ar bron bob cyfnod addysg, gan fod hynny'n gwbl sylfaenol i le yr ydym fel cenedl. Mae materion eraill parthed mathemateg a'r gwyddorau, bechgyn yn tangyflawni a materion sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad plant mewn gofal. Codwyd pob un o'r materion hynny gan Aelodau ymhob plaid dros y blynyddoedd ac mae'n dda eu gweld yn cael sylw haeddiannol yn yr adroddiad hwn.

Nodaf yr argymhelliad y dylai fod gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau rôl hwyluso o ran polisi llythrennedd cenedlaethol, er enghraifft, ac o ran nifer o fentrau eraill ar ystadegau ac arwain ar bolisi. Byddai hynny'n beth da iawn, ond byddwn yn rhybuddio bod gwahaniaeth rhwng hwyluso ac arwain ar lefel strategol a rheoli'n orfanwl. Mae'n bwysig nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei dal yn yr un magl â Llywodraeth Lafur y DU a darparu llawer gormod o gyfarwyddyd i ysgolion—5,000 tudalen y llynedd yn unig. Mae'r Llywodraeth yma bob amser wedi osgoi'r fagl honno. Felly, Weinidog, mae'n bwysig bod y rôl arweiniol honno'n parhau'n strategol ac nid yw'n cynnwys y manylion beunyddiol, oherwydd rhaid gadael y rôl broffesiynol i'r athro.

teacher.

3.45 p.m.

I note the four regional consortia and, clearly, co-operation and collaboration is an extremely good idea. As someone who was in local government in 1995, I thought that it was completely crazy that local government crumbled into these small units and proceeded to reinvent 22 directors of education and, even more worryingly, 22 units within local education authorities dealing, for example, with what were then called special needs. That co-operation is welcome, but perhaps you could tell us how you are going to ensure sensitivity within those consortia to deal with what will be very contrasting situations from one part of the region to another. Schools in inner-city Cardiff have very different problems to those in rural areas on the edge of the consortium of which Cardiff will be part.

I welcome strongly the identification of additional learning needs at an early stage and the emphasis that the report puts on that. I recently visited a college where my attention was drawn to the fact that they pick up dozens of young people every year who should have had a statement—they have gone all the way through school, up to the age of 16, without additional learning support. It is important that we put in place systems that deal with that at a much earlier age.

I welcome the more systematic use of data, but I caution you, Minister: if you collect all your data together in a systematic way, people turn them into league tables. I am sure that you are prepared for that, but it will happen. As part of the data that you collect, are you planning to use much more widely the comparison figures that exist from one school to another with similar catchment areas and demographics? That information is available in an anonymised form to individual school governors, but it is not widely disseminated. Therefore, parents find it difficult to compare their school, which may seem to be doing reasonably well and might seem to be improving, with others. They cannot always work out whether it is

Nodaf y pedwar consortiwm rhanbarthol ac, yn amlwg, mae cydweithio a chydweithredu yn syniad eithriadol o dda. A minnau'n un a oedd mewn llywodraeth leol yn 1995, cwbl wallgof yn fy nhyb i oedd briwio llywodraeth leol yn unedau bach, gan fwrw ymlaen i ailddyfeisio 22 cyfarwyddwyr addysg a, gan achosi hyd yn oed yn fwy o bryder, 22 o unedau o fewn awdurdodau addysg lleol yn ymdrin, er enghraifft, â'r hyn a alwyd ar yr adeg honno yn anghenion arbennig. Mae'r cydweithredu hwnnw i'w groesawu, ond efallai y gallech ddweud wrthym sut y byddwch yn sicrhau sensitifrwydd o fewn y consortia i drin sefyllfaoedd a fydd yn dra gwahanol yn rhannau gwahanol o'r rhanbarth. Mae gan ysgolion yng nghanol dinas Caerdydd broblemau gwahanol iawn i'r rhai mewn ardaloedd gwledig ar ymyl y consortiwm y bydd Caerdydd yn rhan ohono.

Yr wyf yn croesawu yn gadarn bod anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi'n gynnar a phwyslais yr adroddiad ar hynny. Yn ddiweddar, ymwelais â choleg lle tynnwyd fy sylw at y ffaith eu bod yn darganfod dwsinau o bobl ifanc bob blwyddyn a ddylai fod wedi cael datganiad—maent wedi mynd yr holl ffordd drwy'r ysgol, hyd at 16 oed, heb gymorth dysgu ychwanegol. Mae'n bwysig ein bod yn sefydlu systemau sy'n delio â hynny ar oedran iau o lawer.

Yr wyf yn croesawu'r defnydd mwy systematig o ddata, ond yr wyf yn eich rhybuddio, Weinidog: os ydych yn casglu eich holl ddata gyda'i gilydd mewn ffordd systematig, bydd pobl yn eu troi'n dablau cynghrair. Yr wyf yn siŵr eich bod yn barod ar gyfer hynny, ond bydd yn digwydd. Fel rhan o'r data yr ydych yn eu casglu, a ydych yn bwriadu defnyddio'r ffigurau sy'n bodoli sy'n cymharu un ysgol ag un arall gyda dalgylchoedd a demograffeg tebyg yn llawer ehangach? Mae'r wybodaeth honno ar gael mewn ffurf ddienw i lywodraethwyr ysgol unigol, ond nid yw'n cael ei lledaenu'n eang. Felly, mae rhieni yn ei chael yn anodd cymharu eu hysgol, a all ymddangos fel pe bai'n gwneud yn weddol dda ac fel pe bai yn

doing as well as it could, given its intake. I would like your comments on the use of those data.

I strongly welcome recommendation 25 on ensuring that money goes directly to schools. I put in a plug here for the need for a pupil premium for those pupils who come from the poorest homes, to ensure that they are able to achieve fully. I note that, in other respects, the report rather skirts around the issue of funding; clearly, that was off-limits in this report.

Finally, I refer to the report's conclusions on DCELLS staff and the very critical comments there, particularly in relation to the further education sector. I welcome the recommendation that the planned new unit be staffed with people with recent education experience. I want to emphasise, Minister, that it has been a recurrent theme for years, when you talk to schools and colleges, that they are concerned about the distance of civil servants from the front-line practice of education. I know that there are some notable exceptions—secondments and so on—but I would advise you that, if the Assembly Government is to take a much more hands-on role in education, and if schools and colleges are to accept that, confidence in the Government department that is doing the work is absolutely essential.

Leighton Andrews: Llywydd, I commissioned this report, and I expected it to be challenging. It has gone into considerable detail across the whole of the system. I set particular challenges to the task and finish group when I met it at the outset. It has fulfilled those challenges well. It has focused throughout on the big challenge facing us on attainment and literacy, and it has not pulled its punches. I welcome what it has had to say. As I explained in answer to the Conservative spokesperson, the director general has led a reorganisation of the department since being appointed and there is a clear focus now on ministerial priorities, and we have a more integrated department as a result. We have also dealt with the issues to do with ensuring that we have the presence of recent

gwella, gydag eraill. Ni allant bob amser weithio allan p'un a yw'n gwneud cystal ag y gallai, o ystyried y disgyblion y mae'n eu derbyn. Hoffwn gael eich sylwadau ar y defnydd o'r data hynny.

Yr wyf yn croesawu'n arw argymhelliad 25 ar sicrhau bod arian yn mynd yn uniongyrchol at ysgolion. Yr wyf yn rhoi hys-bÿs yma am yr angen am breimiwm disgybl ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dod o'r cartrefi tlotaf, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni yn llawn. Nodaf fod yr adroddiad yn mynd heibio ariannu braidd; yn amlwg, yr oedd yn fater a oedd o dan waharddiad yn yr adroddiad hwn.

Yn olaf, cyfeirir at gasgliadau'r adroddiad ar staff APADGOS a'r sylwadau beirniadol iawn yno, yn enwedig mewn perthynas â'r sector addysg bellach. Yr wyf yn croesawu'r argymhelliad bod yr uned newydd arfaethedig yn cael ei staffio gan bobl sydd â phrofiad diweddar o addysg. Yr wyf am bwysleisio, Weinidog, ei bod wedi bod yn thema reolaidd am flynyddoedd, pan fyddwch yn siarad ag ysgolion a cholegau, eu bod yn pryderu am bellter gweision sifil oddi wrth waith rheng flaen mewn addysg. Gwn fod yna rai eithriadau nodedig—secondiadau ac yn y blaen—ond buaswn yn eich cynghori, os bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd rhan llawer mwy ymarferol mewn addysg, ac os yw ysgolion a cholegau i dderbyn hynny, mae hyder yn adran y Llywodraeth sy'n gwneud y gwaith yn gwbl hanfodol.

Leighton Andrews: Lywydd, comisiynais yr adroddiad hwn, a disgwyliais iddo fod yn heriol. Mae wedi manylu yn sylweddol ar draws y system gyfan. Gosodais heriau penodol i'r grŵp gorchwyl a gorffen pan wneuthum ei gyfarfod ar y cychwyn. Mae wedi cyflawni'r heriau hynny yn dda. Mae wedi canolbwyntio drwy gydol y broses ar yr her fawr sy'n ein hwynebu ar gyrhaeddiad a llythrennedd, ac nid ymatalodd. Yr wyf yn croesawu'r hyn y mae wedi ei ddweud. Fel yr eglurais wrth ateb llefarydd y Ceidwadwyr, mae'r cyfarwyddwr cyffredinol wedi arwain ad-drefnu'r adran ers cael ei benodi ac mae ffocws clir bellach ar flaenoriaethau gweiniogol. Mae gennym adran fwy integredig o ganlyniad. Yr ydym hefyd wedi ymdrin â'r materion yn ymwneud â sicrhau

participants in the education system.

I very much agree with what she said about the restructuring of local government in the 1990s. I have said before that I would not have invented 22 local education authorities. The fragmentation of education in the 1990s has, over the years, contributed to the challenges that we have had in Wales. That is why it is important that we see the moves towards the regional consortia now taking practical shape, and that we see real engagement taking place among local authorities and political buy-in at a leadership level. I understand what she says about sensitivity between different regions, but the big challenge that we have is less an issue of between-school variation than one of in-school variation in terms of performance. That is clear from the figures that we have. She is right to draw attention to the fact that the schools system is not picking up young people who have additional learning needs, and is not addressing fundamental issues of literacy. Too many further education colleges are having to tackle a backlog of literacy issues when young people reach post-16 provision.

In respect of data, we have made available family of schools data, which compare schools that are like one another. Those data have been made available through the professional learning communities as a result of our school effectiveness framework. I have now made it clear that the data have to be considered by school governing bodies or they will not pass Estyn inspections, so those data have to be shared by headteachers with their school governing bodies. We do not intend to publish league tables, but I have said before publicly, and I will say it again: you cannot uninvent the Freedom of Information Act 2000. Data are published, and can be compiled by anyone, and they can be compiled by journalists in the form of league tables if they want to do so. I am sure that some may wish to do that, just as *The Sunday Times* does in England. However, we will not be publishing crude league tables based on public examination results. We will put in place a sophisticated system that is

bod gennym bresenoldeb cyfranogwyr diweddar yn y system addysg.

Yr wyf yn cytuno â'r hyn a ddywedodd hi ynghylch ailstrwythuro llywodraeth leol yn y 1990au. Yr wyf wedi dweud o'r blaen na fuaswn wedi dyfeisio 22 awdurdod addysg lleol. Mae darnio addysg yn y 1990au wedi cyfrannu, dros y blynyddoedd, at yr heriau yr ydym wedi'u cael yng Nghymru. Dyna pam ei bod yn bwysig ein bod yn gweld y symud tuag at y consortia rhanbarthol bellach yn cymryd siâp ymarferol, a'n bod yn gweld ymgysylltiad go iawn yn digwydd ymhlith awdurdodau lleol a phrynu i mewn yn wleidyddol ymysg arweinwyr. Yr wyf yn deall yr hyn y mae hi'n ei ddweud am sensitifrwydd rhwng rhanbarthau gwahanol, ond nid mater o amrywiaeth rhwng ysgolion yw ein her fawr yn gymaint â mater o amrywiaeth o fewn ysgol o ran perfformiad. Mae hynny'n amlwg o'r ffigurau sydd gennym. Mae hi'n iawn i dynnu sylw at y ffaith nad yw'r system ysgolion yn darganfod pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac nad yw'n mynd i'r afael â materion sylfaenol o lythrennedd. Mae gormod o golegau addysg bellach yn gorfod mynd i'r afael ag ôl-groniad o faterion llythrennedd pan fydd pobl ifanc yn cyrraedd darpariaeth ôl-16.

O ran data, yr ydym wedi gwneud data ar deuluoedd o ysgolion ar gael, sy'n cymharu ysgolion sy'n debyg i'w gilydd. Mae'r cyfryw ddata wedi cael eu gwneud ar gael drwy'r cymunedau dysgu proffesiynol o ganlyniad i'n fframwaith effeithiolrwydd ysgolion. Yr wyf bellach wedi gwneud yn glir bod yn rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion ystyried y data, neu ni fyddant yn pasio arolygiadau Estyn, felly mae'n rhaid i bennaethiaid rannu'r cyfryw ddata gyda chyrrff llywodraethu eu hysgolion. Nid ydym yn bwriadu cyhoeddi tablau cynghrair, ond yr wyf wedi dweud o'r blaen yn gyhoeddus, ac fe'i dywedaf eto: ni allwch ddad-ddyfeisio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae data yn cael eu cyhoeddi, a gellir eu hel at ei gilydd gan unrhyw un, a gellir eu hel at ei gilydd gan newyddiadurwyr ar ffurf tablau cynghrair os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yr wyf yn siŵr y bydd rhai yn dymuno gwneud hynny, yn union fel *The Sunday Times* yn Lloegr. Fodd bynnag, ni

about the banding of schools, and that ensures that, by working with local authorities and consortia, we can drive up performance throughout Wales.

fyddwn yn cyhoeddi tablau cynghrair bras wedi'u seilio ar ganlyniadau arholiadau cyhoeddus. Byddwn yn sefydlu system soffistigedig ynghylch bandio ysgolion, a bydd hynny'n sicrhau, drwy weithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia, y gallwn wella perfformiad yng Nghymru benbaladr.

**Cynnig i Gymeradwyo'r Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cychwyn Deddfau'r Cynulliad, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed ac Addasiadau) 2011
Motion to Approve the Government of Wales Act 2006 (Commencement of Assembly Act Provisions, Transitional and Saving Provisions and Modifications)
Order 2011**

Cynnig NDM4708 Jane Hutt

Motion NDM4708 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 24.4:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cychwyn Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed ac Addasiadau) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2011.

Approves that the draft Government of Wales Act 2006 (Commencement of Assembly Act Provisions, Transitional and Saving Provisions and Modifications) Order 2011 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 8 March 2011.

The First Minister: This commencement Order, which is required under section 105 of the Government of Wales Act 2006, represents the last significant piece of legislation that is required to give effect to the 'yes' referendum result. This Welsh Ministers' Order sets out the coming into force date of the Assembly Act provisions, namely 5 May. That means that the Assembly that is elected in May will be able to consider Assembly Bills from the outset. Provision to save Assembly Measures that are approved by this Assembly before dissolution are also covered by the commencement Order. If it is approved, it will allow Assembly Measures to go to Privy Council for Her Majesty's approval to become law after 5 May.

Y Prif Weinidog: Y darn sylweddol olaf o ddeddfwriaeth sydd ei angen i roi canlyniad 'ie' y refferendwm ar waith yw'r Gorchymyn cychwyn hwn, sy'n ofynnol o dan adran 105 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru yn nodi'r dyddiad y bydd darpariaethau Deddfau'r Cynulliad yn dod i rym, sef 5 Mai. Golyga hynny y bydd y Cynulliad sy'n cael ei ethol ym mis Mai yn gallu ystyried Biliau'r Cynulliad o'r cychwyn cyntaf. Mae darpariaeth i arbed Mesurau'r Cynulliad a gymeradwyir gan y Cynulliad hwn cyn y diddymu yn cael ei chwmpasu gan y Gorchymyn cychwyn. Os caiff ei gymeradwyo, bydd yn caniatáu i Filiau'r Cynulliad fynd i'r Cyfrin Gyngor ar gyfer cymeradwyaeth Ei Mawrhydi i ddod yn gyfraith ar ôl 5 Mai.

The Order also makes changes to legislation that are appropriate following the coming into force of the Assembly Act provisions. The Government of Wales Act 2006 is amended to provide clear arrangements for the creation of an official print and copy of

Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud y newidiadau priodol i ddeddfwriaeth yn sgil rhoi darpariaethau Deddfau'r Cynulliad ar waith. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei diwygio i ddarparu trefniadau clir ar gyfer creu print a chopi swyddogol o

an Assembly Act. The official prints of the Assembly Acts and the associated Letters Patent will also be preserved in Wales by the National Library of Wales for current and future generations to see.

Further amendments to legislation are made in the commencement Order. Where pieces of legislation refer to Assembly Measures but need to refer to Assembly Acts, and where it is appropriate to do so, they will be amended. Where there is reference to Assembly Measures in previous legislation, that needs to be updated, given that Acts will be the appropriate form of legislation after May.

Bydd y Gorchymyn cychwyn hwn yn rhoi canlyniad y refferendwm ar waith. O'r herwydd, cynigiaf y cynnig.

Rhodri Morgan: As my political career will be coming to an end later this week, I am grateful to have the opportunity to contribute to the discussion of this Order, because it is not just a discussion about a legislative change; there is an enormous psychological change, signified by the ability to pass this Order. Given its unbelievably difficult start, you could almost write an entire midwifery textbook on the back of the Assembly's birth pangs back in 1997, 1998 and 1999.

Felly, arwyddocâd y bleidlais 'ie' ar ddechrau'r mis hwn oedd bod lefel yr hyder, yr ymddiriedaeth a'r ddealltwriaeth o ran swyddogaeth y corff hwn wedi codi'n syfrdanol, yn enwedig yn ochr ddwyreiniol Cymru. Dyna sydd wedi rhoi'r hwb i symud datganoli yn ei flaen, er mwyn i Gymru gael, am y tro cyntaf, gorff deddfu cyflawn.

We have a fully-fledged devolved legislature for Wales. So, is it 'job done'? Well, no. It may be for me, of course, so it is certainly a fitting time for me to step off the train before it accelerates away from the legislative station—whether it will be hauled by an electric or diesel loco, we do not know yet. Is it 'job done' in other ways? In some ways, it is pretty good; I think that the quality of life in Wales is second to none. We have survived the worst recession since the 1930s

Ddeddf y Cynulliad. Bydd printiau swyddogol Deddfau'r Cynulliad a'r Patent Llythyrau cysylltiedig hefyd yn cael eu cadw yng Nghymru gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru fel y gall cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol eu gweld.

Gwneir diwygiadau pellach i ddeddfwriaeth yn y Gorchymyn cychwyn. Lle mae darnau o ddeddfwriaeth yn cyfeirio at Fesurau'r Cynulliad ond mae angen iddynt gyfeirio at Ddeddfau'r Cynulliad, a lle mae'n briodol gwneud hynny, byddant yn cael eu diwygio. Lle ceir cyfeiriad at Fesurau'r Cynulliad mewn deddfwriaeth flaenorol, bydd angen ei diweddarau, gan mai Deddfau a fydd y ffurf briodol o ddeddfwriaeth ar ôl mis Mai.

This commencement Order will enact the referendum result. For that reason, I move the motion.

Rhodri Morgan: Gan y bydd fy ngyrfa wleidyddol yn dod i ben yn ddiweddarach yr wythnos hon, yr wyf yn ddiolchgar am gael y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth ar y Gorchymyn hwn, oherwydd nid trafodaeth am newid deddfwriaethol yw yn unig; ceir newid seicolegol enfawr, a ddynodir gan y gallu i basio'r Gorchymyn hwn. O ystyried ei ddechrau anhygoel o anodd, bron na allech ysgrifennu gwerslyfr bydwreigiaeth cyfan yn sgil gwewyr genedigaeth y Cynulliad yn ôl ym 1997, 1998 a 1999.

So, the significance of the 'yes' vote at the beginning of this month was that the level of confidence, trust and understanding with regard to this institution's work has risen enormously, particularly in eastern Wales. That is the springboard that has taken devolution forward, so that Wales, for the first time, has a full legislative body.

Mae gennym ddeddfwrfa ddatganoledig lawn ar gyfer Cymru. Felly, ai dyna ddiwedd y gwaith? Wel, na. Efallai mai felly y mae i mi, wrth gwrs, felly mae'n sicr yn amser addas i mi gamu oddi ar y trê'n cyn iddo gyflymu i ffwrdd oddi wrth yr orsaf ddeddfwriaethol—p'un ai y bydd yn cael ei dynnu gan loco trydan neu ddisel, nid ydym yn gwybod eto. Ai dyna ddiwedd y gwaith mewn ffyrdd eraill? Mewn rhai ffyrdd, mae'n sefyllfa eithaf da; credaf fod ansawdd bywyd yng

in remarkably resilient shape, it seems to me, given the exceedingly difficult circumstances we have had. Investment in the twenty-first century will ultimately flow to where the quality of life is highest, where the skills and infrastructure, including financial infrastructure, are of the best, and where the brightest and best entrepreneurs want to live and locate their businesses. On skills and infrastructure, you can look at the figures for apprenticeships, or you can look to our universities, some of which now have Nobel prize-winners on their staff. You can look at the success of the ProAct and ReAct schemes, or at the voluntary sector, which contributes so much to the richness of our community life—I will just pick out a few examples: there is the Venture in Wrexham, and Valleys Kids in the Rhondda. From my constituency, there is Chapter, which will celebrate its fortieth anniversary next year—I was in at the birth of that—and Goodies in Hoodies, which is a new one. These are remarkable signs of really healthy community life and the good society—or the big society—already at work.

Examples of the ‘not so good’ include the PISA report, which we have just been discussing. That was a Sputnik moment for everybody involved in education, whether it is us, the 22 local education authorities, schools in Wales, Estyn or the teacher training colleges. We do not wish to engage in breast-beating about the PISA report; we want to find out what it is that New Zealand and Finland and Canada are doing better than us, then pinch it and do it better than them next time around.

Do I have any other regrets? When we brought in free prescriptions, I wish now that we had done what Finland did some 10 or 15 years ago, which was to have competitions for the fittest village in Wales, or even the fittest Valley—they do not have valleys in Finland, but they have those competitions—and perhaps we could have introduced them when we brought in free prescriptions had I really tried to drive the idea through. It would not have been easy, but they have done it in Finland and I cannot see why we could not

Nghymru heb ei ail. Yr ydym wedi goroesi'r dirwasgiad gwaethaf ers y 1930au mewn cyflwr hynod o wydn, fe ymddengys i mi, o ystyried yr amgylchiadau hynod anodd yr ydym wedi'u cael. Bydd buddsoddi yn yr unfed ganrif ar hugain yn y pen draw yn llifo i le mae ansawdd bywyd ar ei uchaf, lle mae'r sgiliau a seilwaith, gan gynnwys seilwaith ariannol, ymhlith y gorau, a lle mae'r entrepreneuriaid disgleiriaf a gorau am fyw a lleoli eu busnesau. Ar sgiliau a seilwaith, gallwch edrych ar y ffigurau ar gyfer prentisiaethau, neu gallwch edrych ar ein prifysgolion, a rhai ohonynt erbyn hyn ag enillwyr gwobr Nobel ar eu staff. Gallwch edrych ar lwyddiant y cynlluniau ProAct a ReAct, neu'r sector gwirfoddol, sy'n cyfrannu cymaint at gyfoeth ein bywyd cymunedol—dewisaf ychydig o enghreifftiau: mae y Fentur yn Wrecsam, a Phlant y Cymoedd yn y Rhondda. Yn f'etholaeth, mae Chapter, a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 40 flwyddyn nesaf—bûm yn dyst i'w genedigaeth—a Goodies in Hoodies, sydd yn un newydd. Mae'r rhain yn arwyddion rhyfeddol o fywyd cymunedol iach iawn ac o'r gymdeithas dda—neu'r gymdeithas fawr—eisoes ar waith.

Mae enghreifftiau sydd ‘ddim cystal’ yn cynnwys yr adroddiad PISA yr ydym newydd ei drafod. Yr oedd hwnnw yn foment Sputnik ar gyfer pawb sy'n ymwneud ag addysg, boed hynny yn ni, y 22 awdurdod addysg lleol, ysgolion yng Nghymru, Estyn neu'r colegau hyfforddi athrawon. Nid ydym yn dymuno cymryd rhan mewn curo'n mynwes am adroddiad PISA; yr ydym eisiau gwybod beth mae Seland Newydd, y Ffindir a Chanada yn ei wneud yn well na ni, ei ddwgyd a'i wneud yn well na nhw'r tro nesaf.

A wyf yn gresynu unrhyw beth arall? Pan wnaethom gyflwyno presgripsiynau am ddim, hoffwn yn awr ein bod wedi gwneud yr hyn a wnaeth y Ffindir tua 10 neu 15 mlynedd yn ôl, sef cynnal cystadlaethau ar gyfer y pentref mwyaf heini yng Nghymru, neu hyd yn oed y Cwm mwyaf heini—nid oes ganddynt gymoedd yn y Ffindir, ond mae ganddynt y cystadlaethau hynny—ac efallai y gallem fod wedi eu cyflwyno pan wnaethom gyflwyno'r presgripsiynau am ddim pe bawn i wir wedi ceisio gyrru'r syniad hwnnw. Ni

have done it here. We were not strategic enough in the first half of the Objective 1 programme in 2000-03, nor did we push local government hard enough on the Beecham agenda.

Then, of course, on funding the Assembly, I made a speech in the 1998 House of Commons discussion that led to the Government of Wales Act 1998, saying that, for devolution to be sustainable, you must have two things: you must have a proper resource allocation formula, and you must have a proper disputes resolution process. We do not yet have either. I do not think that it is an insuperable job, however. Think of how the Government in Westminster accepted the verdict of the Office for National Statistics over the private finance initiative; it did not quarrel with that verdict, it simply said to the ONS, which is an independent parliamentary body, 'Okay, whatever you say' on whether the debts under the PFI schemes should be included on the balance sheet or left off it. The Government wanted them off the balance sheet, but the ONS ruled that they should be on the balance sheet, and the Government accepted that. If the Government can accept that verdict, despite the fact that all UK Governments have traditionally thought of themselves as being absolutely sovereign, it shows that it can accept somebody else's verdict—the Government did over PFI, so there is no reason why a variant of the ONS could not have been brought in to rule, as the Commonwealth Grants Commission does in disputes over federal funding versus state funding in Australia. Alternatively, some variant of the Privy Council could be brought in.

4.00 p.m.

However, we need this. We were operating on Barnett plus for a lot of the Objective 1 period. However, when the Olympics came along—I know that it only comes along once every 50 years—it was a minus. There was therefore a subtraction from Barnett plus because of the way in which the Olympic

fuasai wedi bod yn hawdd, ond maent wedi gwneud hynny yn y Ffindir ac ni allaf weld pam na allem fod wedi gwneud hynny yma. Nid oeddem yn ddigon strategol yn ystod hanner cyntaf y rhaglen Amcan 1 yn 2000-03, ac ni wnaethom wthio llywodraeth leol yn ddigon caled ar agenda Beecham.

Yna, wrth gwrs, ar gyllid y Cynulliad, gwneuthum araith yn nhrafodaeth Tŷ'r Cyffredin ym 1998 a arweiniodd at Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, gan ddweud, er mwyn i ddatganoli fod yn gynaliadwy, rhaid wrth ddau beth: mae'n rhaid wrth fformiwla dyrannu adnoddau priodol, a rhaid wrth broses datrys anghydfodau priodol. Nid oes gennym yr un ohonynt eto. Nid wyf yn credu ei bod yn waith anorchfygol, fodd bynnag. Meddyliwch am sut dderbyniodd y Llywodraeth yn San Steffan ddyfarniad y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol am fenter cyllid preifat: nid oedd yn cweryla â'r dyfarniad hwnnw, yn syml, dywedodd wrth y swyddfa ystadegau, sy'n gorff seneddol annibynnol, 'Iawn, beth bynnag a ddywedwch' ynghylch a ddylai'r dyledion o dan y cynlluniau PFI gael eu cynnwys ar y fantolen neu eu gadael oddi arno. Yr oedd y Llywodraeth eisiau eu tynnu oddi ar y fantolen, ond dyfarnodd y swyddfa ystadegau y dylent fod ar y fantolen, a derbyniodd y Llywodraeth hynny. Os gall y Llywodraeth dderbyn y dyfarniad hwnnw, er gwaethaf y ffaith bod holl Lywodraethau'r DU wedi ystyried yn draddodiadol eu bod yn hollol sofran, dengys y gall dderbyn dyfarniad rhywun arall—dyna wnaeth y Llywodraeth gyda PFI, felly nid oes unrhyw reswm pam na ellid dwyn amrywiad ar y swyddfa ystadegau i mewn i reoli, fel y gwna Comisiwn Grantiau'r Gymanwlad ar anghydfodau ynghylch ariannu ffederal yn erbyn ariannu'r wladwriaeth yn Awstralia. Fel arall, gallai rhyw amrywiad ar y Cyfrin Gyngor gael ei dwyn i mewn.

Fodd bynnag, mae angen hyn arnom. Yr oeddem yn gweithredu ar Barnett plws yn ystod llawer o gyfnod Amcan 1. Fodd bynnag, pan ddaeth y Gemau Olympaidd—gwn fod hyn ond yn digwydd unwaith bob 50 mlynedd—yr oedd yn finws. Felly tynnwyd oddi wrth Barnett plws oherwydd y ffordd y

Games were structured, quite wrongly in my view, as regards the legacy expenditure—not so much the sports stadia and so on, but the expenditure on transport and urban regeneration. The logical conclusion is that the United Kingdom will have to move to a written constitution at some point, perhaps after my time. I would like to think that that might happen before I pop my clogs, and certainly within the next 10 years. A written constitution would then enshrine the disputes resolution mechanism and the resource allocation formula. I will finish on a line of English poetry that I loved reciting at junior school:

‘For men may come and men may go, but I go on forever.’

I sometimes go on forever, I know. [*Laughter.*] The lines are about a brook. The significance is that politicians may come and politicians may go, but institutions such as this go on forever and develop. That is the key. I am hoping that we can adapt that phraseology to say that this institution will go on forever and go on developing forever, so that it can continue to provide an ever better service for the people of Wales. I am enormously grateful for having been in at the founding of it in 1999 and now bowing out in 2011, 12 years later.

Y Llywydd: Diolch yn fawr iawn, Rhodri.

In relation to assessing the impact of the work that we do, the requirements have been extended to include assessments of current policies and practices when they are being reviewed or updated, not just proposals for new policies or practices. Reporting by Welsh Ministers on the progress of relevant Welsh authorities towards compliance with the general public sector duty will happen every four years, with an interim report every two years. I have also sought to provide additional clarification and prescription in areas where it is considered necessary, and I have listened to the views and representations that have been expressed about the list of relevant Welsh public authorities that are subject to these new duties. As such, I have made further changes to the draft Order over and above those set out in the consultation. I

Rwyf wedi gwranddo ar yr hyn mae ein rhanddeiliaid a phartneriaid wedi dweud wrthyf, ac rwyf wedi gwneud newidiadau lle'r oeddwn yn teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny. Rwyf wedi atgyfnerthu'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau i adlewyrchu heriau penodol sy'n dal i wynebu menywod yn y gweithle. Mae dyletswyddau ar wahân mewn perthynas â gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau wedi cael eu cynnwys, ac nid y lleiaf yw'r gofyniad am gynllun gweithredu a'r angen i awdurdodau bennu amcanion cydraddoldeb i fynd i'r afael ag achosion unrhyw wahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau a nodwyd, neu i esbonio yn gyhoeddus beth yw eu rhesymau dros beidio â gwneud hynny. Bydd y ddarpariaeth ar gyflog a chasglu gwybodaeth am gyflogaeth bellach yn berthnasol i'r nodweddion gwarchoddedig o gyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, ac mae'r ddarpariaeth am ymgysylltu hefyd wedi cael ei diwygio i gynnwys dyletswydd i ystyried yr angen i ymgynghori a chynnwys y rhai sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Mae hynny'n adlewyrchu'n well ein bwriad bod y rhai a fydd yn elwa o'r dyletswyddau yn gallu ymgysylltu gydag a helpu i lywio gwaith awdurdodau wrth iddynt gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn.

Mewn perthynas ag asesu effaith ein gwaith, mae'r gofynion wedi cael eu hymestyn i gynnwys asesiadau o bolisiau ac arferion presennol pan fyddant yn cael eu hadolygu neu eu diweddarau, nid dim ond cynigion ar gyfer polisiau neu arferion newydd. Bydd Gweinidogion Cymru yn adrodd ar gynnydd awdurdodau Cymreig perthnasol tuag at gydymffurfio â'r ddyletswydd sector cyhoeddus gyffredinol bob pedair blynedd, gydag adroddiad interim bob dwy flynedd. Rwyf hefyd wedi ceisio rhoi eglurhad a chyfarwyddyd ychwanegol mewn ardaloedd lle mae hynny'n cael ei ystyried yn angenrheidiol, ac rwyf wedi gwranddo ar y safbwyntiau a sylwadau sydd wedi eu mynegi am y rhestr o awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau newydd. Fel y cyfryw, rwyf

have retained community health councils and governing bodies in Part 2 of Schedule 19 to the Equality Act 2010, and I have also included the board of community health councils in Wales. I have amended the listing for the Counsel General, and the general and specific duties are now to apply to all the Counsel General's statutory functions.

I have also given full and detailed consideration to the case for exemption that has been made by the Public Services Ombudsman for Wales, who has asked for the removal of his office from the relevant listed Welsh public authorities. I have carefully considered the representation that has been made, but remain unconvinced that the application of the general and specific duties will be a fundamental obstacle to the vital work of the ombudsman. The Chair of the Constitutional Affairs Committee has identified the case for exemption by the Public Services Ombudsman for Wales as a merits point in the committee's report, and I have written to the Chair advising her of the reasons for my decision on this matter. The draft regulations and draft Order have been brought before the National Assembly for Wales following formal consultation with the Equality and Human Rights Commission, as required by the Equality Act 2010, and the draft Order has received the consent of the Minister of the Crown.

We have a lot to celebrate in Wales in taking these proposals forward. I am aware that the equivalent duties in England and Scotland will not commence in April. With the approval of this Chamber, the Welsh Assembly Government will be able to make the relevant Order and regulations that will allow the draft Order will come into force on 4 April and the draft regulations on 6 April, supporting our devolved Welsh public authorities in their better compliance with the general duty when it is commenced by the UK Government following 5 April.

wedi gwneud newidiadau pellach i'r Gorchymyn drafft tu hwnt i'r rhai a nodir yn yr ymgynghoriad. Rwyf wedi cadw cynghorau iechyd cymuned a chyrff llywodraethu yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac rwyf hefyd wedi cynnwys bwrdd cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru. Rwyf wedi newid y rhestr ar gyfer y Cwnsler Cyffredinol, a bydd y dyletswyddau cyffredinol a phenodol yn awr yn gymwys i holl swyddogaethau statudol y Cwnsler Cyffredinol.

Rwyf hefyd wedi rhoi ystyriaeth lawn a manwl i'r achos dros gael ei eithrio a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sydd wedi gofyn am gael gwared ar ei swydd o'r awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol wedi eu rhestru. Rwyf wedi ystyried yn ofalus y sylwadau a wnaed, ond rwy'n parhau heb fy argyhoeddi y bydd cymhwyso'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol yn rhwystr sylfaenol i waith hanfodol yr ombwdsmon. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol wedi nodi'r achos dros gael ei eithrio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel pwynt teilyngdod yn adroddiad y pwyllgor, ac rwyf wedi ysgrifennu at y Cadeirydd yn ei hysbysu o'r rhesymau dros fy mhenderfyniad ar y mater hwn. Mae'r rheoliadau drafft a'r Gorchymyn drafft wedi cael eu dwyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'r Gorchymyn drafft wedi cael caniatâd Gweinidog y Goron.

Mae gennym lawer i'w ddathlu yng Nghymru wrth ddwyn y cynigion hyn ymlaen. Rwy'n ymwybodol na fydd y dyletswyddau cyfatebol yn Lloegr a'r Alban yn cychwyn ym mis Ebrill. Gyda chymeradwyaeth y Siambr hon, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu gwneud y Gorchymyn a rheoliadau perthnasol a fydd yn caniatáu'r Gorchymyn drafft i ddod i rym ar 4 Ebrill a'r rheoliadau drafft ar 6 Ebrill, gan gefnogi ein hawdurdodau cyhoeddus wedi eu datganoli yng Nghymru yn eu cydymffurfiad gwell â'r ddyletswydd gyffredinol pan fydd yn cael ei chychwyn gan Lywodraeth y DU wedi 5 Ebrill.

Mohammad Asghar: I am pleased to confirm that the Welsh Conservatives will be voting in favour of these two motions today. As we all know, the central focus of the Equality Act 2010 is the implementation of the public sector equality duty. I welcome the broad and extensive consultation that has taken place on the duties that are specific to Wales. However, I note with concern the rejection of the request of the Public Services Ombudsman for Wales for exemption from both the specific and general duties in respect of various casework functions. I am concerned that the Constitutional Affairs Committee has found that the Assembly Government response is 'cursory'. It recommends that the Welsh Assembly Government monitors the inclusion of the ombudsman closely as this is taken forward.

Mohammad Asghar: Rwy'n falch o gadarnhau y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn pleidleisio o blaid y ddau gynnig hyn heddiw. Fel rydym i gyd yn gwybod, ffocws canolog Deddf Cydraddoldeb 2010 yw gweithredu dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus. Croesawaf yr ymgynghoriad eang a helaeth sydd wedi bod ar y dyletswyddau sy'n benodol i Gymru. Fodd bynnag, nodaf gyda phryder y gwrthodiad o gais Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gael ei eithrio rhag y dyletswyddau penodol a chyffredinol mewn perthynas â swyddogaethau gwaith achos amrywiol. Rwy'n pryderu bod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol wedi canfod bod ymateb Llywodraeth y Cynulliad yn 'frysiog'. Mae'n argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro cynnwys yr ombwdsmon yn agos wrth ddwyn hyn mlaen.

4.30 p.m.

On item 9, the listed public authorities will now need to comply with a series of specific duties, including detailing the equality objectives, promoting engagement with stakeholders, collecting information, tackling unequal pay and drawing up strategic equality plans. As I said to the Minister last September, Welsh public bodies can expect additional regulatory procedures in comparison with their counterparts in England, as well as cross-border authorities. This is another thing that I feel needs to be monitored after these duties come into force.

Ar eitem 9, bydd yr awdurdodau cyhoeddus a restrir yn awr angen cydymffurfio â chyfres o ddyletswyddau penodol, gan gynnwys manylion yr amcanion cydraddoldeb, hybu ymgysylltu â rhanddeiliaid, casglu gwybodaeth, mynd i'r afael â chyflog anghyfartal a llunio cynlluniau cydraddoldeb strategol. Fel y dywedais wrth y Gweinidog fis Medi diwethaf, gall cyrff cyhoeddus Cymru ddisgwyl gweithdrefnau rheoleiddio ychwanegol o gymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr, yn ogystal ag awdurdodau trawsffiniol. Mae hyn yn rhywbeth arall rwy'n teimlo bod angen ei fonitro ar ôl i'r dyletswyddau hyn ddod i rym.

We, on this side of the Chamber, offer our general support for these motions and hope that the duties will help us address some of the unique challenges linked to equality that we face in Wales. There are challenges ahead, but these duties will help ensure that public bodies take the right action with regard to advancing equality, eliminating discrimination and fostering good relations.

Rydym ni, ar yr ochr hon o'r Siambr, yn cynnig ein cefnogaeth gyffredinol i'r y cynigion hyn ac rwy'n gobeithio y bydd y dyletswyddau yn ein helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau unigryw sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru. Mae heriau o'n blaen, ond bydd y dyletswyddau hyn yn helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cymryd y camau iawn o ran hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da.

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): I thank the Member for his contribution and the support of his opposition party. I would also like to

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad ac am gefnogaeth ei wrthblaid. Hoffwn hefyd

thank other Members for their contributions and pick up on some of the points made. You are absolutely right, Oscar, that this is a new dawn with regard to equality regulations across Wales; we are the leading light on equality duties. In fact, with regard to the regulations that were not passed in Scotland, reference was made to Wales in a proposal of good practice. That is something that we should be proud of as an Assembly, and I welcome your thoughts on that.

I would like to thank all who have contributed to the development of the duties over the past two years and who have responded fully to the listening exercise and the consultation exercises that Oscar rightly mentioned. We have received a range of valuable and helpful comments and suggestions, and I am pleased that we have been able to incorporate them in the revised draft regulations and draft Order that I bring forward today.

I am aware of the thoughts of the Chair of the Constitutional Affairs Committee on the inclusion of the Public Services Ombudsman for Wales and I want to point out that we believe that we were consistent in the way that we operated. We are aware that during the passage of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 through the Assembly, the Minister for Heritage wrote to the public services ombudsman informing him that he would not be excluded from the duties imposed by the Welsh language Measure. I understand that the Constitutional Affairs Committee also considered the Welsh language Measure, but did not raise the same points with regard to that Measure, so these points came as somewhat of a surprise to us.

The draft regulations and draft Order are 100% made in Wales. This is the first time that we have been able to bring forward equality legislation in Wales and I believe that these regulations can bring about real change in terms of people's lives and life chances. I would also like to place on record my thanks to the Equality and Human Rights Commission in Wales for its contribution and input to these regulations, and for its ongoing work in developing the non-statutory guidance and statutory codes of practice that

ddiolch i Aelodau eraill am eu cyfraniadau gan sôn am rai o'r pwyntiau a wnaed. Rydych yn hollol gywir, Oscar, fod hyn yn wawr newydd o ran rheoliadau cydraddoldeb ledled Cymru; ni sy'n arwain ar ddyletswyddau cydraddoldeb. Yn wir, o ran y rheoliadau na chafodd eu pasio yn yr Alban, cyfeiriwyd at Gymru fel arfer da mewn cynnig. Mae hynny'n rhywbeth y dylem fod yn falch ohono fel Cynulliad, a chroesawaf eich sylwadau ar hynny.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r dyletswyddau dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac sydd wedi ymateb yn llawn i'r ymarfer gwrando a'r ymarferion ymgynghori y soniodd Oscar amdanynt yn ddigon cywir. Rydym wedi derbyn amrywiaeth o sylwadau ac awgrymiadau gwerthfawr a defnyddiol, ac rwy'n falch ein bod wedi gallu eu hymgorffori yn y rheoliadau drafft diwygiedig a'r Gorchymyn drafft rwy'n ei gyflwyno heddiw.

Rwy'n ymwybodol o farn Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ar gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac rwyf am nodi ein bod yn credu y buom yn gyson yn y ffordd y bu i ni weithredu. Rydym yn ymwybodol, yn ystod hynt Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 drwy'r Cynulliad, yr ysgrifennodd y Gweinidog dros Dreftadaeth at yr ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus yn ei hysbysu na fyddai'n cael ei eithrio o'r dyletswyddau a osodwyd gan Fesur y Gymraeg. Deallaf fod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol hefyd wedi ystyried Mesur y Gymraeg, ond nid oedd yn codi'r un pwyntiau o ran y Mesur hwnnw, felly daeth y pwyntiau hyn yn dipyn o syndod i ni.

Yng Nghymru y gwnaeth yr holl reoliadau drafft a'r Gorchymyn drafft. Dyma'r tro cyntaf i ni allu cyflwyno deddfwriaeth gydraddoldeb yng Nghymru, ac rwy'n credu y gall y rheoliadau hyn ddod â newid gwirioneddol i fywydau pobl a'u cyfleoedd mewn bywyd. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru am ei gyfraniad i'r rheoliadau hyn, ac am ei waith parhaus wrth ddatblygu'r canllawiau anstatudol a chodau ymarfer statudol a fydd yn helpu i ddarparu cyngor a

will help to provide advice and support for those relevant authorities.

The new general public sector equality duty, supported by the draft regulations and draft Order, will put equality at the heart of the work of the public sector in Wales. I urge all Members to support the Draft Equality Act 2010 (Specification of Relevant Welsh Authorities) Order 2011 and the Draft Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion to approve the Draft Equality Act 2010 (Specification of Relevant Welsh Authorities) Order 2011. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

The Deputy Presiding Officer: The next proposal is to agree the motion to approve the Draft Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

cymorth i'r awdurdodau perthnasol hynny.

Bydd y ddyletswydd gydraddoldeb newydd ar y sector cyhoeddus, a ategir gan y rheoliadau drafft a'r Gorchymyn drafft, yn rhoi cydraddoldeb wrth wraidd gwaith y sector cyhoeddus yng Nghymru. Anogaf bob Aelod i gefnogi Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Derbynnir y cynnig felly yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig nesaf yw derbyn y cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Derbynnir y cynnig felly yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Mesur Seneddol Diwygio Lles

Legislative Consent Motion in respect of the Welfare Reform Bill

Cynnig NDM4713 Leighton Andrews

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth mewn perthynas â lles a gwasanaethau penodol a geir yn y Bil Diwygio Lles, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 16 Chwefror 2011, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Motion NDM4713 Leighton Andrews

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.4, agrees that those provisions concerning information sharing in relation to welfare and certain care services contained within the Welfare Reform Bill, as introduced into the House of Commons on the 16th February 2011, so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): I move the motion.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Cynigaf y cynnig.

The Deputy Presiding Officer: I see that there are no speakers in this debate. Minister, do you wish to say anything at this point?

Y Dirprwy Lywydd: Gwelaf nad oes siaradwyr ar gyfer y ddadl hon. Weinidog, a hoffech ddweud unrhyw beth nawr?

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): No.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Na hoffwn.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Derbynnir y cynnig felly yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

**Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.57 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch
Addysg (Cymru)
Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed Education (Wales)
Measure**

The Deputy Presiding Officer: I have selected all of the amendments tabled and, for the purposes of debate, I have grouped the amendments as shown on the groupings list, but we will vote on the amendments in accordance with the marshalled list.

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol yr holl welliannau a gyflwynwyd ac, at ddibenion y ddadl, rwyf wedi grwpio'r gwelliannau fel y dangosir yn y rhestr grwpio, ond byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli.

**Grŵp 1: Amcan y Cydlafurio (Gwelliant 1)
Group 1: Collaboration Objective (Amendment 1)**

The Deputy Presiding Officer: I call on David Melding to move amendment 1 and to speak to it.

Y Dirprwy Lywydd: Galwaf ar David Melding i gynnig gwelliant 1 ac i siarad amdano.

David Melding: I move amendment 1 in my name.

David Melding: Cynigaf welliant 1 yn fy enw i.

This is a simple amendment. I would like to call it 'the PISA amendment' because, at present, the collaboration objective is framed in terms of efficiency. We do not object to that, but we think that all measures to increase the level of collaboration ought also to refer to improving education standards. It is important that this appears on the face of the Measure. I know what the Minister is going to say, because he said it in committee,

Gwelliant syml yw hwn. Hoffwn ei alw yn 'welliant PISA' oherwydd, ar hyn o bryd, mae'r amcan cydweithredol wedi ei fframio o ran effeithlonrwydd. Nid ydym yn gwrthwynebu hynny, ond rydym yn credu y dylai'r holl fesurau i gynyddu lefel cydweithio hefyd gyfeirio at wella safonau addysg. Mae'n bwysig bod hyn yn ymddangos ar wyneb y Mesur. Rwy'n gwybod beth fydd y Gweinidog yn ei

but we are a charitable lot on this side of the Assembly and we are prepared to give him another chance to repent. He is going to say that the notion of improving education standards is already implicit in the reference to seeking greater efficiency. I do not deny that, in his mind, that is true, but I think he ought to take this opportunity to shout loud and clear that the first purpose of legislation on education in this Assembly ought to be to drive up education standards so that we rise from the bottom of the table in the whole of the UK, and it would show that we take the PISA results seriously. Therefore, I urge Members to support this simple amendment that does nothing other than improve the legislation.

The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Leighton Andrews): David Melding tabled the same amendment at Stage 2. He did not convince the committee to vote for it then and I remain un-persuaded. I certainly take the PISA results seriously and I agree with David Melding in two respects: the law should be clear and education standards and outcomes for learners should be part of the collaborative activity between education bodies. However, I explained during the committee debate why the amendment was unnecessary. There is only one purpose for education bodies to exist, and that is to provide learning. That is at the heart of the collaboration objective; it does not need extra words. 'Effective' means that resources are used to achieve an effective educational outcome. The collaboration objective is aimed at the better use of public finances by education bodies by sharing resources and expertise. In so doing, we would expect there to be a knock-on effect to improve education standards. As I said at the previous stage, we regard what David Melding is seeking to be already implicit.

Secondly, there is an important other reason why we should reject the amendment. If it were law, it would require education bodies to collaborate for the sake of improving education standards and outcomes irrespective of whether that meant that public resources were used either efficiently or

ddweud, oherwydd fe'i dywedodd yn y pwyllgor, ond rydym yn griw hael ar ochr hon y Cynulliad, ac rydym yn barod i roi cyfle arall iddo edifarhau. Bydd yn dweud bod y syniad o wella safonau addysg eisoes yn rhan annatod yn y cyfeiriad at geisio cael gwell effeithlonrwydd. Nid wyf yn gwadu bod hynny, yn ei farn ef, yn wir, ond credaf y dylai gymryd y cyfle hwn i ddatgan yn uchel a chlir mai diben cyntaf deddfwriaeth ar addysg yn y Cynulliad hwn ddylai fod i godi safonau addysg er mwyn i ni godi o waelod tabl y DU cyfan, a byddai'n dangos ein bod yn cymryd canlyniadau PISA o ddifrif. Felly, rwy'n annog Aelodau i gefnogi'r gwelliant syml hwn nad yw'n gwneud unrhyw beth heblaw gwella'r ddeddfwriaeth.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Leighton Andrews): Cyflwynodd David Melding yr un gwelliant yng Nghyfnod 2. Ni wnaeth argyhoeddi'r pwyllgor i bleidleisio drosto yr adeg honno ac nid wyf wedi cael fy argyhoeddi o hyd. Rwy'n sicr yn cymryd y canlyniadau PISA o ddifrif ac rwy'n cytuno â David Melding mewn dwy ffordd: dylai'r gyfraith fod yn glir a dylai safonau addysg a chanlyniadau ar gyfer dysgwyr fod yn rhan o'r gweithgarwch cydweithredol rhwng cyrff addysg. Fodd bynnag, eglurais yn ystod y ddadl yn y pwyllgor pam fod y gwelliant yn ddiangen. Dim ond un diben sydd gan gyrff addysg dros fodoli, a hynny yw i ddarparu dysg. Dyna sydd wrth wraidd yr amcan cydweithio; nid oes angen geiriau ychwanegol. Ystyr 'effeithiol' yw bod adnoddau'n cael eu defnyddio i gyflawni canlyniad addysgol effeithiol. Mae'r amcan cydweithio wedi'i anelu at wneud defnydd gwell o arian cyhoeddus gan gyrff addysg drwy rannu adnoddau ac arbenigedd. Wrth wneud hynny, byddem yn disgwyl y byddai effaith gynyddol i wella safonau addysg. Fel y dywedais yn y cyfnod blaenorol, rydym yn ystyried bod yr hyn y mae David Melding yn ei geisio eisoes yn ddealliedig.

Yn ail, mae rheswm pwysig arall pam y dylem wrthod y gwelliant. Pe bai'n gyfraith, byddai'n ofynnol i gyrff addysg gydweithio er mwyn gwella safonau addysg a chanlyniadau ni waeth a yw hynny'n golygu y defnyddiwyd adnoddau cyhoeddus naill ai'n effeithlon neu'n effeithiol. Nid wyf yn

effectively. I do not think that that is David Melding's intention, as he is simply seeking to make the collaboration objective clearer, but the amendment as drafted would not do that. The effect would be to force collaboration in ways that made no sense in making the education system either more effective or efficient. I agree that education bodies need to be clear about what the proposed Measure is seeking to achieve and I draw Members' attention to the statutory guidance that can be published under section 7, which will allow us to spell out in more detail what the collaboration objective is about. That is a better means to achieve what David Melding is seeking than his amendment. I urge Members to reject the amendment.

David Melding: I am disappointed, but not surprised, by the Minister's attitude. I honestly think that they forgot to put education standards as being central to this proposed Measure and are now rather too proud to back off, even after the consultation, which was rushed, but focused, given the timetable that we had to consider the proposed Measure. It was raised by the stakeholders that we ought to put education standards in there as a central aim of collaboration and as the reason for seeking collaboration, as well as having effectiveness and efficiency in there, which he is right about and which we would also propose. I urge Members to look through the rather weak arguments that have been presented against this amendment, and to vote to strengthen the proposed Measure in the manner that I have outlined.

The Deputy Presiding Officer: The question is that amendment 1 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move straight to a vote.

credu mai dyna yw bwriad David Melding, gan ei fod yn syml yn ceisio gwneud yr amcan cydweithio yn gliriach, ond ni fyddai'r gwelliant fel y'i drafftiwyd yn gwneud hynny. Yr effaith fyddai gorfodi cydweithio mewn ffyrdd nad oedd yn gwneud unrhyw synnwyr i wneud y system addysg naill ai'n fwy effeithiol neu effeithlon. Rwy'n cytuno bod cyrff addysg angen bod yn glir am yr hyn mae'r Mesur arfaethedig yn ceisio ei gyflawni a hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at y canllawiau statudol y gellir eu cyhoeddi o dan adran 7, a fydd yn ein galluogi i egluro amcan cydweithredu yn fanwl. Mae hynny'n ffordd well o gyflawni'r hyn y mae David Melding yn ei geisio nag ei welliant. Anogaf yr Aelodau i wrthod y gwelliant.

David Melding: Rwy'n siomedig, ond nid wyf wedi fy synnu, gan agwedd y Gweinidog. Rwyf wir yn meddwl eu bod wedi anghofio rhoi safonau addysg yn ganolog i'r Mesur arfaethedig a'u bod bellach yn rhy falch i dynnu'n ôl, hyd yn oed ar ôl yr ymgynghoriad, a oedd wedi'i ruthro, ond oedd â ffocws, o ystyried yr amserlen a oedd gennym i ystyried y Mesur arfaethedig. Dywedodd y rhanddeiliaid y dylem roi safonau addysg yno fel un o amcanion canolog cydweithio ac fel y rheswm dros geisio cydweithio, yn ogystal â chael effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yno, y mae ef yn iawn yn ei gylch ac y byddem ni hefyd yn ei gynnig. Anogaf Aelodau i edrych drwy'r dadleuon eithaf gwan sydd wedi eu cyflwyno yn erbyn y gwelliant hwn, ac i bleidleisio i gryfhau'r Mesur arfaethedig yn y modd a amlinellwyd gennyf.

Y Dirprwy Lywydd: Y cwestiwn yw y ddylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn yn syth i bleidlais.

Gwelliant 1: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 29.

Amendment 1: For 13, Abstain 0, Against 29.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Bourne, Nick
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane

Davies, Paul
 German, Veronica
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny

Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Franks, Chris
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 1.
 Amendment 1 not agreed.*

**Grŵp 2: Cynigion Gan Awdurdodau Lleol i Ffedereiddio Ysgolion—Gofynion yr
 Ymgynghoriad ac Ysgolion Bach (Gwelliannau 2, 3 a 6)
 Group 2: Proposals by Local Authorities to Federate Schools—Consultation
 Requirements and Small Schools (Amendments 2, 3 and 6)**

The Deputy Presiding Officer: The lead amendment in this group is amendment 2. I call on David Melding to move the lead amendment and to speak to it and the other amendments in the group.

David Melding: I move amendment 2 in my name.

There are two parts to the amendments. The first is to extend the list of consultees in the legislation so that it does not include just governing bodies. The second is to make that consultation list apply to all schools, including small schools. If that part of the proposed Measure is not amended, there would be a separate procedure for small schools.

Consultation must always be thorough, but it should be more so when reorganising schools into federations. It has been accepted by many people that federations can strengthen the local delivery of education and we have no philosophical objection whatsoever to that structure. However, we need checks and

Y Dirprwy Lywydd: Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 2. Galwaf ar David Melding i gynnig y prif welliant ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

David Melding: Cynigïaf welliant 2 yn fy enw i.

Mae dwy ran i'r gwelliannau. Y cyntaf yw i ymestyn y rhestr o ymgynghoreion yn y ddeddfwriaeth fel nad yw'n cynnwys y cyrff llywodraethu yn unig. Yr ail yw gwneud y rhestr ymgynghori honno yn berthnasol i bob ysgol, gan gynnwys ysgolion bach. Os nad yw'r rhan honno o'r Mesur arfaethedig yn cael ei diwygio, byddai gweithdrefn ar wahân ar gyfer ysgolion bach.

Rhaid i ymgynghori fod yn drylwyr bob amser, ond dylai fod yn fwy felly wrth ad-drefnu ysgolion yn ffederasiynau. Mae nifer o bobl yn derbyn y gall ffederasiynau gryfhau'r ddarpariaeth leol o addysg ac nid oes gennym wrthwynebiad athronyddol o gwbl i'r strwythur hwnnw. Fodd bynnag,

balances, and we need federations when they truly will improve education standards and the delivery of education in a particular area. Again, we do not object to this in principle, but the most significant thing that the proposed Measure does, and I will spell it out, is this: instead of the power of initiation resting with schools so that they come together to propose a federation voluntarily—although there have been no such voluntary movements in the more than seven years that the initiatives have been possible—the power of initiation to propose federations of particular schools and to require those schools to respond to the consultation will now move to the local authorities. That is a big change and therefore we believe that it requires appropriate checks and balances. That has driven the logic of most of our amendments at the committee stage and this afternoon.

We think that it is appropriate to list certain groups on the face of the proposed Measure as having to be consulted. Under amendment 2, those groups are: parents and guardians, pupils, staff and trade unions. It is a comprehensive list and it is appropriate that those people are mentioned specifically. I do not want to anticipate what the Minister will say, but I fear that he will repeat the points that he made in committee. Of course he wants those people to be consulted, and any reasonable Minister would do so. I hope that he will reaffirm that because at least it will then be on the record, which is some defence, but not a particularly adequate one, in our view. If he believes that, why not follow past legislative practice—there are precedents for this—and list the main categories that have to be consulted? It is not an exhaustive list, in that other groups can be consulted, but I would suggest that those are the core stakeholders in any proposal to federate schools.

Leighton Andrews: During the debate on the general principles of the proposed Measure, I acknowledged the concerns that had been raised about consultation, and subsequently tabled an amendment to address those, which

mae angen rhwystrau a gwrthbwsau arnom, ac mae angen ffederasiynau pan fyddant wir yn gwella safonau addysg a'r ddarpariaeth leol o addysg mewn ardal benodol. Unwaith eto, nid ydym yn gwrthwynebu hyn mewn egwyddor, ond y peth mwyaf arwyddocaol y mae'r Mesur arfaethedig yn ei wneud, a byddaf yn ei egluro'n fanwl, yw hyn: yn hytrach na bod y grym cychwyn yn gorffwys gydag ysgolion fel y gallant ddod at ei gilydd i gynnig ffederasiwn yn wirfoddol—er na fu unrhyw symudiadau gwirfoddol o'r fath yn y saith mlynedd a mwy y mae'r mentrau wedi bod yn bosibl—bydd y grym cychwyn i gynnig ffederasiynau o ysgolion penodol a sicrhau bod yr ysgolion hynny yn ymateb i'r ymgynghoriad bellach yn symud at yr awdurdodau lleol. Mae hynny'n newid mawr ac felly rydym yn credu bod angen y rhwystrau a gwrthbwsau priodol. Dyna yw sail rhesymeg y rhan fwyaf o'n gwelliannau yn ystod y cyfnod yn y pwyllgor a'r prynhawn yma.

Credwn ei bod yn briodol i restru grwpiau penodol ar wyneb y Mesur arfaethedig fel rhai y dylid ymgynghori â hwy. O dan welliant 2, y grwpiau hynny yw: rhieni a gwarcheidwaid, disgyblion, staff ac undebau llafur. Mae'n rhestr gynhwysfawr ac mae'n briodol y caiff y bobl hynny eu crybwyll yn benodol. Nid wyf am achub y blaen ar yr hyn fydd y Gweinidog yn ei ddweud, ond mae arnaf ofn y bydd yn ailadrodd y pwyntiau a wnaeth yn y pwyllgor. Wrth gwrs mae am ymgynghori â'r bobl hynny, a byddai unrhyw Weinidog rhesymol yn gwneud hynny. Rwy'n gobeithio y bydd yn ailddatgan hynny oherwydd o leiaf y bydd wedyn ar gofnod, sydd yn rhyw amddiffyniad, ond nid yn un arbennig o ddigonol, yn ein barn ni. Os yw'n credu hynny, pam nad yw'n dilyn arferion deddfwriaethol y gorffennol—mae cynsail ar gyfer hyn—a rhestru'r prif gategoriâu y mae'n rhaid ymgynghori â hwy? Nid yw'n rhestr gynhwysfawr, a gellir ymgynghori â grwpiau eraill, ond byddwn yn awgrymu mai hwy yw'r rhanddeiliaid craidd mewn unrhyw gynnig i ffederaleiddio ysgolion.

Leighton Andrews: Yn ystod y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, rwy'n cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch ymgynghori, ac o ganlyniad cyflwynais welliant i fynd i'r afael

was supported in Legislation Committee No. 5 on 2 March. Given that I have responded to those concerns, I am surprised that David Melding has tabled another amendment at this stage that is similar to the one that was rejected by the legislation committee. His amendment would extend the list of stakeholders that local authorities would be required to consult about their published federation proposals. Amendments 3 and 6 would strike out the consultation provisions in section 11 for small schools altogether. Put together, these amendments would mean that consultation arrangements for small schools would be the same as those for any other school. David Melding's view is that it is unfair that the same consultation arrangements do not apply to all schools.

4.45 p.m.

That suggests a concern that the section 15 Order-making mechanism could mean that arbitrary decisions are made about how small a school has to be for it to be categorised as such. I maintain that there is a strong, pragmatic case that justifies taking a different approach to small schools. Consultation of the kind that would apply to other schools means work for local authorities—I am of the view that work should be proportionate to the issue. In the case of smaller schools, fewer people will be affected. It is justifiable that there is a streamlined process for federation, even though it will be at the cost of its being arguably unfair to some individuals who will feel deprived of having their say.

Darren Millar: You made reference to small schools and the fact that less of an effort should be made to consult. Do you not recognise that it is in small communities that the closure of a school can have a dramatic impact, much greater than would the closure of a larger school in an urban area? Given that, do you not accept the need to strengthen the consultation processes? That is precisely why we are proposing this amendment.

Leighton Andrews: No, because we are not talking about the closure of schools; we are

â'r rheini, a gefnogwyd gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ar 2 Mawrth. Gan fy mod wedi ymateb i'r pryderon hynny, rwy'n synnu bod David Melding wedi cyflwyno gwelliant arall yn y cyfnod hwn sy'n debyg i'r un a wrthodwyd gan y pwyllgor deddfwriaeth. Byddai ei welliant yn ymestyn y rhestr o randdeiliaid y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â hwy ynghylch eu cynigion ffedereiddio a gyhoeddwyd. Byddai gwelliannau 3 a 6 yn dileu'r darpariaethau ymgynghori yn adran 11 ar gyfer ysgolion bach yn llwyr. O'u rhoi gyda'i gilydd, byddai'r gwelliannau hyn yn golygu y byddai trefniadau ymgynghori ar gyfer ysgolion bach yr un fath ag ar gyfer unrhyw ysgol arall. Barn David Melding yw ei bod yn annheg nad yw'r un trefniadau ymgynghori yn berthnasol i bob ysgol.

Mae hynny'n awgrymu pryder y gallai'r mecanwaith adran 15 ar gyfer gwneud Gorchymyn olygu bod penderfyniadau mympwyol yn cael eu gwneud ynghylch pa mor fach mae'n rhaid i ysgol fod er mwyn iddi gael ei chategoreiddio fel y cyfryw. Rwy'n haeru bod achos cryf a phragmatig sy'n cyfiawnhau defnyddio dulliau gwahanol ar gyfer ysgolion bach. Byddai ymgynghoriad o'r math a fyddai'n berthnasol i ysgolion eraill yn golygu gwaith ar gyfer awdurdodau lleol—rwyf o'r farn y dylai gwaith fod yn gymesur i'r mater. Yn achos ysgolion llai, bydd llai o bobl yn cael eu heffeithio. Mae'n gyfiawn bod proses symlach ar gyfer ffedereiddio, er y bydd ar draul bod yn annheg i rai unigolion a fydd yn teimlo iddynt gael eu hamddifadu rhag cael dweud eu dweud.

Darren Millar: Cyfeirioch at ysgolion bach a'r ffaith y dylid gwneud llai o ymdrech i ymgynghori. Onid ydych yn cydnabod mai mewn cymunedau bach y gall cau ysgol gael effaith ddramatig, llawer mwy nag y byddai cau ysgol fwy mewn ardal drefol? O gofio hynny, onid ydych yn derbyn yr angen i gryfhau'r prosesau ymgynghori? Dyna'n union pam ein bod yn cynnig y gwelliant hwn.

Leighton Andrews: Na, oherwydd nid ydym yn sôn am gau ysgolion; rydym yn sôn am

talking about the federation of schools, and that is—[*Interruption.*] Sorry, I have taken your intervention. We have clear provisions in respect of consultation processes for the closure of schools. What we are talking about here is what happens with regard to federation. I would urge the Member to look at the Viv Thomas report and the data that it published on small schools.

I think that, at the present time, the education system in Wales is inefficient and not effective enough. The PricewaterhouseCoopers report, which we published last year, suggested significant potential for improvement. Federation can be a useful part of that change. Much of the potential for federation is probably among small schools, where federation itself could, in some cases, act as an alternative to closure. I think that it would be a natural and sensible step to take to strengthen leadership and governance.

The Government amendment in my name at Stage 2 addressed the concerns about consultation on local authority proposals for school federation. David Melding's amendments seek to overturn that and remove an important element of the proposed Measure, and I believe that that would ultimately slow the progress of federation and limit its potential. I remain of the view that consultation should be proportionate to the size of the audience and the school, and that there is a sound case for a different approach. Members should, therefore, reject David Melding's amendments.

David Melding: I think that the Minister gave more away than he intended. 'Quick' is quite an operative word; I regard 'considered and thorough' to be better when dealing with a profound issue such as the governance and organisation of schools. If a school is small, the groups that are listed to be consulted will not be vast in size, will they? You will not have huge phalanxes of parents, pupils, teachers or trade unions involved. There is a natural mechanism that reduces the effort required for proper consultation, whether a school is large or small, and that allows for the same principle to apply to all schools.

ffedereiddio ysgolion, ac mae hynny—[*Torri ar draws.*] Mae'n ddrwg gennyf, rwyf wedi cymryd eich ymyriad. Mae gennym ddarpariaethau clir o ran y prosesau ymgynghori ar gyfer cau ysgolion. Yr hyn rydym yn trafod yma yw beth sy'n digwydd o ran ffedereiddio. Rwy'n annog yr Aelod i edrych ar adroddiad Viv Thomas a'r data a gyhoeddodd ar ysgolion bach.

Credaf, ar hyn o bryd, bod y system addysg yng Nghymru yn aneffeithlon ac nid yw'n ddigon effeithiol. Awgrymodd adroddiad PricewaterhouseCoopers, a gyhoeddwyd gennym y llynedd, fod potensial sylweddol ar gyfer gwella. Gall ffedereiddio fod yn rhan ddefnyddiol o'r newid hwnnw. Mae llawer o'r potensial ar gyfer ffedereiddio ymhlith ysgolion bach, lle gallai ffedereiddio, mewn rhai achosion, weithredu fel dewis amgen i gau. Credaf fod cryfhau arweinyddiaeth a llywodraethu yn gam naturiol a synhwyrol.

Roedd gwelliant y Llywodraeth yn fy enw i yn ystod Cyfnod 2 yn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch ymgynghori ar gynigion awdurdodau lleol ar gyfer ffedereiddio ysgolion. Mae gwelliannau David Melding yn ceisio gwrthdroi hynny a chael gwared ar elfen bwysig o'r Mesur arfaethedig, a chredaf y byddai hynny, yn y pen draw, yn arafu cynnydd ffedereiddio a chyfyngu ei botensial. Rwy'n dal o'r farn y dylai ymgynghori fod yn gymesur â maint y gynulleidfa a'r ysgol, a bod achos cadarn ar gyfer dull gwahanol. Dylai Aelodau, felly, wrthod gwelliannau David Melding.

David Melding: Credaf i'r Gweinidog ddatgelu mwy nag yr oedd yn bwriadu gwneud. Mae 'cyflym' yn air eithaf perthnasol; credaf fod 'ystyriol a thrylwyr' yn well wrth ddelio â mater mor ddwys â llywodraethu a threfniadaeth ysgolion. Os yw ysgol yn fach, ni fydd y grwpiau ar y rhestr ymgynghori yn helaeth eu maint. Ni fydd lluoedd enfawr o rieni, disgyblion, athrawon neu undebau llafur ynghlwm wrth y mater. Mae yna fecanwaith naturiol sy'n lleihau'r ymdrech sydd ei angen ar gyfer ymgynghori priodol, os yw ysgol yn fawr neu'n fach, ac mae hynny'n caniatáu i'r un egwyddor fod yn gymwys i bob ysgol.

When, in future years, Assembly Members, particularly those from Plaid Cymru, see schools being forced into federations that they may not have naturally proposed themselves, or see decisions that they may regret because of the actions taken by a single governing body representing all five schools in a five-school federation, I hope that they do not say, 'We think that this was all done very quickly and with poor consultation; we regret it and oppose it', and then go on local marches and that sort of thing under slogans saying, 'Defend our school; it should remain independent'. They are voting against a very constructive amendment that would give protection and encourage local authorities, because the process is so thorough, to propose federations that would genuinely improve educational standards and efficiency and keep more small schools open. There is real merit in that objective. You do not do it in a 'quick' way, with a strong force behind you and without thoroughly consulting the local people who would be affected. That is the way to rather inappropriate, heavy-handed and unresponsive behaviour, and I would urge Members to support our amendment.

The Deputy Presiding Officer: The question is that amendment 2 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

